

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR DYFFRYN CLWYD COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion Cyfarfod Cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd yn Ysgol Llanfair, nos Lun, 8 Ebrill 2019 am 7.00 pm.

PRESENNOL – Y Cynghorwyr Jayne Mayers [Cadeirydd], David Baker [Is-gadeirydd], Bob Barton, Wini Davies [Rhan 1 y cyfarfod], Moira Edwards [Rhan 1 y cyfarfod], Tim Faire, Keith Mouldsdales, Osian Owen, Ceri Ranson, Paul Weston ac Eirwen Godden, Clerc.

HEFYD YN BRESENNOL - 5 aelod o'r cyhoedd

YMDDIHEURIADAU Dim.

RHAN 1

539 DATGAN BUDDIANNAU Y Cynghorydd David Baker fel aelod o Gyngor Eglwys Llanfair a'r Cynghorydd Keith Mouldsdales fel ymddiriedolwr Pwyllgor Rheoli Neuadd Eleanor.

540 MATERION CYMUNEDOL

540.1 Safle'r hen ysgol / Ysgol Llanfair newydd Negeseuon e-bost dyddiedig 15/03/19 a 27/03/19 [yn cynnwys cynllun] gan Swyddog Moderneiddio Addysg Cyngor Sir Ddinbych yn rhoi diweddariad ynghylch adeiladu'r ysgol newydd. Mae'r gwaith adeiladu ar y safle ar trywydd cywir i'w cwblhau yn unol â chyfnod y cytundeb. Mae Cyngor Sir Ddinbych yn y broses o gytuno ar rwyddfaint gydag ymddiriedolwyr y perchennog tir i gael mynediad i'r draen dŵr budr. Yn y cyfamser mae'r gwaith yn parhau yn yr ardaloedd mewnol ac mae gwaith gosod cladin a rendro'r ardaloedd allanol bron â'i orffen. Bydd y gwaith yn parhau ar yr ardaloedd allanol, addurno mewnol a gosod y dodrefn yn ystod yr wythnosau nesaf. Gwnaed darpariaeth i adleoli'r diffibrilydd i'r safle newydd unwaith y bo'r ysgol ar agor, a fydd yn caniatáu i'r cyhoedd ei ddefnyddio, bwriedir ei osod ar y wal wrth fynedfa'r ysgol. Nid oedd gan yr aelodau unrhyw wrthwynebiad i hyn. Gofynnir hefyd i'r Cyngor Cymuned benderfynu lle dylid gosod yr hysbysfwrdd.

PENDERFYNWYD [a] hysbysu'r Swyddog Moderneiddio Addysg mai Achub Calon y Dyffryn sy'n gwirio ac yn cynnal a chadw'r offer, nid Ambiwllans Awyr Cymru [b] gohirio penderfyniad ynghylch adleoli'r hysbysfwrdd i gyfarfod yn y dyfodol.

540.2 Nwy prif gyflenwad Trafodaethau'n parhau.

540.3

[a] Canlyniadau'r Astudiaeth Ddichonoldeb Mae Pwyllgor Rheoli Neuadd Eleanor yn y broses o chwilio am grantiau gan yr holl ffynonellau posibl; nid yw cyllid Llywodraeth Cymru ar gael tan yr Hydref – hyd at £30,000 sydd ar gael ar gyfer prosiectau penodol yn unig. Disgwylir am ragor o fanylion am y broses ymgeisio am grantiau'r fferm wynt.

[b] Cynllun Cymunedol Ni threfnwyd dyddiad ar gyfer cyfarfod nesaf yr is-grŵp cynllun cymunedol hyd yma. Mae Mr Steve Whipp yn adfer ei iechyd yn dilyn llawdriniaeth.

[c] Cylchlythyr Cynhyrchwyd y rhifyn cyntaf a disgwylir cyhoeddi'r ail rifyn ar ddiwedd Ebrill 2019. Trefnir y cylchlythyr dan is-bwyllgor a sefydlwyd gan Bwyllgor Rheoli Neuadd Eleanor, a'i gyllido trwy grantiau a refeniw hysbysebion. Mae angen mwy o gynllunio a threfnu'r trefniadau dosbarthu. Roedd consensws bod y cylchlythyr yn gyfle i'r Cyngor Cymuned gynhyrchu erthyglau rheolaidd i gynyddu ymwybyddiaeth ynghylch cyfansoddiad y Cyngor, ei ddyletswyddau, ei gyfrifoldebau a'i weithgareddau.

541 COFNODION PENDERFYNWYD Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2019 a'u llofnodi fel cofnodion cywir.

542 MATERION YN CODI / CAMAU GWEITHREDU 542.1 Tai [532.1, 520.1, 510.1, 499.1, 482.4] Nid yw Grŵp Cynefin, sy'n ymddiriedolwyr Elusen Elizabeth Owen, yn berchen ar y tai ond maen nhw'n gyfrifol am gynnal a chadw'r elusendai yn Llanfair. Disgwylir am ddiweddariad ynghylch yr ymholiad i Homes England. Awgrymwyd gofyn i'r gymdeithas dai dacluso drysau ffrynt a blaenau'r tai gwag yn enwedig, gan eu bod wedi'u lleoli mewn ardal gadwraeth.

542.2 Plac Coffa'r Awyrlu [533.1, 526.3] Adroddwyd bod aelod o'r cyhoedd wedi cysylltu gyda nifer o Gynghorwyr yn bryderus am benderfyniad y Cyngor i beidio â bwrw ymlaen gyda chomisiynu plac coffa gan ddefnyddio arian praesept. Dywedodd y Cynghorydd Bob Barton ei fod wedi cysylltu gyda'r unigolyn arall a gyflwynodd y cais gwreiddiol i gael plac. **PENDERFYNWYD** anfon llythyr at Mr John Harrop a Mr E H Edwards yn aildatgan na fydd y Cyngor Cymuned yn comisiynu plac coffa gan ddefnyddio cronfeydd praesept. Rhaid i unrhyw gynnig o'r fath gael ei gyllido trwy gyllid preifat.

542.3 Ceisiadau Cefnogaeth i Gynghorau Tref a Chymuned gan Lywodraeth Cymru [533.4] - Cynigir cefnogaeth ar gyfer sefydlu trefniadau ar y cyd yn ymwneud â thair thema graidd sef ymgysylltu gyda'r gymuned, cynyddu cyfranogiad ac ymwneud dinasyddion mewn democratiaeth leol a gweithio gyda'i gilydd ar wasanaethau ar y cyd, yn cynnwys ystyried y sgôp i rannu swyddogaethau swyddfa gefn. Adroddodd y Clerc bod Cyngor Cymuned Efenechtyd yn cefnogi cyflwyno cais ar y cyd i gyllido prosiect cylchlythyr pum pentref, mewn egwyddor. Mae Cyngor Cymuned Llanelltyd yn cyfarfod bob yn ail fis ac nid yw wedi cael cyfle i drafod y mater hwn. Felly mae'n annhebygol y gellir cwblhau cais mewn pryd ar gyfer y dyddiad cau, 12/04/19. Mae gan Gyngor Cymuned Llanbedr DC ddiddordeb mewn datblygu cylchlythyr hefyd. Mynegwyd pryder y gallai fod yn anodd monitro a mesur llwyddiant, ond y gellid seilio nifer y darllenwyr ar nifer yr aelwydydd a dargedwyd.

Cyfeirnod/ Dyddiad	Gweithred, gan bwy a statws
351.5 21/05/18	Grŵp Codi Arian [Y Cynghorwyr Jayne Mayers, Keith Mouldsdaile a Paul Weston] Bwriedir trefnu cyfarfodydd y grŵp pan fo prosiectau wedi eu nodi.
362.5 08/01/18	Ymgysylltu gyda Phobl Ifanc Penderfynwyd mae'r Cynghorwyr sy'n gyfrifol am ymgysylltu gyda phobl ifanc.
	Ychwanegu enw ar y Gofeb Rhyfel. Y Clerc – gofyn am ragor o wybodaeth gan berthynas. Mae'r gwaith ar gais am grant wedi'i oedi.

543 GOHEBIAETH / ADRODDIADAU

543.1 SLCC – Sesiwn Briffio ynghylch Cyrff Sector Cyhoeddus [Rheoliadau Hygyrchedd Gwefannau a Dyfeisiau Symudol [Rhif 2] 2018. Mae gan wefannau sy'n bodoli eisoes tan 22/09/20 i gydymffurfio. Cytunwyd mewn egwyddor bod angen gwefan newydd i'r Cyngor Cymuned ac awgrymwyd efallai y byddai grŵp o Gynghorau'n lleol yn dymuno ffurfio clwstwr i ddatblygu gwefan gyffredin gyda dolenni i'w gilydd. Ystyrir yr hyn a wnaed yn Higher Kinnerton yn enghraifft dda. Cynigiodd y Cynghorydd Paul Weston gynorthwyo gyda datblygu gwefan newydd.

543.2 Adborth/Adroddiadau o Gynadleddau/Hyfforddiant/Cyfarfodydd

Cynhaliwyd sesiwn hyfforddiant cynefino, a drefnwyd gan Gyngor Cymuned Llanbedr DC, ar 4 Ebrill 2019 yng Nghanolfan Genus. Roedd pump aelod o Gyngor Cymuned Llanfair yn bresennol. Mae rhagor o sesiynau'n cael eu cynllunio gan Gyngor Cymuned Llanbedr. Hefyd adroddwyd bod Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ddinbych yn trefnu sesiwn hyfforddiant arall am ddim ynghylch y cod ymddygiad maes o law. Dywedodd y Cynghorydd Barton ei fod wedi bod mewn cyfarfod diweddar lle y cyhoeddwyd y byddai cyllid Llywodraeth Cymru'n cael ei ryddhau ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu gyda'r gymuned a gwefannau yn ystod y flwyddyn i ddod.

544 CYNLLUNIO www.denbighshire.gov.uk/planning

544.1 Cais Cynllunio 20/2019/0289 Adeiladu gweithdy/storfa amaethyddol – Waen y Ffynnon, Pentre Coch, Rhuthun **PENDERFYNWYD** cefnogi'r cais.

544.2 Diweddariad ynghylch cydymffurfio gydag Amod 5 – Cais Cynllunio

20/2016/1137/PF Datblygiad tai arfaethedig yn Llanfair DC. Ymddengys bod camgymeriad gan nad yw'r cais wedi'i gofnodi. Mae'r Prif Swyddog Cynllunio'n gwneud ymholiadau pellach ynghylch hyn. Yn y cyfamser, mae aelod o'r cyhoedd wedi mynegi pryder ei bod yn ymddangos bod y datblygwr wedi dechrau gweithio ar y safle a bod ceisiadau i'r Adran Gynllunio ynghylch y ffin gadwraeth wedi'u hanwybyddu.

545 PRIFFYRDD A'R AMGYLCHEDD Ystyriodd yr aelodau ddiweddariadau fel a ganlyn:

545.1 Cyffordd yr A525 – Lôn Plas Bedw [535.1, 523.1, 510.7, 431.7] Adroddodd y Clerc nad oedd gan adran Strydlun Cyngor Sir Ddinbych unrhyw gynlluniau i dynnu'r creigiau sy'n cynnal y clawdd ymaith gan y byddai'n achosi mwy o broblemau i sefydlogrwydd y clawdd. Mae'r erydiad wedi'i achosi gan gerbydau mawr o Goleg Llysfasi'n defnyddio'r ffordd. **PENDERFYNWYD** Nodi'r diweddariad a bod rhaid i osod arwyddion oddi ar yr A525 fod yn flaenoriaeth am resymau diogelwch.

545.2 Gwagleoedd Agored [535.5] Mae Rheolwr Asedau Cyngor Sir Ddinbych wedi cadarnhau bod y cyn chwarel ger Tanyronnen yng Nghraigfechan yn eiddo i'r Cyngor Sir a bod y Gwasanaethau Cefn Gwlad yn rheoli'r ardal fel gwarchodfa natur. **PENDERFYNWYD** [a] bod angen asesu darparu ardal chwarae neu drac beicio yn yr ardal hon [b] gofyn i'r Gwasanaethau Cefn Gwlad sut mae'r safle'n cael ei rheoli a ph'un ai y gall plant ysgol fod yn rhan o waith cynnal a chadw'r warchodfa natur.

545.3 Cais i wyro llwybr troed yng Ngorsaf Eyrarth – Neges e-bost dyddiedig 27/03/19 ynghyd â map gan Swyddog Cefn Gwlad Cyngor Sir Ddinbych. Roedd consensws ei bod yn ymddangos bod hwn yn gynnig synhwyrol gan ei fod yn galluogi perchnogion y tŷ i fwynhau defnyddio'r eiddo cyfan tra'n gwneud darpariaeth ar gyfer cerddwyr. Cyn belled ag y bo'r arwyddion yn glir, camfeydd da yn cael eu darparu a'u cynnal [torri unrhyw ddanadl poethion a drain i'w cadw'n glir] dylai fod yn dderbyniol. **PENDERFYNWYD** cefnogi'r cynnig.

545.4 Llanfair – arwydd 20 milltir yr awr [535.2, 523.2, 513.1] Derbyniwyd cadarnhad gan adran Strydlun Cyngor Sir Ddinbych y byddai'r arwydd yn cael ei adnewyddu maes o law.

545.5 Y ffordd o Bentrecoch i'r Silff [535.3, 523.3, 513.3] Parhau i ddisgwyl am ateb gan Tim Towers i gadarnhau a oes unrhyw gynigion i gyflawni unrhyw welliannau i wyneb y ffordd. Cadarnhawyd bod peth gwaith trwsio wedi ei gyflawni yn y cyfamser.

PENDERFYNWYD atgoffa'r Adran Briffyrdd am y mater eto.

545.6 Problemau draenio/llifogydd [a] Pentre Coch [535.6, 431.5] Hysbyswyd bod yr Arweinydd wedi cyfeirio'r mater at yr Adran Priffyrdd trwy'r Gwasanaethau Cwsmer.

Tynnwyd sylw at broblemau eraill [b] y llwybr troed gyferbyn â Lllysfasi [c] safle'r tai newydd, Llanfair [ch] llwybr ceffylau heibio'r ysgol newydd, Llanfair.

RHAN 2 546 PENDERFYNWYD gwahardd y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod oherwydd natur gyfrinachol yr eitemau a ganlyn:

547 MATERION ARIANNOL

547.1 Cyflwynwyd – Crynodeb Incwm a Gwariant a'r Llyfr Cofnodi Derbyniadau a Taliadau am y cyfnod 1 Ebrill 2018 tan 31 Mawrth 2019. **PENDERFYNWYD** [a]

Cymeradwyo'n unfrydol [b] Trafod trosglwyddo arian o'r cyfrif cymunedol i'r cyfrif cynilo busnes i'w drafod yng nghyfarfod mis Mehefin.

547.2 Talu Cyfrifon/Anfonebau PENDERFYNWYD cymeradwyo gwneud taliadau fel a ganlyn:

£200.00 Cyngor Cymuned Llanbedr DC [Hyfforddiant Un Llais Cymru 04/04/19 – 5 aelod o Gyngor Cymuned Llanfair DC yn bresennol]

£40.00 Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth – ffi Diogelu Data

547.3 Ceisiadau am Gymorth Ariannol Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau'r mis yma.

547.4 Diweddariad ar Faterion Archwilio Hysbysodd y Clerc bod trefniadau wedi'u gwneud i fynd â'r cyfrifon a'r dogfennau cefnogol at yr archwilydd mewnol ar 25/04/19 a bod y pecyn adroddiad ariannol blynyddol wedi'i dderbyn gan yr archwilydd allanol. Mae terfynau amser caeth. Rhaid i'r Clerc/Swyddog Ariannol Cyfrifol ardystio'r ffurflen ariannol blynyddol erbyn 30/06/19 a rhaid i'r corff [y Cyngor] gymeradwyo'r ffurflen flynyddol hefyd erbyn 30/06/19. Rhaid i gopi o'r ffurflen flynyddol fod ar gael i'r cyhoedd edrych arni [llun yn dangos hysbysiad archwilio ar hysbysfyrddau a chyfeiriad gwefan, i gadarnhau arddangos hyn rhwng 16/06/19 a 01/07/19] yn dechrau ar 01/07/19 ac yn diweddau ar 26/07/19.

547.5 Polisi Cronfeydd wrth Gefn - Cyflwynwyd – drafft i'w ystyried a'i gymeradwyo . Roedd y cronfeydd ar gael ar 31 Mawrth 2019 yn £23,248.15, i'w dyrannu fel a ganlyn:

Cronfa wrth Gefn Gyffredinol 25% - £5,212.03; Cronfeydd wedi'u clustnodi - £16,000.00 a Rhaglenni Gwariant Cyfalaf yn y dyfodol - £2,036.12.

PENDERFYNWYD [a] Cymeradwyo'n unfrydol [b] ystyried cynyddu'r ffigur o £200 yn y gyllideb ar gyfer costau etholiad mewn cyfarfod yn y dyfodol.

547.6 Cofrestr Asedau – Cyflwynwyd – diweddariad drafft y gofrestr i'w hystyried a'i chymeradwyo. Dyddiad adnewyddu'r yswiriant yw 31/05/19. Dywedodd y Clerc y gofynnwyd am ddyfynbrisiau gan Zurich, BHIB a Came & Co.

PENDERFYNWYD [a] addasu swm yr yswiriant o ran yr eitemau a ganlyn fel y nodir isod, a hysbysu'r cwmni yswiriant yn unol â hynny:

2 gysgodfan bws – Llanfair DC £8,000, Graigfechan £12,000

3 hysbysfwrdd – Llanfair DC, Graigfechan a Phentrecelyn – cyfanswm o £15,000

Wal y fynwent a'r rheiliau, Llanfair DC - £30,000

[b] penderfyniad ynghylch y dyfynbrisiau yswiriant i'w ddirprwyo i'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd.

548 DYDDIADAU CYFARFODYDD Y DYFODOL

2019 13/05/19 [Canolfan Genus], 10/06/19 [Ysgol Pentrecelyn], 08/07/19 [Canolfan Genus],
09/09/19 [Ysgol Llanfair], 14/10/19 [Ysgol Pentrecelyn], 11/11/19 [Canolfan Genus],
09/12/19 [Ysgol Llanfair]

2020 13/01/19 [Ysgol Pentrecelyn], 09/03/19 [Canolfan Genus]

Gorffennodd y cyfarfod am 8.55 pm

_____CADEIRYDD _____

_____DYDDIAD

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR DYFFRYN CLWYD COMMUNITY COUNCIL

www.llanfaircommunitycouncil.co.uk

Cofnodion y Cyfarfod Blyneddol a Chyfarfod Cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Genus, Llanrhydd, ddydd Llun, 13 Mai 2019 am 7.00 pm.

PRESENNOL – Y Cynghorwyr Jayne Mayers [Cadeirydd], David Baker [Is-gadeirydd], Bob Barton [rhan o'r cyfarfod], Wini Davies, Tim Faire, Keith Mouldsdale, Osian Owen, Ceri Ranson, Paul Weston ac Eirwen Godden, Clerc.

HEFYD YN BRESENNOL - 7 aelod o'r cyhoedd

YMDDIHEURIADAU Y Cynghorydd Moira Edwards [apwyntiad ysbyty]

549 SYLWADAU'R CADEIRYDD AR FIN YMDDEOL

Adroddodd y Cynghorydd Jayne Mayers bod y Cyngor wedi ymateb i 33 cais cynllunio yn ystod y flwyddyn dan sylw; bod grantiau gwerth £3,350 wedi'u dyfarnu i 13 mudiad ac yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf hwyluswyd gosod diffibrilydd [yn cynnwys hyfforddiant defnyddio'r diffibrilydd] ymhob un o'r lleoliadau a ganlyn, sef Llanfair, Graigfechan a Phentrecelyn. Mae'r gymuned yn edrych ymlaen at gwblhau'r ysgol newydd a datblygiad tai newydd yn Llanfair, a chyllid Fferm Wynt Clocaenog yn dod ar gael tuag at ddiwedd 2019. Mae cylchlythyr cymunedol wedi'i sefydlu dan awennau Pwyllgor Rheoli Neuadd Eleanor, gyda'r Cynghorydd Keith Mouldsdale yn olygydd. Prynwyd pedwar bin sbwriel cyffredinol newydd ar gyfer y gymuned – dau yn Llanfair ac un yr un yng Nghraigfechan a Phentrecelyn. Mae'r Cyngor Cymuned yn parhau i ymateb i neu gyfeirio ymholiadau at Gyngor Sir Ddinbych ar faterion fel arafu traffig/mesurau diogelwch priffyrdd; lleoliad carafanau; problemau draenio/llifogydd; gwasanaethau bws; argaeledd band eang a thai, i enwi rhai yn unig. Er gwaethaf dau gynghorydd profiadol yn ymddiswyddo yn ystod y flwyddyn roedd y Cyngor yn ffodus iawn i recriwtio dau gynghorydd newydd rhagorol, Ceri Ranson ac Osian Owen. Diolchodd y Cynghorydd Mayers i bawb am eu cymorth a'u cefnogaeth yn ystod ei chyfnod fel Cadeirydd a diolchodd i'r Clerc am ei hymroddiad i'r gwaith.

550 ETHOL CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD AR GYFER 2019/20

[a] Cynigiwyd ac eiliwyd y Cynghorydd Jayne Mayers i'w haillethol fel Cadeirydd. Cytunwyd ar hyn.

[b] Cynigiwyd ac eiliwyd y Cynghorydd Paul Weston i'w ethol fel Is-gadeirydd. Cytunwyd ar hyn. Llofnodwyd ffurflenni Derbyn y Swydd.

RHAN 1

551 DATGAN BUDDIANNAU Y Cynghorydd David Baker fel aelod o Gyngor Eglwys Llanfair a'r Cynghorydd Keith Mouldsdale fel ymddiriedolwr Pwyllgor Rheoli Neuadd Eleanor ac fel preswylydd sy'n byw mewn eiddo gerllaw cais cynllunio 20/2019/0190 Clover Bank, Llanfair DC.

552 COFNODION PENDERFYNWYD

[a] Ailgadarnhau cofnodion y Cyfarfod Blynyddol / Cyfarfod Cyffredin a gynhaliwyd ar 21 Mai 2018.

[b] Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Ebrill 2019 a'u llofnodi fel cofnodion cywir.

553 MATERION CYMUNEDOL

553.1 Safle'r hen ysgol / Ysgol Llanfair newydd Adroddwyd am lifogydd ar y llwybr troed gerllaw'r ysgol newydd. Roedd Pensaer Cyngor Sir Ddinbych (Adran Cyfleusterau, Asedau a Thai) wedi tynnu sylw rheolwr y safle at y mater ac yn dilyn hynny datganodd Wynne Construction eu bod yn aros am gymeradwyaeth gan Dŵr Cymru/Welsh Water i gysylltu i'r garthffos gyhoeddus. Mae'r dŵr yn casglu o ganlyniad i'r tanc teneuo a fydd yn rheoli'r llif i'r garthffos maes o law fel nad yw'n mynd yn orlawn. Y ffos yw lle y bydd y cysylltiad draen i'r garthffos. Roedd problem hefyd gyda chysylltu gyda system neuadd y pentref ond ystyrir mai sefyllfa dros dro yw hon a bod popeth o dan reolaeth bellach.

Hefyd hysbyswyd y byddai gwaith ar y ffordd/cau'r ffordd y tu allan i safle'r ysgol newydd am bedair wythnos o 23/04/19. Mae hyn oherwydd yr angen i ledu'r llwybr i 2.5 metr i gydymffurfio gyda rheoliadau priffyrdd ar gyfer mynediad diogel i'r ysgol i blant. Mae gwaith ychwanegol yn cael ei wneud i roi system ddraenio yn y llecyn gwyrdd o flaen Bron y Clwyd i atal problemau llifogydd. Bydd mesurau arafu'r traffig, fel twmpathau ffordd, yn cael eu gosod maes o law. Yn y cyfamser mae'r Cynghorydd Paul Weston wedi derbyn cwynion gan drigolion am gyflwr y ffordd drwy Lanfair, mynediad anniogel i blant i'r ysgol a dim llwybr diogel i gerddwyr ar hyd y ffordd tra bo'r gwaith ffordd yn digwydd. Roedd pennaeth yr ysgol wedi ysgrifennu at yr Adran Priffyrdd yn mynegi pryderon am ddiogelwch plant. Mynegwyd pryderon hefyd am bobl nad ydynt yn drigolion yn defnyddio'r ffordd wedi'i chau a bod y mynediad i'r pentref gan ddefnyddio'r gwyrdd i gyffordd Eyarth yn beryglus. Fodd bynnag, mae'r contractwr yn ceisio sicrhau defnyddio peiriannau trwm tra bo'r plant yn yr ysgol ac i hwyluso pethau i drigolion lle bo'n bosibl. Gwnaed darpariaeth erbyn hyn ar gyfer llwybr troed i gerddwyr tra bo'r ffordd ar gau ar gyfer y gwaith a grybwyllwyd. Mae trefniadau amgen wedi'u gwneud ar gyfer disgyblion uwchradd sy'n teithio i'r ysgol ar y bws.

PENDERFYNWYD Nodi'r manylion ond cysylltu gyda'r awdurdod lleol i holi a fyddai modd gosod goleuadau traffig yng nghyffordd Eyarth.

553.2 Nwy prif gyflenwad Mae'r trafodaethau'n parhau.

553.3

[a] Canlyniadau'r Astudiaeth Ddichonoldeb Mae Pwyllgor Rheoli Neuadd Eleanor yn parhau i chwilio am grantiau o wahanol ffynonellau.

[b] Cynllun Cymunedol Bydd dyddiad ar gyfer cyfarfod nesaf yr is-grŵp cynllun cymunedol yn cael ei benderfynu'n fuan.

[c] Cylchlythyr Cynhyrchwyd yr ail rifyn a'i ddisbarthu, ac mae ar gael yn electronig ar wefan y Cyngor Cymuned, www.llanfaircommunitycouncil.co.uk. Dywedodd y Cynghorydd Keith Mouldsdale ei fod yn hapus derbyn awgrymiadau a sylwadau.

554 MATERION YN CODI / CAMAU GWEITHREDU

554.1 Tai [542.1, 532.1, 520.1, 510.1, 499.1, 482.4] Bydd Grŵp Cynefin, ymddiriedolwyr Elusen Elizabeth Owen, yn gweithredu i wella edrychiad allanol y bythynnod, er enghraifft, y gwaith paentio ac yn gosod llenni yn yr eiddo gwag. Mae'r dewisiadau posibl i'r dyfodol yn parhau i gael eu hystyried.

Cyfeirnod/ Dyddiad	Gweithred, gan bwy a statws
351.5 21/05/18	Grŵp Codi Arian [Y Cynghorwyr Jayne Mayers, Keith Mouldsdale a Paul Weston] Bwriedir trefnu cyfarfodydd y grŵp pan fo prosiectau wedi eu nodi.
362.5 08/01/18	Ymgysylltu gyda Phobl Ifanc Penderfynwyd mae'r Cynghorwyr sy'n gyfrifol am ymgysylltu gyda phobl ifanc.
	Ychwanegu enw ar y Gofeb Rhyfel. Y Clerc – gofyn am ragor o wybodaeth gan berthynas. Mae'r gwaith ar gais am grant wedi'i oedi.

555 GOHEBIAETH / ADRODDIADAU 555.1 Dewis cynghorydd i gynrychioli Un Llais

Cymru ar Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr Derbyniwyd neges e-bost dyddiedig 16/04/19 gan Un Llais Cymru yn gwahodd y Cyngor Cymuned i ddewis cynrychiolydd o'r rhestr o chwech ymgeisydd a gyflwynwyd.

PENDERFYNWYD cynnig Jackie Allen fel enwebai ar gyfer y rôl.

555.2 Cynigion ar gyfer Cyfarfod Blynyddol Un Llais Cymru 05/10/19. Derbyniwyd neges e-bost dyddiedig 29/04/19 yn gwahodd Cynghorau sy'n aelodau i gynnig uchafswm o ddau gynnig i'w trafod yn y Cyfarfod Blynyddol. Nodwyd. Ni chyflwynwyd unrhyw gynnigion.

555.3 Plac Coffa i'r criw awyrlu [542.2, 533.1, 526.3] Derbyniwyd llythyr dyddiedig 05/05/19 gan Mr E H Edwards yn holi ar ba sail y gwnaeth y Cyngor Cymuned y penderfyniad i wrthod cyllido'r plac coffa arfaethedig a ph'un ai oedd y dyfynbris £750 yn addas ac yn dderbyniol i'r Cyngor. **PENDERFYNWYD** anfon llythyr at Mr E H Edwards yn ailadrodd bod y Cyngor Cymuned o'r farn na ddylid defnyddio arian cyhoeddus i dalu am y plac, ond petai'n dymuno codi arian ni fyddai unrhyw wrthwynebiad i hynny.

555.4 Adborth/Adroddiadau o Gynadleddau/Hyfforddiant/Cyfarfodydd

[a] **Hyfforddiant Cod Ymddygiad i Gynghorwyr** Derbyniwyd neges e-bost dyddiedig 29/04/19 ynghylch sesiynau hyfforddiant am ddim ar 11/06/19 yng Nghaledfryn, Dinbych am 4pm neu ar 19/06/19 yn Neuadd y Sir, Rhuthun, am 2 pm. **PENDERFYNWYD** Gofyn i'r aelodau gysylltu efo'r Clerc os oeddynt yn dymuno mynd i'r hyfforddiant.

[b] **Cynhadledd Hyfforddiant SLCC** 20/06/19 yng ngwesty'r Metropole, Llandrindod. **PENDERFYNWYD** y byddai'r Clerc yn mynd i'r gynhadledd.

[c] **Hyfforddiant Deall y Gyfraith gan Un Llais Cymru yn yr Wyddgrug** 21/05/19 **PENDERFYNWYD** y byddai'r Clerc yn mynd i'r digwyddiad hyfforddiant.

[ch] **Digwyddiad Busnesau dan arweiniad y gymuned a Chyfranddaliadau Cymunedol gan Gyngor Sir Dinbych yn Ninbych** 16/05/19

PENDERFYNWYD y byddai'r Cynghorydd Keith Mouldsdale yn mynd i'r digwyddiad.

[d] Diolchodd y Cyngorydd Bob Barton i'r Aelodau am gefnogi'r digwyddiad hyfforddiant a drefnwyd gan Gyngor Cymuned Llanbedr ym mis Ebrill, gan ychwanegu y bwriedir trefnu rhagor o ddiwyddiadau tebyg.

[dd] Dywedodd y Cyngorydd Bob Barton y byddai'n fodlon mynd i'r digwyddiad ar y cyd rhwng Un Llais Cymru a Chymorth Cynllunio Cymru yn Llanelwy ar 22/05/19.

556 CYNLLUNIO www.denbighshire.gov.uk/planning

Cyflwynwyd -

556.1 Cais cynllunio 20/2019/0318 a gyflwynwyd gan Pure ynghylch manylion y cynllun tirlunio caled a meddal a gyflwynwyd yn unol ag Amod 5 caniatâd cynllunio cyfeirnod 20/2016/1137. **PENDERFYNWYD** bod yr aelodau'n ystyried y datblygiad tai fel y porth i'r pentref i adlewyrchu'r gymuned yn ei chyfanrwydd a'u bod yn dymuno cefnogi'r sylwadau a'r ymholiadau a godwyd fel a ganlyn – [a] pwy fydd yn berchen ar y gwagleoedd agored a'r buddsoddiad ecolegol? [b] pwy fydd yn gyfrifol am gynnal a chadw'r holl wagleoedd agored, ar ôl cwblhau'r datblygiad ac yn y tymor hir? [c] a fydd yr awdurdod lleol yn trefnu bond i dalu'r costau? [ch] mae peth amryfusedd ynghylch y math o lwyni fydd yn cael eu plannu [d] er gwaethaf rhoi sicrwydd am annhebygolrwydd llifogydd yn y dyfodol, mae rhai amheuan yn parhau a theimlwyd y byddai'n ddoeth i'r awdurdod lleol drefnu bond yn gysylltiedig â llifogydd hefyd.

556.2 Cais cynllunio 20/2019/0331 a gyflwynwyd gan Mr a Mrs Hughes ynghylch adeiladu estyniad ac addasiadau i annedd yn 23 Parc y Llan, Llanfair DC.

PENDERFYNWYD nad oedd unrhyw wrthwynebiad na phroblemau.

556.3 Cais cynllunio 20/2019/0190 a gyflwynwyd gan Mrs Anne Hughes ynghylch adeiladu dau fyngalo dormer ar dir yn Clover Bank, Llanfair DC. Gwnaeth yr aelodau fynegi pryderon am ddau fater, sef, ynghylch y cais cyfredol fel y'i cyflwynwyd a methiant yr un cyntaf, 20/2018/0448, na ddylai fod wedi'i ddilysu gan ei bod yn ymddangos bod adroddiadau gwreiddiol ar yr amodau ecolegol ac amgylcheddol wedi'u hanwybyddu. Roedd y Cyngor Cymuned wedi mynegi pryder hefyd bryd hynny am y problemau traffig potensial, gan ofyn am addasu'r briffordd er mwyn lleddfu unrhyw broblemau.

Ers hynny mae'r holl goed ar y safle wedi'u torri a bellach mae'r safle wedi'i glirio yn ffurfio sail yr ail gais, 20/2019/0190. Nid oes dim neu fawr ddim darpariaeth gardd; byddai'r byngalos newydd arfaethedig o flaen llinell eiddo'r cymdogion ac ni fyddai'n cadw mewn cymeriad gyda'r rhan hon o'r pentref; ni fyddai'n cadw amwynder gweledol yr ardal; byddai'r ffenestri llawr cyntaf tuag at y gorllewin yn edrych dros erddi eiddo cyfagos, gan effeithio ar breifatrwydd. Nid yw dwysder y datblygiad arfaethedig yn cyd-fynd â'r nodweddion tirwedd lleol. Mae cymaint o bryder fel bod y Cyngor Cymuned yn barod i drefnu cyfarfod arbennig yn agored i'r cyhoedd, gyda swyddog cynllunio'n bresennol, i drafod y materion a godwyd yn fanwl. **PENDERFYNWYD** cyflwyno'r pryderon fel a nodwyd i'r Adran Gynllunio, ynghyd â chais am gyfarfod arbennig gyda swyddog cynllunio'n bresennol a gohirio gwneud penderfyniad ynghylch caniatâd.

556.4 Cais cynllunio 20/2019/0254 a gyflwynwyd gan Mr A Dunne ynghylch newid defnydd tir trwy osod 4 pod glampio a gwaith cysylltiedig ar dir yng Ngorsaf Eyarth, Llanfair DC. **PENDERFYNWYD** cefnogi'r cais gan gyfeirio at lwyddiant cynllun tebyg ym mhentref cyfagos Llandegla.

556.5 Cais cynllunio 20/2019/0329 a gyflwynwyd gan Louise Duff ynghylch codi adeilad amaethyddol ar gyfer storio gwair/gwellt/porthiant a pheiriannau – Pen y Ffordd, Pentrecelyn.

PENDERFYNWYD cefnogi'r cais, yn ddarostyngedig ar gael cadarnhau/tystiolaeth bod hwn yn adeilad amaethyddol ardystiedig.

556.6 Cais cynllunio 20/2019/0403 a gyflwynwyd gan Wasanaethau Plant ac Addysg Cyngor Sir Ddinbych ynghylch manylion llwybr diogel [Bron y Clwyd] yn unol ag amod rhif 17 caniatâd cynllunio cyfeirnod 20/2017/0819 – Tir yr eglwys gyferbyn â Bron y Clwyd, Llanfair DC.

PENDERFYNWYD cefnogi.

557 PRIFFYRDD A'R AMGYLCHEDD

Bu'r aelodau'n ystyried y materion a ganlyn:

557.1 Plannu coed Cyflwynodd y Cyngorydd Weston gynnig i blannu coed ceirios [neu rywogaeth addas arall] ar y llecyn gwyrdd gyferbyn â Bron y Clwyd, Llanfair DC.

Awgrymwyd cynnwys Coed Cadw yn y fenter, cysylltu gyda'r holl drigolion, yr ysgol a Mr Iwan Edwards [neu gynrychiolydd arall] Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru i ddod i gyfarfod y Cyngor yn y dyfodol. Yn y cyfamser mae'r Clerc wedi cysylltu gyda'r awdurdod lleol i sefydlu pwy sy'n berchen ar y llecyn gwyrdd a phwy fyddai'n gyfrifol am docio a chynnal a chadw'r coed. Aros am ateb.

557.2 Cŵn yn rhydd – Llwybr troed ger Erw Fair, Llanfair DC Adroddwyd bod y sefyllfa wedi gwella'n sylweddol, gyda ffens newydd wedi'i osod a pherchennog y cŵn wedi cael rhybudd y byddai'r heddlu'n ymwneud â'r achos petai'n digwydd eto.

557.3 Gwagleoedd agored / Gwasanaethau Cefn Gwlad Adroddwyd y gofynnwyd i'r Gwasanaethau Cefn Gwlad sut mae'r safle yng Nghraigfechan yn cael ei rheoli a ph'un ai y gall plant ysgol fod yn rhan o waith cynnal a chadw'r warchodfa natur. Aros am ateb.

557.4 Gwelliannau ailwynebu'r ffordd – y ffordd o Bentre Coch i'r Silff - Aros am ateb ynghylch unrhyw fwriad i roi wyneb newydd parhaol ar y ffordd.

557.5 Waliau / Pontydd anniogel Adroddwyd bod y bont ger y cae peldroed yn Llanfair DC a'r bont/wal ger Y Graig a Bwlch y Llyn, Pentrecoch, yn anniogel. **PENDERFYNWYD** hysbysu'r awdurdod lleol am y materion hyn.

RHAN 2 558 PENDERFYNWYD gwahardd y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod oherwydd natur gyfrinachol yr eitemau a ganlyn:

559 MATERION ARIANNOL

559.1 Adnewyddu'r yswiriant Adroddwyd bod y Clerc wedi gofyn am ddyfynbrisiau, fel a ganlyn:

Cwmni	12 mis	3 blynedd
BHIB	£460.97	£437.92
Came & Co trwy Inspire	£606.97	£579.12
WPS	£428.40	£406.98
Zurich	£543.01	£527.77

Roedd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd o'r farn, ar ôl edrych yn fanwl ar y wybodaeth a ddarparwyd, y dylid dyfarnu'r cytundeb i Zurich ar gost o £527.77 am becyn tair blynedd. **PENDERFYNWYD** cadarnhau gweithred y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn derbyn y dyfynbris a ddarparwyd gan Zurich.

559.2 Cyflwynwyd – Adroddiad yr Archwilydd Mewnol 2018-19. Mae'r polisi cronfeydd wrth gefn yn datgan bod y cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi yn cynnwys balans o £3,000 ar gyfer lwfansau/treuliau Cynghorwyr. Dangosodd adolygiad o'r gyllideb ar gyfer 2019/20 gan yr Archwilydd bod balans eisoes wedi'i gynnwys ar gyfer hyn. Felly mae'r Archwilydd yn argymhell bod y swm yma'n cael ei dynnu o'r cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi. **PENDERFYNWYD** gweithredu yn unol â'r argymhelliad, a bod y swm o £3,000 yn cael ei ychwanegu at y Cronfeydd wrth gefn Cyffredinol yn lle a'r polisi diwygiedig ar gronfeydd wrth gefn i nodi: Cronfeydd wrth gefn Cyffredinol £8,212.03; Cronfeydd wedi'u clustnodi £13,000.00 a Rhaglenni Gwariant Cyfalaf yn y dyfodol £2,036.12.

559.3 Cyflwynwyd – Datganiad Cyfrifyddu 2018-19 a'r Datganiad Llywodraethu Blynnyddol, yn cynnwys dogfennau cefnogol, cysoniad banc ac esboniad o'r amrywiadau arwyddocaol 2018/19 **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r dogfennau a llofnodi'r holl bapurau angenrheidiol gan y Cadeirydd cyn eu cyflwyno i'r archwilydd allanol.

559.4 Talu Cyfrifon/Anfonebau PENDERFYNWYD gwneud taliadau fel a ganlyn:
£9.00 Cyngor Tref Dinbych [costau rhannu car y Clerc o Rhuthun i Gresffordd ar 14/03/19 i gyfarfod Cangen Clwyd SLCC]
£116.22 Sandra Williams [Gwasanaeth Cyfieithu]
£13.75 Cyngor Cymuned Llanbedr DC [cyfraniad 25% tuag at bresenoldeb y Cynghorydd B Barton yn nigwyddiad Un Llais Cymru ar 28/03/19]
£153.00 JDH Business Services Ltd [ffi archwiliad mewnol]
£527.77 Zurich Insurance

559.4 Ceisiadau am Gymorth Ariannol PENDERFYNWYD [a] dyfarnu grantiau fel a ganlyn:
£120.00 Elusen Ambiwlans Awyr Cymru [cyfraniad am gael defnyddio Canolfan Genus ar gyfer cyfarfodydd]
£800.00 Pwyllgor Rheoli Neuadd Eleanor [cyfraniad tuag at gostau argraffu Cronicl Dyffryn Clwyd]
£1,000.00 Eisteddfod yr Urdd 2020 [2 bwyllgor apêl lleol - £600 Llanfair a £400 Graigfechan/Pentrecelyn]
£150.00 Capel Ebeneser, Graigfechan [tuag at gostau cynnal y capel]
£150.00 Capel Pentrecelyn [tuag at gostau cynnal y capel]
[b] dim grant i Ganolfan Therapi Plant Bobath Cymru ar yr achlysur hwn.

560 DYDDIADAU CYFARFODYDD Y DYFODOL

2019 10/06/19 [Ysgol Pentrecelyn], 08/07/19 [Canolfan Genus], 09/09/19 [Ysgol Llanfair], 14/10/19 [Ysgol Pentrecelyn], 11/11/19 [Canolfan Genus], 09/12/19 [Ysgol Llanfair]
2020 13/01/19 [Ysgol Pentrecelyn], 09/03/19 [Canolfan Genus]
PENDERFYNWYD trefnu cyfarfodydd ychwanegol fel a phan fo'n ofynnol, yn benodol i drafod y gyllideb braesept ddrafft a chynlluniau ar gyfer 2020-2021 yn niwedd Tachwedd/dechrau Rhagfyr 2019.

Gorffennodd y cyfarfod am 9.05 pm

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR DYFFRYN CLWYD COMMUNITY COUNCIL
www.llanfaircommunitycouncil.co.uk

Cofnodion y Cyfarfod Blynyddol a Chyfarfod Cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd yn Ysgol Pentrecelyn, nos Lun, 10 Mehefin 2019 am 7.00 pm.

PRESENNOL – Y Cyngorwyr Jayne Mayers [Cadeirydd], Bob Barton [Rhan 2 y cyfarfod], Keith Mouldale, Osian Owen, Ceri Ranson ac Eirwen Godden, Clerc.

HEFYD YN BRESENNOL - 1 aelod o'r cyhoedd; Y Cyngorydd Hugh H Evans, OBE [Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych]; Mr Peter McDermott, Arweinydd Tîm – Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau, Cyngor Sir Ddinbych; Mr Iwan Edwards, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru a Mr Mark Allen, Rheolwr Masnachol a Phartneriaethau, Beicio Cymru.

YMDDIHEURIADAU Y Cyngorwyr David Baker [profedigaeth], Wini Davies [apwyntiad ysbyty], Tim Faire [ymrwymiadau gwaith] a Paul Weston [salwch].

RHAN 1

561 DATGAN BUDDIANNAU Y Cyngorydd Keith Mouldale fel ymddiriedolwr Pwyllgor Rheoli Neuadd Eleanor ac fel preswylydd sy'n byw mewn eiddo gerllaw cais cynllunio 20/2019/0190 Clover Bank, Llanfair DC.

562 COFNODION PENDERFYNWYD

Cymeradwyo cofnodion y Cyfarfod Blynyddol/Cyfarfod Cyffredin a gynhaliwyd ar 13 Mai 2019 a'u llofnodi fel cofnodion cywir.

563 MATERION YN CODI / CAMAU GWEITHREDU Roedd yr holl eitemau a godwyd wedi'u trin benawdau eraill.

564 MATERION CYMUNEDOL

564.1 Safle'r hen ysgol / Ysgol Llanfair newydd Adroddwyd bod y Swyddog Moderneiddio Addysg wedi anfon neges e-bost yn dweud bod y contractwr wedi datgan, os yw popeth yn mynd yn unol â'r cynllun, y dylai Bron y Clwyd fod mewn sefyllfa i ailagor yn llawn o nos Wener, 24 Mai [ailagorodd ar 31 Mai mewn gwirionedd]. Fodd bynnag, roedd cau'r ffordd wedi'i gynnig am 12 wythnos yn wreiddiol, i gynnwys y gwaith cysylltiedig i gysylltu'r draeniau. Mae'r trafodaethau gyda pherchennog tir neuadd y pentref yn parhau. Nes bo'r cytundebau cyfreithiol ynghylch y draenio dŵr budr/dŵr arwyneb wedi'u cytuno rhwng Cyngor Sir Ddinbych, Dŵr Cymru a thrydydd parti ni ellir cyflawni'r gwaith cysylltiedig ac, o ganlyniad, unwaith y bo'r hawddfaint yn ei le a'r gwaith i gysylltu'r draeniau'n dechrau bydd ffordd Bron y Clwyd yn cau er mwyn cwblhau'r gwaith sy'n weddill. Mewn ymateb i'r problemau gyda'r gwyrriad, nid y gwyrriad a sefydlwyd gan y contractwr yw'r un a grybwyllwyd. Mae'r gwyrriad swyddogol ar hyd yr A494 gan mai dyna'r llwybr diogelaf ac, yn anffodus, os yw trigolion yn defnyddio'r ffordd heibio Tŷ Gorsaf Eyarth fel y ffordd gyflymaf mae hyn y tu hwnt i reolaeth y contractwr. Gan nad dyma'r gwyrriad sydd wedi'i sefydlu gan y contractwr ni fydd yn rhoi goleuadau traffig dros dro yno. Felly dylai trigolion ddefnyddio'r gwyrriad swyddogol. Yn y cyfamser roedd cyngorwyr wedi'u gwahodd i ymweld â'r safle

newydd i weld yr adeilad newydd. Digwyddodd hyn ddydd Llun, 10 Mehefin – Y Cadeirydd, Cynghorydd Jayne Mayers, y Cynghorydd Keith Mouldale a'r Clerc.

Mae adeilad yr ysgol newydd yn gwneud argraff, ond mynegodd aelodau bryder a yw'r ffigur uchafswm disgyblion o 102 yn ddigon uchel. Serch hynny, cydnabuwyd y byddai cynyddu'r lleoedd yn rhoi ysgolion eraill yn yr ardal mewn perygl. Ni ellir penderfynu ar ddyddiad agor yr ysgol newydd nes bo'r trefniadau cyfreithiol y cyfeiriwyd atynt uchod wedi'u cwblhau.

564.2 Nwy prif gyflenwad Dim diweddariad.

564.3 Canlyniadau'r Astudiaeth Ddichonoldeb Mae Pwyllgor Rheoli Neuadd Eleanor yn parhau i chwilio am grantiau o wahanol ffynonellau.

564.4 Cynllun Cymunedol Cyfarfu is-grŵp y cynllun cymunedol ar 30/05/19. Pwrpas y cyfarfod oedd dechrau'r broses o lunio rhifyn diwygiedig wedi'i ddiweddarau erbyn Awst, gan ystyried datblygiad a chyfleoedd cyllido Fferm Wynt Clocaenog; canlyniadau arolwg neuadd y pentref a chyd-fynd â chynlluniau strategol asiantaethau a chyrrff eraill a'r awdurdod lleol. Holwyd a yw eu cynlluniau a'u fframweithiau strategol nhw yn gymhathus gyda'r cynllun cymunedol lleol, gan alluogi mewnbynnu i'w hadolygiadau cyfnodol. Gwahoddwyd pawb a oedd yn bresennol i gyfrannu i'r drafodaeth ar ystod eang iawn o syniadau/materion diddorol. Bydd y grŵp yn cyfarfod eto ym mis Awst i barhau gyda'r dasg hon.

564.5 Cylchlythyr Mae'r trydydd rhifyn yn cael ei gynhyrchu i'w gyhoeddi'n fuan.

565 GOHEBIAETH / ADRODDIADAU

565.1 Ymddiswyddiad Cynghorydd Cymuned Roedd y Cadeirydd a'r Clerc wedi derbyn neges e-bost dyddiedig 07/06/19 gan Moira Edwards yn nodi ei bod hi'n dymuno ymddiswyddo o'r Cyngor Cymuned, a hynny'n weithredol ar unwaith. Gofynnwyd i'r Clerc ddechrau'r broses o lenwi'r swydd wag gynted ag y bo modd.

565.2 Mabwysiadu Protocol Datrysiaid Anffurfiol Enghreifftiol Un Llais Cymru [dyddiad cau ar gyfer ymatebion 30/06/19] **PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r ddogfen mewn egwyddor a sicrhau ei bod yn cyd-fynd gyda Chod Ymddygiad y Cyngor.

565.3 Diweddariad adeiladu a Chronfa Gymunedol Fferm Wynt Coedwig Clocaenog Mae ardal budd y gronfa wedi'i benderfynu'n derfynol yn awr, yn dilyn yr ymgynghoriad, ac mae'r manylion i'w cael ar wefan y prosiect www.innogy.com/clocaenogforest. Mae cwmni Innogy Renewables UK yn gwahodd tendrau yn awr i ennill y cytundeb i weinyddu Cronfa Gymunedol y Fferm Wynt. Mae'r tyrbinau wrthi'n cael eu gosod, mae gosod y ceblau ar y safle bron â'i gwblhau ac yna bydd y ceblau'n cael eu cysylltu i'r tyrbinau er mwyn i'r tyrbinau gael eu comisiynu. Mae is-orsaf Scottish Power Energy Networks ar y safle yn weithredol yn awr ac mae bron y cyfan o'r prif strwythurau wedi'u gosod yn is-orsaf Innogy. Mae'r gwaith sifil yn cael ei wneud gan gwmni Jones Bros Ruthin, fel rhan o gytundeb gwerth dros £20m. Dylai'r tyrbinau cyntaf ddechrau cynhyrchu trydan ym mis Mehefin, a bydd tyrbinau ychwanegol yn cael eu comisiynu'n barhaus trwy gydol yr haf.

555.5 566 Adborth/Adroddiadau o Gynadleddau/Hyfforddiant/Cyfarfodydd

566.1 Digwyddiad Cyngor Sir Ddinbych – Busnesau dan arweiniad y gymuned a chynigion Cyfranddaliadau Cymunedol 16/05/19 Dywedodd y Cynghorydd K Mouldale ei fod yn ddigwyddiad diddorol, yn enwedig y cyflwyniad ar ddatblygu'r dafarn a'r siop gymunedol yn Llanarmon yn lâl ac ymdrechion gwirfoddolwyr lleol yn sicrhau bod y ddwy fenter yn parhau i ffynnu.

566.2 Hyfforddiant Deall y Gyfraith Un Llais Cymru 21/05/19 Adroddodd y Clerc bod y sesiwn wedi darparu amlinelliad cyffredinol yr ystod o ddyletswyddau deddfwriaethol a chyfreithiol sy'n berthnasol i Gynghorau. Mae'r gyfraith yng Nghymru a Lloegr yn darparu canllawiau clir iawn am bwerau, galluoedd a chyfrifoldebau penodol cynghorau tref a chymuned. Er enghraifft, [a] mae'n rhaid i gyngor wneud yr hyn sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith [b] gall wneud yr hyn y dywed y gyfraith y gall ei wneud yn unig ac [c] ni ddylai wneud unrhyw beth oni bai bod ganddo bŵer penodol i weithredu. Gofynnwyd i'r rhai a oedd yn yr hyfforddiant nodi bod y Cynulliad Cenedlaethol yn debygol o ystyried Mesur Diwygio Llywodraeth Leol yn 2019.

566.3 Hyfforddiant Polisi Cynllunio a Chynlluniau Cymdogaeth 22/05/19 Dywedodd y Cynghorydd B Barton ei fod ef a Chynghorwyr eraill a oedd yn bresennol o'r farn bod y digwyddiad yn wastraff amser, yn anffodus, ac o fawr ddim budd. Gwnaeth un criw o Wrecsam ddefnyddio'r cyfarfod fel cyfle i leisio eu cwynion am y broses gynllunio a chyrrff eraill, gan adael fawr ddim amser i unrhyw un arall siarad. Roedd y cwrs yn edrych ar 5 thema – [1] trosolwg ynghylch cynllunio yng Nghymru, [2] polisiâu cynllunio cenedlaethol, [3] y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, [4] cynlluniau datblygu lleol a [5] Canllawiau Cynllunio Atodol a Chynlluniau Cymdogaeth. Dywedodd y Cynghorydd Barton bod tri Chyngor Cymuned wedi cytuno i dalu £15 yr un tuag at gost ei bresenoldeb mewn digwyddiad arall, 'Siapio eich Cymuned – Rôl Cynlluniau Cymunedol a Chynlluniau Cymdogaeth' ar 11/06/19 yn Llanrwst. **PENDERFYNWYD** bod Cyngor Llanfair yn gwneud cyfraniad tuag at gost presenoldeb y Cynghorydd Barton yn y digwyddiad ar y cyd rhwng Cynllunio Cymru ac Un Llais Cymru yn Llanrwst ar 11/06/19 a Chynhadledd Un Llais Cymru yn Llanelwedd ar 11/07/19.

566.4 Modiwlau Dysgu Un Llais Cymru Hysbysodd y Clerc bod gan Un Llais Cymru 7 modiwl dysgu ar-lein sylfaenol ar gael ar ei wefan yn awr [adran cyhoeddus] i'w defnyddio gan yr holl Gynghorwyr. Mae'r pynciau'n cynnwys y Cod Ymddygiad, Y Cyngor fel Cyflogwr, Amrywiaeth a Chynhwysiant, Iechyd a Diogelwch, Cynefino, Cyllid Llywodraeth Leol a Deall y Gyfraith. http://www.onevoicewales.org.uk/OVWWeb/basic_online_training-7451.aspx
Bydd y wybodaeth hon yn cael ei rhannu gyda'r Cynghorwyr.

567 CYNLLUNIO www.denbighshire.gov.uk/planning
Cyflwynwyd -

567.1 Ymateb yr Adran Gynllunio am wybodaeth yn dilyn sylwadau'r Cyngor Cymuned ynghylch cais 20/2019/0318 [datblygiad tai – Llanfair DC] gan Pure ynghylch manylion cynllun tirlunio caled a meddal a gyflwynwyd yn unol ag Amod 5 caniatâd cynllunio rhif 20/2016/1137. Cyfeiriwyd at amodau cynllunio eraill yn gysylltiedig â'r caniatâd cynllunio. Amod 5 yw'r manylion tirlunio, Amod 8 yw'r cynllun rheoli'r tirwedd ac Amod 9 yw manylion cynllun gosod, tirlunio a chyfrifoldebau rheoli y gwagleoedd agored [roedd copi o'r caniatâd cynllunio ynghlwm er hwylustod]. Cyflwynwyd Amod 8 i'w gymeradwyo hefyd, wedi'i ddiweddarau ychydig o'i gymharu gyda'r cynllun rheoli a gyflwynwyd gyda'r cais cynllunio gwreiddiol, ond nid oes unrhyw newidiadau arwyddocaol. Mae'n esbonio cyfrifoldeb pwy yw cynnal gwahanol elfennau'r safle, y tirlunio, yr ardaloedd glaswellt ac ati y tu allan i gwrtilau domestig perchnogion eiddo unigol.

Mae Amod 9 angen mwy o fanylion yng nghyswllt gwagleoedd agored [fel y copiwyd isod] ac ni chyflwynwyd hyn eto. Mae'n amod cyn meddiannu. Fodd bynnag, bydd cwmni rheoli

yn gyfrifol am gynnal a chadw'r ardaloedd, ni fydd y Cyngor Sir yn ymwneud â hyn. "Amod 9 – Ni chaiff unrhyw un fyw yn unrhyw un o'r anheddau nes cael cymeradwyaeth ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol ynghylch manylion yr ardaloedd gwagle agored ar y safle, i gynnwys manylion gosod/rhoi offer yn yr holl ardaloedd, manylion tirlunio, mân strwythurau ac arteffactau [e.e. dodrefn/seddi, unedau sbwriel neu unedau storio eraill, arwyddion ac ati] yn gysylltiedig â'r gwagleoedd agored, a'r trefniadau ar gyfer darpariaeth, rheolaeth a chynnal y gwagleoedd agored yn y dyfodol. Caiff y datblygiad fwrw ymlaen yn unol â'r cynllun/trefniadau a gymeradwywyd yn unig."

Nid oes angen i'r Cyngor Sir ofyn am fondiau yng nghyswllt unrhyw agwedd o'r datblygiad. O ran y draenau, mae'r rhain yn cael eu mabwysiadu gan Ddŵr Cymru Welsh Water.

PENDERFYNWYD [a] nodi'r ymateb gan yr Adran Gynllunio a [b] gwahodd cynrychiolydd o Pure i gyfarfod nesaf y Cyngor ar 08/07/19 i roi diweddariad ar y cynllun tai.

567.2 Ymateb yr Adran Gynllunio i sylwadau'r Cyngor Cymuned ynghylch cais 20/2019/0190 ynghylch adeiladu dau fyngalor dormer ar dir yn Clover Bank, Llanfair DC. Mae'r cais blaenorol am un annedd yn parhau i aros gan nad yw'r ymgeisydd wedi cwblhau cytundeb cyfreithiol a fyddai'n sicrhau cyfraniad ariannol tuag at ddarpariaeth/gwella cylfeusterau gwagle agored ar y safle. Fodd bynnag, mae argymhelliad clir y dylid rhoi caniatâd i'r datblygiad. Mae'r cais cyfredol am ddau annedd i'w ystyried, a bydd swyddogion yn ymweld â'r safle maes o law. O ran clirio'r safle, dylid nodi nad oedd y coed wedi'u gwarchod a bod gan y perchnogion yr hawl i dynnu'r coed ymaith heb ganiatâd. Serch hynny, mae'r ffaith eu bod wedi clirio'r safle erbyn hyn yn taflu cysgod ar y caniatâd am un annedd – mae cynllun y safle yn dangos cadw'r goeden ffawydden. Mae hon yn amlwg yn sefyllfa lle bo angen i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ymchwilio ymhellach. Bydd y Cyngor Cymuned yn derbyn diweddariad arall unwaith y bo'r ymweliad safle wedi digwydd. **PENDERFYNWYD** nodi'r ymateb gan yr Adran Gynllunio.

567.3 Ymateb yr Adran Gynllunio i sylwadau'r Cyngor Cymuned ynghylch cais 20/2019/0329 ynghylch codi adeilad amaethyddol ar gyfer storio gwair/gwellt/porthiant a pheiriannau – Pen y Ffordd, Pentrecelyn a ph'un ai yw'n adeilad amaethyddol ardstyiedig. Disgwyl am ateb; y Clerc i anfon nodyn atgoffa am yr ymholiad a wnaed.

567.4 Cynllun Datblygu Lleol Dywedodd yr Arweinydd bod yr ymgynghori ynghylch y cynllun newydd yn digwydd yn awr, a'i bod yn gyfle da i ystyried cyfleoedd o ran defnydd tir wedi'i ddyrannu ar gyfer tai ac efallai unedau diwydiannol llai mewn ardaloedd gwledig [hen safle'r ysgol yn Llanfair, er enghraifft].

568 PRIFFYRDD A'R AMGYLCHEDD

Bu'r aelodau'n ystyried y materion a ganlyn:

568.1 Cyflwyniad gan Mr Iwan Edwards, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru Mae dwy warchodfa natur yn ardal Graigfechan [safle ger y chwarel] a Phwllglas a hanes o fodoli am 52 mlynedd. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynyddu ei ymgysylltu gyda'r gymuned, trwy gyfrwng cynllun peilot, i wreiddio cynlluniau fel asedau yn y gymuned, gan weithio gyda gwirfoddolwyr yn lleol. Y cynllun tymor hir yw creu tirweddau byw a choridorau bywyd gwyllt a fydd yn cysylltu ar draws Dyffryn Clwyd. Cafwyd cyllid gan yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol am gyfnod o ddwy flynedd i weithio gyda Gwasanaethau Cefn Gwlad Sir Ddinbych ar nifer o gynlluniau. Cyfeiriodd Mr Edwards at ei waith diweddar gydag Ysgol Llanfair, gyda'r bwriad o wneud gwelliannau cynefin ar safle'r ysgol newydd. Mae'r

gwaith yn parhau i reoli safle'r chwarel ger Graigfechan. Ffurfiwyd Grŵp Gwyllt, sy'n cyfarfod ar ddydd Sadwrn cyntaf bob mis, gyda'r nod o hyrwyddo cysyniadau hunangynhaliol i bobl. Diolchwyd i Mr Edwards gan y Cadeirydd Jayne Mayers am gyflwyno'r trosolwg, gan awgrymu y byddai cyfarfod ar wahân yn fuddiol i edrych ar ffyrdd o weithio gyda'n gilydd a chynnwys y gymuned. Cyfeiriwyd hefyd at y cynllun cymdogaeth a'r cyfleoedd i gael cynigion cydlynus ynghylch gwagleoedd gwyrdd.

www.northwaleswildlifetrust.org.uk nwwt@wildlifetrustswales.org

568.2 Digwyddiad Beicio Cymru [Treialon Amser Cymru a Phencampwriaeth Beicio Ffordd Cymru] 01-2/06/19

Gwahodwyd Mr Mark Allen, Rheolwr Masnachol a Phartneriaethau Beicio Cymru, i ddod i'r cyfarfod i roi a derbyn adborth yn dilyn y digwyddiad Treialon Amser a Phencampwriaeth Beicio Ffordd Cymru a gynhaliwyd yn Rhuthun, yn cwmpasu cylchdaith 42km. Yn anffodus roedd y cyfathrebu ymlaen llaw gyda'r Cyngor Cymuned yn rhy hwyr, yn enwedig yng nghyswllt y gwaith ffordd yng nghanol Llanfair a'r anghyfleustra dilynol i drigolion.

Awgrymwyd y dylai'r holl gynghorau tref a chymuned ar hyd llwybr y ras gael eu hysbysu ymhell o flaen llaw yn y dyfodol. Nid yw pythefnos cyn digwyddiad yn rhoi digon o amser i ymgysylltu, llunio cynlluniau i leihau'r tarfu ac edrych ar ffyrdd o hyrwyddo digwyddiadau o'r fath i fusnesau lleol, er enghraifft, gwestai, meysydd carafanau a gwrsyllfeydd. Mae gan Gyngor Sir Ddinbych becyn ar gyfer sefydliadau sy'n cynnal digwyddiadau, sy'n cynnwys amser llawer hirach cyn y digwyddiad i ymdrin â chynllunio, cau ffyrdd ac ati. Fodd bynnag, roedd yr adborth cychwynnol a dderbyniodd Beicio Cymru yn dilyn y digwyddiad yn gadarnhaol iawn, gyda sylw da yn y wasg leol. Bu Clwb Beicio Rhuthun a Chlwb Rotari Rhuthun yn rhan o drefnu'r digwyddiad, a arweiniodd at 60 o bobl yn gwirfoddoli yn ystod y penwythnos. Diolchodd y Cadeirydd, Jayne Mayers, i Mr Allen am ddod i'r cyfarfod ac am ei gyflwyniad.

568.3 Plannu coed [557.1] Adroddwyd bod y Cynghorydd Paul Weston wedi sgwrsio gyda thrigolion ym Mron y Clwyd a chael adborth cadarnhaol iawn ynghylch y cynnig i blannu coed ar y llecyn gwyrdd o flaen yr ysgol newydd. Serch hynny, awgrymwyd y dylid gwirio a yw'r ardal wedi'i dynodi'n wagle agored cyn bwrw ymlaen ag unrhyw gynlluniau.

568.4 Gwasanaethau Bws [445.2, 482.5, 495.2, 499.2] Cyflwynwyd adroddiad gan Reolwr Cludiant Teithwyr Cyngor Sir Ddinbych. Yn dilyn cyfarfod gyda thrigolion lleol ym mis Hydref 2018 cafwyd cais am wasanaeth i gysylltu gyda'r bws i Wrecsam. O ganlyniad darparwyd bws mini o fis Rhagfyr 2018. Fodd bynnag, mae'r niferoedd sydd wedi bod yn defnyddio'r gwasanaeth hwn wedi bod yn siomedig ac mae'r adborth gan y gweithredydd yn awgrymu mai dim ond dau sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn rheolaidd, ond nid yw'r defnydd yn gyson. Mae cost y teithiau yn golygu nad oes unrhyw ddewis amgen ac eithrio terfynu'r gwasanaeth gynted ag y bo'n bosibl ar ôl 31 Mai, yn ddarostyngedig i dderbyn cymeradwyaeth y Comisiynydd Traffig. Ni fydd teithiau o Graigfechan a Phentrecelyn i Rhuthun yn newid, a gwnaed ymdrechion i wella'r cyhoeddusrwydd yn arosfan bws Graigfechan. Mae gwasanaethau amgen o Graigfechan i Rhuthun yn cael eu hystyried, ac os yw'n ddichonadwy efallai y bydd lefel gwasanaeth tebyg yn cael ei gynnig ond gydag un gweithredydd efallai. **PENDERFYNWYD** nodi cynnwys yr adroddiad.

568.5 Pont Eyarth [311.3, 431.2] Derbyniwyd diweddariad fel a ganlyn gan Uwch Beiriannydd Cyngor Sir Ddinbych – mae'r awdurdod lleol yn ymgymryd â rhaglen waith dros sawl blwyddyn i gryfhau'r bont, neu sicrhau y gall ymdopi â'r cyfyngiad pwysau 18 tonnell cyfredol o leiaf, am sawl blwyddyn i ddod. Mae'r swyddogion sy'n gyfrifol am ddatblygiad yr

ysgol newydd yn Llanfair DC wedi gofyn a oes modd gohirio'r bwriad arfaethedig i gau'r ffordd dros Bont Eyrarth yr haf hwn i sicrhau cwblhau gwaith cyfleustodau'r ysgol newydd. Mae siawns na ellir cau'r ffordd dros y bont tan ar ôl gwyliau hanner tymor yr ysgol yn yr Hydref. Mae tymerhedd yr awyr a lefelau'r afon yn golygu bod gwneud y gwaith i ochr isaf y bwâu ar ôl Hydref yn annoeth. Y dull gorau fyddai oedi trwsio'r gwaith cerrig tan yr haf nesaf. Fodd bynnag, mae gwaith y gellid ei wneud yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol a fyddai o fudd i'r gwaith wedi'i oedi. Mae gwahanol fathau o wyneb priffyrdd wedi'u treialu dros y ddwy flynedd ddiwethaf i atal dŵr arwyneb rhag mynd i mewn i ddeunydd llenwi'r bwâu. Mae cynllun peilot diweddar ger Betws GG wedi bod yn llwyddiannus iawn ac mae'r awdurdod lleol yn ystyried defnyddio'r un math o ddeunydd ar gyfer wyneb newydd dros y bont i gynorthwyo gyda sychu'r bwa islaw. Byddai hyn yn galw am gau'r ffordd am oddeutu wythnos yn ddiweddarach yn y flwyddyn. **PENDERFYNWYD** nodi'r diweddariad a bod y Clerc yn ysgrifennu at yr Uwch Beiriannydd i holi a yw'r traffig sy'n defnyddio'r bont yn cael ei fesur neu ei fonitro mewn rhyw fodd i atal cerbydau trwm dros 18 tunnell rhag defnyddio'r bont.

568.4 Gwagleoedd agored / Gwasanaethau Cefn Gwlad [535.5, 545.2, 557.3]

Adroddwyd y gofynnwyd i'r Gwasanaethau Cefn Gwlad sut mae'r safle yng Nghraigfechan yn cael ei rheoli a ph'un ai y gall plant ysgol fod yn rhan o waith cynnal a chadw'r warchodfa natur. Parhau i aros am ateb; y Clerc i fynd ar ôl hyn eto.

568.5 Gwelliannau ailwynebu'r ffordd [513.3, 523.3, 535.3, 545.5, 557.4] – y ffordd o Bentre Coch i'r Silff - Aros am ateb ynghylch unrhyw fwrriad i roi wyneb newydd parhaol ar y ffordd. Mynegwyd pryder fod y mater hwn wedi bod yn peri pryder ers cryn amser gyda fawr ddim ymateb gan yr Adran Priffyrdd. **PENDERFYNWYD** bod y Clerc yn ysgrifennu at Mr Tim Towers [gyda chopi i'r Arweinydd] ynghylch y mater.

568.6 Waliau / Pontydd anniogel [557.5] Adroddwyd bod y bont ger y cae pel-droed yn Llanfair DC a'r bont/wal ger Y Graig a Bwlch y Llyn, Pentrecoch, yn anniogel ac anfonwyd pryderon y Cyngor mewn e-bost i Gyngor Sir Ddinbych trwy'r Gwasanaethau Cwsmer. Yr ymateb gan yr awdurdod lleol oedd bod y materion wedi cael eu trin, ond ymddengys nad oes dim neu fawr ddim gwaith wedi'i wneud ar y bont ger Y Graig a Bwlch y Llyn. Diolchwyd i'r Cynghorydd Osian Owen am dynnu lluniau. **PENDERFYNWYD** bod y Clerc yn ysgrifennu at Uwch Beiriannydd Cyngor Sir Ddinbych [copi i'r Arweinydd] yn amgau ffotograffau i holi am y materion a godwyd.

568.7 Trwsio camfeydd [513.2] Roedd y Cynghorydd Osian Owen wedi anfon lluniau camfeydd wedi torri yn yr ardal, yng nghyfeirnod grid SJ 145544, SJ146538, SJ146544, SJ150555, SJ150557, SJ146537, SJ146543, SJ147529, SJ146545 a SJ145552. Bydd Archwilydd Llwybrau Troed Cyngor Sir Ddinbych yn cyhoeddi adroddiad maes o law. Diolchwyd i'r Cynghorydd Osian Owen am dynnu lluniau.

RHAN 2 569 PENDERFYNWYD gwahardd y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod oherwydd natur gyfrinachol yr eitemau a ganlyn:

570 MATERION ARIANNOL

570.1 Talu Cyfrifon/Anfonebau PENDERFYNWYD gwneud taliadau fel a ganlyn:
£40.00 Anfoneb 4831 Un Llais Cymru [Hyfforddiant Deall y Gyfraith y bu'r Clerc ynddo ar 21/05/19]
£286.70 Treuliau'r Clerc [Ebrill – Mehefin 2019]

£16.50 Cynghorydd Jayne Mayers [Ad-daliad – cost blodau a cherdyn i Moira Edwards]

570.2 Talu Lwfansau/Treuliau i Gynghorwyr 2019/20 Cyflwynwyd darn o Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol Chwefror 2019 ynghylch gwneud taliadau i aelodau [tabl 9]. Mae'r taliad o £150 y flwyddyn yn orfodol i bob aelod. Caiff unrhyw aelod unigol wneud penderfyniad personol i ddewis peidio â derbyn y cyfan neu ran o'r hawl i unrhyw daliadau trwy roi hysbysiad ysgrifenedig i swyddog priodol y Cyngor [y Clerc]. **PENDERFYNWYD** derbyn Penderfyniadau 44 a 45 Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, hynny yw, taliad i Gadeirydd y Cyngor o hyd at uchafswm o £1,500 a Dirprwy Gadeirydd y Cyngor hyd at uchafswm o £500. Cymeradwywyd.

570.3 Ceisiadau am Gymorth Ariannol PENDERFYNWYD [a] dyfarnu grant fel a ganlyn: £100.00 Hosbis Sant Cyndeyrn [gosodiadau mewnol ac offer anabled arbenigol]

570.4 Trosglwyddo arian o'r Cyfrif Cymunedol i'r Cyfrif Busnes PENDERFYNWYD trosglwyddo £20,000 o'r Cyfrif Cymunedol i'r Cyfrif Busnes.

570.5 Archwiliad Asesiad Risg Hysbysodd y Clerc bod Mr John Pugh, Syrfeiw'r Siartredig, wedi cynnal yr archwiliad ar 29/05/19. Mae angen gweithredu ar nifer o eitemau, y rhan fwyaf wedi'u nodi fel risg isel [gwaith trwsio'r hysbysfyrdau, profion PAT ar beiriannau cludadwy] i ganolig [tir gyda slabiau cerrig anwastad o gwmpas y gofeb rhyfel a disgyniad i lawr i'r pafin heb unrhyw ddull gwarchod]. Disgwylir i waith trwsio rhan o wal y fynwent, a gafodd sgôr risg uchel, ddechrau ar 15 Gorffennaf 2019 a nodwyd bod y garreg gopa wedi'i gwneud yn ddiogel yn Ebrill 2018 nid Hydref 2018. **PENDERFYNWYD** derbyn yr argymhellion yn yr adroddiad a chadarnhaodd yr aelodau eu bod yn fodlon i Mr John Pugh barhau i weithredu fel asiant y Cyngor ar faterion yn ymwneud ag archwiliadau, contractau adeiladu a gwaith trwsio. Ni chodir ffi am y gwasanaeth hwn.

571 DYDDIADAU CYFARFODYDD Y DYFODOL

2019 08/07/19 [Canolfan Genus], 09/09/19 [Ysgol Llanfair], 14/10/19 [Ysgol Pentrecelyn], 11/11/19 [Canolfan Genus], 09/12/19 [Ysgol Llanfair]
2020 13/01/19 [Ysgol Pentrecelyn], 09/03/19 [Canolfan Genus]

Gorffennodd y cyfarfod am 9pm

_____ CADEIRYDD _____ DYDDIAD

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR DYFFRYN CLWYD COMMUNITY COUNCIL
www.llanfaircommunitycouncil.co.uk

Cofnodion Cyfarfod Cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Genus, Llanrhydd, nos Lun, 8 Gorffennaf 2019 am 7.00pm.

PRESENNOL – Y Cynghorwyr Jayne Mayers [Cadeirydd], Paul Weston [Is-gadeirydd], David Baker, Bob Barton, Wini Davies, Keith Mouldsdaie, Ceri Ranson ac Eirwen Godden, Clerc.

HEFYD YN BRESENNOL - 5 aelod o'r cyhoedd

YMDDIHEURIADAU Y Cynghorydd Osian Owen [ymrwymiadau gwaith]

RHAN 1

572 DATGAN BUDDIANNAU Y Cynghorydd Keith Mouldsdale fel ymddiriedolwr Pwyllgor Rheoli Neuadd Eleanor ac fel preswylydd sy'n byw mewn eiddo gerllaw cais cynllunio 20/2019/0190 Clover Bank, Llanfair DC; y Cynghorydd Bob Barton yng nghyswllt yr Adroddiad Argymhellion Terfynol Mehefin 2019 Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru – Adolygiad Trefniadau Etholiadol Sir Ddinbych [mae'n aelod o dri Chyngor Cymuned arall].

573 COFNODION PENDERFYNWYD Cymeradwyo cofnodion y Cyfarfod Cyffredin a gynhaliwyd ar 10 Mehefin 2019 a'u llofnodi fel cofnodion cywir.

574 MATERION YN CODI / CAMAU GWEITHREDU

574.1 Sedd wag ar y Cyngor [565.1] Gan nad oedd y Cyngor Sir wedi derbyn cais am etholiad gellir cymryd camau i lenwi'r swydd wag. **PENDERFYNWYD** Y byddai'r Clerc yn dosbarthu hysbysiad cyfethol i hysbysebu'r swydd wag.

574.2 Cynllun Datblygu Lleol 2018-2033 – Ymgynghori ar y Strategaeth Ddrafft a Ffefrir [567.4] <https://www.denbighshire.gov.uk/en/resident/planning-and-building-regulations/local-development-plan/replacement-ldp/replacement-local-development-plan-2018-2033.aspx> Trefnwyd cyfres o arddangosfeydd ledled y sir i esbonio mwy am y broses Cynllun Datblygu Lleol a'r ymgynghoriad Strategaeth Ddrafft a Ffefrir –
17/07/19 2-7pm Neuadd y Dref Llangollen LL20 8NU
22/07/19 2-7pm Cyn adeilad Granite Outdoors, 64 Stryd Fawr, Y Rhyl LL18 1TW
23/07/19 2-7pm Llyfrgell Rhuthun LL15 1DS
Bydd yr ymgynghoriad yn parhau am gyfnod o wyth wythnos 08/07/19 – 30/08/19. Gellir gwneud sylwadau trwy'r porth ymgynghori <https://countyconversation.denbighshire.gov.uk/project/447>. Mynegodd yr aelodau bryder bod y cyfnod ymgynghori yn ystod cyfnod gwyliau arwyddocaol ac ni fyddai mewn sefyllfa i ymateb erbyn diwedd Awst. **PENDERFYNWYD** bod y Clerc yn ysgrifennu at yr Awdurdod Cynllunio i fynegi pryder bod yr ymgynghori'r cael ei gynnal yn ystod cyfnod gwyliau arwyddocaol [copi i'r Aelod Cynulliad] ac yn gofyn am estyniad i'r dyddiad cau tan ar ôl cyfarfod nesaf y Cyngor ar 09/09/19.

574.3 Archwiliad Allanol [559.3 13/05/19] – Pwyntiau Adolygu Adroddwyd bod rhestr o'r pwyllgorau a sefydlwyd gan y Cyngor, yn cynnwys eu cylch gwaith, a manylion costau staff, ynghyd â chopi o'r cofnodion yn dangos bod y Cyngor wedi cymeradwyo cynyddu'r cyflog/oriau, yn ofynnol. Cadarnhaodd y Clerc y byddai'n cyflwyno'r dogfennau sy'n ofynnol i BDO erbyn 18/07/19.

575 MATERION CYMUNEDOL

575.1 Safle'r hen ysgol / Ysgol Llanfair newydd Adroddwyd am neges e-bost gan drigolyn yn cyflwyno awgrymiadau ynghylch defnydd safle'r hen ysgol. Nodwyd eu bod eisoes wedi'u cynnwys yn y Cynllun Cymunedol. **PENDERFYNWYD** anfon llythyr diolch.

575.2 Datblygiad tai / Nwy prif gyflenwad

Derbyniwyd diweddariad gan Reolwr Dylunio Pure, yn cynnwys cynllun trefn datblygu'r safle:

[a] Disgwylir i Ran 1 gael ei chwblhau erbyn Mehefin 2020 a bydd dyddiad cwblhau Rhan 2 yn cael ei gadarnhau, yn ddarostyngedig i werthu'r eiddo.

[b] Tirlunio – ailgyflwynwyd y cynllun diweddaraf i adran Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych ar 14/06/19 a oedd yn cynnwys cynigion i ymdrin â'r prif bryderon a godwyd gan y cymdogion yn Barnfold a Crossways. Bydd Cynllunio'n cydgysylltu'n uniongyrchol gyda'r cymdogion i ddod i benderfyniad sy'n dderbyniol er mwyn cyflawni amod cynllunio 5 yn llawn. Disgwylir am adborth ffurfiol.

[c] Tai teras yn nhu blaen y safle [Rhan 1] – cyflwynwyd triniaeth arfaethedig y drychiadau i'r adran Cynllunio fel sy'n ofynnol dan amod 15.

[d] Draenio – mae rhai cysylltiadau wedi'u gwneud eisoes. Ni fydd y gwaith ar y safle yn effeithio ar unrhyw un o'r cymdogion, mae'r holl ddraenio wedi'i gysylltu i'r system newydd ar hyn o bryd. Bydd y gwaith llwybr troed newydd ar y briffordd [S278] wedi'i gwblhau erbyn 12/07/19 a'r gwaith ffordd erbyn wythnos gyntaf Awst, pan fydd gwaith adeiladu tai Rhan 1 yn dechrau, gan ddechrau wrth y fynedfa i'r safle.

[e] Gosod gwasanaeth nwy – mae Wales & West Utilities [WWU] wedi bod yn cydgysylltu gyda'r trefeddiannwyr i ddod i gytundeb ynghylch mynd â phibell nwy prif gyflenwad arfaethedig ar draws eu tir. Ceir cadarnhad am hyn [os yw'n cael ei gytuno] ar 19/07/19. Os felly, bydd WWU yn cymryd tua tri mis i gwblhau'r holl ddogfennau cyfreithiol a gosod yr holl waith oddi ar y safle er mwyn i nwy fod ar gael ar safle datblygiad newydd Pure, lle byddai'n ofynnol cael compownd nwy prif gyflenwad uwchben y ddaear – fel y dangosir eisoes ar y cynllun tirlunio'r safle a gyflwynwyd i'r Adran Cynllunio eisoes [byddai hyn yn golygu y byddai nwy ar gael ar safle Pure tuag at ddiwedd Hydref 2019]. Pe na bai WWU yn medru dod i gytundeb gyda'r perchennog tir, byddai'n rhaid i Pure ddibynnu ar osod tanciau nwy propan hylifol (LPG) tanddaearol, fel y dangosir eisoes ar y cynllun safle a gymeradwywyd eisoes.

PENDERFYNWYD gwahodd Rheolwr Dylunio Pure i ddod i'r cyfarfod Cyngor nesaf ar 09/09/19.

575.3 Canlyniadau'r Astudiaeth Ddichonoldeb Mae Pwyllgor Rheoli Neuadd Eleanor yn parhau i chwilio am grantiau o wahanol ffynonellau. Rhwir blaenoriaeth i osod ffenestri gwydr dwbl; mae £4,000 o gymorth grant ar gael eisoes; a bydd ceisiadau'n cael eu cyflwyno i Tesco a Chronfa Fferm Wynt Innogy ar gyfer cynlluniau eraill.

575.4 Cynllun Cymunedol Adroddwyd bod Mr Steve Whipp wedi drafftio ail rifyn gan ystyried materion a drafodwyd mewn cyfarfod is-grŵp a gynhaliwyd ar 25/05/19 yn cwmpasu gofynion Neuadd Eleanor yn y dyfodol a'r canfyddiadau o'r arolwg a gomisiynwyd. Bydd y grŵp yn cyfarfod eto yn ystod mis Awst ac awgrymwyd hefyd bod y Cynllun yn ystyried y papurau ymgynghori, polisiâu a safleoedd ymgeisiol y Cynllun Datblygu Lleol a'r adroddiadau archwilio gwagleoedd agored. Estynnwyd gwahoddiad i'r aelodau anfon awgrymiadau/sylwadau at y Clerc ymhell cyn cyfarfod nesaf y Cyngor ar 09/09/19 pan fydd cais i'r Aelodau gadarnhau rhifyn diweddaraf y Cynllun Cymunedol.

575.5 Cylchlythyr Adroddodd y Cyngorydd Keith Mouldsdale fod y trydydd mater wedi'i gyhoeddi a'i fod yn parhau i dderbyn ymatebion cadarnhaol. Awgrymwyd wrtho y dylai cynnwys y dudalen flaen a'r penawdau fod yn ddwyieithog.

576 GOHEBIAETH / ADRODDIADAU

576.1 Adroddiad Argymhellion Terfynol Mehefin 2019 Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru – Adolygu Trefniadau Etholiadol yn Sir Ddinbych
www.ldbc.gov.wales – tudalen 10 yn cyfeirio at Lanfair DC. Cynghorodd y Cynghorydd Barton, er nad oes unrhyw newidiadau o ran Llanfair ar yr adeg hon, mae newidiadau i Gynghorau eraill mae'n aelod ohonynt, a gallai hyn gael effaith ddilynol ar eraill.

576.2 Blychau Blodau'r Gofeb Rhyfel Neges e-bost dyddiedig 17/06/19 gan Mrs Moira Edwards yn datgan na all ofalu am y Gofeb Rhyfel a'r blychau blodau eleni. Cynigiodd y Cynghorydd Tim Faire ofalu am y blychau blodau. **PENDERFYNWYD** derbyn cynnig caredig y Cynghorydd Faire gyda diolch.

576.3 Gwasanaeth Dinesig Sir Ddinbych 21/07/19 Nodwyd. Cymeradwywyd bod y Cadeirydd yn mynd i'r gwasanaeth.

577 Adborth/Adroddiadau o Gynadleddau/Hyfforddiant/Cyfarfodydd

577.1 Digwyddiad SLCC 20/06/19 Adroddodd y Clerc bod eitemau o ddi-ddordeb penodol yn cynnwys y Rheoliadau Hygyrchedd Gwefannau a'r polisi cyfredol sy'n effeithio ar gynghorau lleol [mae angen i gynghorau gydymffurfio erbyn 23/09/20]; yswiriant seibr; rôl yr Ombwdsmon wrth ystyried cwynion ynghylch bwlio ac aflonyddu Clercod Cynghorau [ychydig iawn o gwynion sy'n cael eu hymchwilio; rhifyn 2019 Llywodraethu ac Atebolrwydd i Gynghorau Lleol yng Nghymru: Canllaw Ymarferwyr [ar gael yn fuan]. Adroddodd y Clerc y bydd yn gofyn am ragor o arweiniad ynghylch yr hyn mae angen i'r Cyngor ei wneud i gydymffurfio gyda'r rheoliadau hygyrchedd gwefannau. Cymeradwyodd yr aelodau bod y Clerc yn gweithredu fel bo angen a phrynu copi o'r canllaw ymarferwyr pan fo ar gael.

577.2 Siapio eich Cymuned – Hyfforddiant Rôl Cynlluniau Cymuned a Chynlluniau Bro, Llanrwst 11/06/19 Adroddodd y Cynghorydd Bob Barton ei fod yn ddiwrnod rhagorol, gan argymhell fod pawb yn lawrlwytho manylion y cyflwyniadau'n llawn. Mae Llywodraeth Cymru'n dymuno hyrwyddo Cynlluniau Bro i gwmpasu pob agwedd o ddatblygu tir o fewn ffiniau cymuned yn y fath fodd fel, trwy weithio gyda thîm Cynllun Datblygu Lleol yr awdurdod unedol, bydd yn dod yn ganllawiau atodol i'r Cynllun Datblygu Lleol. Esboniodd Prif Weithredwr Cymorth Cynllunio Cymru y materion allweddol yr oedd angen i bob cymuned eu hystyried er mwyn cynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol bach. Bydd Cynlluniau Bro yn dod yn rhan annatod o'r Cynlluniau Cymuned. Mae angen ystod eang o ddata i gefnogi'r Cynlluniau Cymuned a Bro. Bydd manylion o'r digwyddiad yn cael eu dosbarthu i'r Cynghorwyr fel y gellir defnyddio'r wybodaeth i lywio Cynllun Cymuned Llanfair.

577.3 Gweminar Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch Cefnogi Cynghorau Tref a Chymuned

Dywedodd y Clerc na allai gymryd rhan yn y weminar a gynhaliwyd ar 02/07/19 oherwydd ymrwymiad arall. Fodd bynnag, gall unrhyw un na allant ddilyn y weminar ar y diwrnod gofrestru i wrando ar recordiad yn eu hamser eu hunain. Manylion i'w hanfon at y Cynghorwyr.

577.4 Hyfforddiant Un Llais Cymru – Sgiliau Cadeirio 16/07/19 yn yr Wyddgrug. Cymeradwywyd bod y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn mynd i'r hyfforddiant.

577.5 Pwyllgor Ardal Conwy a Sir Ddinbych Un Llais Cymru 03/07/19 Adroddodd y Cynghorydd Barton bod Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru wedi rhoi cyflwyniad ar raglen yr heddlu i gynorthwyo atal aildroseddu.

578 CYNLLUNIO www.sirddinbych.gov.uk/cynllunio

578.1 Cais 20/2019/0487 a gyflwynwyd gan Goleg Cambria – Adeiladu Adeilad Cymunedol ar gyfer Coleg Cambria – Llysfasi, Rhuthun **PENDERFYNWYD** Holwyd sut y byddai'r cynnig o fudd i gymuned y coleg a'r gymuned ehangach; a oes cynllun ymgysylltu gyda'r gymuned; pa gyfleoedd sydd yna i gynnal deialog gyda'r coleg ynghylch mentrau cymunedol, yn enwedig o gofio Strategaeth a Ffefrir y Cynllun Datblygu Lleol Drafft i lwyrio twf a datblygiad yn y sir yn y dyfodol hyd at 2033? Hefyd holodd y Cynghorwyr beth yw diffiniad adeilad/hwb cymunedol gan Goleg Cambria.

578.2 Cais 20/2019/0510 a gyflwynwyd gan Mr Alun Lewis a Miss Rachel Davies – Torri wyth coeden i lawr yn yr Ardal Gadwraeth – Silver Birches, Llanfair DC **PENDERFYNWYD** Nododd yr aelodau bod y cais i dorri'r coed wedi'i gyflwyno ar sail diogelwch a lles y cyhoedd ac y byddent yn cael eu hadnewyddu. Gofynnodd yr aelodau a ymgynghorwyd gydag arbenigwr tyfu coed i roi cyngor ac arweiniad ar gyflwr/adnewyddu'r coed gan sicrhau edrychiad naturiol, cytbwys, a fyddai'n cyd-fynd gyda'r ardal gadwraeth. Mae'r aelodau'n cefnogi creu tirluniau byw a choridorau bywyd gwyllt ar draws Dyffryn Clwyd.

578.3 Cais 20/2019/0558 a gyflwynwyd gan Mr Mike Hall – Dymchwel tai allanol ac adeilad allanol yn gysylltiedig ag adeilad, estyniadau ac addasiadau i'r annedd, dymchwel tŷ allanol sengl ac adeiladu porth car, gosod tanc septig newydd a gwaith cysylltiedig [cynllun diwygiedig] – Castell, Graigadwywynt, Rhuthun **PENDERFYNWYD** Nad oedd unrhyw wrthwynebiad.

578.4 Ymateb yr Adran Gynllunio am wybodaeth yn dilyn sylwadau'r Cyngor Cymuned ynghylch cais 20/2019/0190 [567.2] Adeiladu dau fnyngalo dormer ar wahân ar dir yn Clover Bank, Llanfair DC. Adroddwyd y gwrthodwyd caniatâd ar 10/06/19 ar y sail y byddai'r ddau annedd yn cael effaith andwyol ar edrychiad a chymeriad yr ardal. Dywedodd aelodau lleol bod trigolion wedi datgan bod eu hyder yn y broses gynllunio wedi'i adfer.

578.5 Ymateb yr Adran Gynllunio am wybodaeth yn dilyn sylwadau'r Cyngor Cymuned ynghylch cais 20/2019/0329 [567.3] Adeiladu adeilad amaethyddol ar gyfer storio gwair/gwellt/porthiant a pheiriannau – Pen y Ffordd, Pentrecelyn a ph'un ai yw hwn yn adeilad amaethyddol ardystiedig. Adroddwyd y rhoddwyd caniatâd i'r cais ar 13/06/19 yn ddarostyngedig i amod i reoli defnydd yr adeilad ar gyfer storio amaethyddol yn unig, ac na ddylid defnyddio'r adeilad ar unrhyw adeg i letya da byw. Dylid hysbysu'r Adran Gynllunio am unrhyw achos o dorri'r amod. Nodwyd.

579 PRIFFYRDD A'R AMGYLCHEDD Ystyriodd yr aelodau y materion a ganlyn:

579.1 Llwybr troed Llanfair DC – Rhuthun Trafodwyd gwelliannau i'r llwybr troed ar sawl achlysur yn y gorffennol – ystyrir bod y llwybr yn rhy gul ac mewn cyflwr gwael, a chyfeirir ato yn y dogfennau ymgynghori Cynllun Datblygu Lleol fel llwybr cerdded/beicio. Teimlwyd y dylai gwaith i'w wneud yn lletach ac yn ddiogelach gael ei gyflymu, yn enwedig o gofio'r datblygiad tai newydd yn Llanfair. Cyfeiriwyd at llwybr cerdded/beicio wedi'i wella'n ddifawr yn ardal y Bala/Llanuwchllyn fel enghraifft dda. **PENDERFYNWYD** cyfeirio'r mater at yr Arweinydd, gyda gwahoddiad i gerdded ar hyd y llwybr o Lanfair i Rhuthun.

579.2 Plannu coed - Bron y Clwyd, Llanfair DC [557.1, 568.3] Adroddwyd y derbyniwyd ymateb gan Brif Swyddog Buddsoddi Cyngor Sir Ddinbych yn yr Adran Cyfleusterau, Asedau a Thai, yn cadarnhau bod y tir yn eiddo i ac yn cael ei gynnal a'i gadw gan yr awdurdod lleol. Disgwylir rhagor o wybodaeth am yr angen am ganiatâd cynllunio a/neu amodau eraill maes o lawr. Atgoffwyd yr aelodau y dylid gwirio i ganfod a yw'r ardal yn wagle agored dynodedig cyn bwrw ymlaen ag unrhyw gynlluniau. Roedd yr aelodau'n falch o glywed bod trigolion yn hapus cynorthwyo gyda'r plannu.

Dywedodd trigolyn ei bod yn cyfarfod gyda swyddogion Tai Cyngor Sir Ddinbych ar 12/08/19 i drafod ei chynnig ar gyfer planwyr ar y llecyn gwyrdd ym Mron y Clwyd.

579.3 Pont Eyarth [311.3, 431.2, 568.5] Derbyniwyd diweddariad fel a ganlyn gan Uwch Beiriannydd Cyngor Sir Ddinbych – mae'r pŵer i orfodi'r terfyn pwysau yn nwylo'r heddlu ac nid yr awdurdod priffyrdd. Roedd cydweithwyr wedi mynegi pryder o ran eu hadnoddau i orfodi'r gorchymyn ar adeg yr ymgynghori. Nodwyd.

579.4 Waliau / Pontydd anniogel [557.5, 568.6] Tynnwyd sylw at y bont ger y cae pel-droed yn Llanfair DC a'r bont/wal ger Y Graig a Bwlch y Llyn, Pentrecoch, a oedd yn ymddangos yn anniogel. Anfonwyd pryderon y Cyngor, yn cynnwys ffotograffau, at y Cyngor Sir a chafwyd yr ymateb a ganlyn gan Uwch Beiriannydd Cyngor Sir Ddinbych – mae cwlfert 3150 Bwlch y Llyn wedi'i gynnwys yn rhestr cynnal a chadw arferol y Cyngor Sir ar gyfer eleni. O ran y bwa ei hun mae mewn cyflwr cymharol dda, ac nid yw mewn perygl o ddymchwel, ar hyn o bryd. Mae'r difrod i'r parapet ar restr hir iawn a gallai gael ei drwsio eleni, yn dibynnu ar y blaenoriaethau. Nodwyd.

579.5 Gwagleoedd agored / Gwasanaethau Cefn Gwlad [535.5, 545.2, 557.3, 568.4] Adroddwyd y gofynnwyd i'r Gwasanaethau Cefn Gwlad sut mae'r safle yng Nghraigfechan yn cael ei reoli a ph'un ai y gall plant ysgol fod yn rhan o waith cynnal a chadw'r warchodfa natur. Parhau i aros am ateb. **PENDERFYNWYD** gofyn i'r Clerc gysylltu gydag Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru sy'n rheoli'r safle ar ran y Gwasanaethau Cefn Gwlad.

579.6 Gwelliannau ailwynebu'r ffordd [513.3, 523.3, 535.3, 545.5, 557.4, 568.5]] – y ffordd o Bentre Coch i'r Silff - Adroddwyd bod y Clerc wedi ysgrifennu at Mr Tim Towers eto ar y mater hwn. Dim ymateb hyd yma.

579.7 Trwsio camfeydd [513.2, 568.7] Roedd y Cynghorydd Osian Owen wedi anfon lluniau camfeydd wedi torri yn yr ardal. Roedd Arolygydd Llwybrau Troed Cyngor Sir Ddinbych wedi ymateb fel a ganlyn – cyfeirnodau grid SJ 145544 a SJ146538 – bydd Cyngor Sir Ddinbych yn clirio'r llystyfiant ac un ai'n dod o hyd i'r tîrfeddiannwr i drwsio'r gris neu bydd Cyngor Sir Ddinbych yn ei thrwsio; SJ146544 – angen gris newydd, bydd Cyngor Sir Ddinbych un ai'n dod o hyd i'r tîrfeddiannwr neu bydd Cyngor Sir Ddinbych yn ei thrwsio; SJ150555 – giât wedi ei gosod yn lle'r gamfa wedi torri; SJ150557 – giât llaw wedi'i gosod yno eisoes; SJ146537 – gris wedi torri i fynd ar y bont – bydd Cyngor Sir Ddinbych yn trwsio/adnewyddu hyn; SJ146543 – giât mochyn – bydd Cyngor Sir Ddinbych yn clirio'r llystyfiant ac yna'n asesu'r cyflwr, SJ147529 – angen strimio'r llwybr nesaf at Ysgol Pentrecelyn ac un ai ddod o hyd i'r tîrfeddiannwr i drwsio'r ris neu bydd Cyngor Sir Ddinbych yn gwneud hynny; SJ145552 – myndiad dros gamfa garreg nid trwy'r giât – efallai y gwneir rhywbeth tra'n gwneud gwaith arall yn yr ardal, bydd Cyngor Sir Ddinbych yn clirio'r llystyfiant ger y gamfa arall. Nodwyd.

Gofynnwyd i aelodau a thrigolion nodi pwysigrwydd darparu cyfeirnodau grid wrth adrodd am gyflwr llwybrau troed a chamfeydd.

579.8 Torri glaswellt / ymyl y lôn ar lonydd cul Mynegwyd pryder nad yw'r ardaloedd hyn yn cael eu torri'n ddigon aml a'i fod yn broblem diogelwch ffyrdd. **PENDERFYNWYD** bod y Clerc yn ysgrifennu at yr adran Priffyrdd am y mater, ac yn gwahodd y Pennaeth Priffyrdd a'r Arweinydd i ymweld â'r lonydd cul yn lleol.

RHAN 2 580 PENDERFYNWYD gwahardd y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod oherwydd natur gyfrinachol yr eitemau a ganlyn:

581 MATERION ARIANNOL

581.1 Cyflwynwyd – Crynodeb yr Incwm a'r Gwariant a'r Llyfr Derbyniadau / Taliadau am y cyfnod 1 Ebrill 2018 i 30 Mehefin 2019. Newidwyd y ffigur costau etholiad yn y gyllideb braesept o £1800 i £200 gan fod darpariaeth o £2000 wedi chynnwys eisoes yn y cronfeydd wrth gefn. **PENDERFYNWYD** [a] cymeradwyo'r dogfennau fel y'u cyflwynwyd, yn ddarostyngedig i newid y term 'Lwfansau Aelodau' i 'Taliadau Aelodau' a [b] bod y pennawd Costau Aelodau yn cynnwys llinell ychwanegol i gwmpasu taliadau i Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor [mae penderfyniadau 44 a 45 Panel Cydnabyddiaeth Ariannol Annibynnol Cymru yn cyfeirio at hyn].

581.2 Talu Cyfrifon/Anfonebau PENDERFYNWYD gwneud taliadau fel a ganlyn: £25.35 Cyngor Tref Dinbych [costau rhannu car – presenoldeb y Clerc yn nigwyddiad SLCC 20/06/19]

581.3 Ceisiadau am Gymorth Ariannol PENDERFYNWYD [a] dyfarnu grant fel a ganlyn: £150.00 Capel Salem Llanfair DC [costau cynnal a chadw] [b] adolygu swm y grantiau i gyrrff crefyddol yn ddiweddarach yn y flwyddyn wrth drafod y gyllideb braesept ar gyfer 2020/2021.

581.4 Asesiad Risg – Blaenoriaethau Gweithredu Mae angen gweithredu ar nifer o eitemau, ond mae'r mwyafrif wedi'u nodi fel risg isel [trwsio hysbysfyrdau, profion offer cludadwy ar beiriannau cludadwy] i risg canolig [tir gyda cherrig pafin anwastad o gwmpas y gofeb rhyfel a chwymp heb fesurau diogelu i'r palmant islaw]. Disgwylir i waith trwsio rhan o wal mynwent yr eglwys, a nodwyd fel risg uchel, ddechrau yn ystod yr wythnos yn dechrau 22 Gorffennaf 2019. **PENDERFYNWYD** y dylai'r Clerc barhau i ofyn am ragor o gyngor gan Syrfeiwr Cadwraeth Cyngor Sir Ddinbych ynghylch y camau y gellir eu dilyn i wella'r tir o gwmpas y gofeb rhyfel, yn cynnwys gosod rheiliau.

582 DYDDIADAU CYFARFODYDD Y DYFODOL

2019 09/09/19 [Ysgol Llanfair], 14/10/19 [Ysgol Pentrecelyn], 11/11/19 [Canolfan Genus], 09/12/19 [Ysgol Llanfair]

2020 13/01/20 [Ysgol Pentrecelyn], 09/03/20 [Canolfan Genus]

Gorffennodd y cyfarfod am 9.15pm.

_____ CADEIRYDD _____ DYDDIAD

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR DYFFRYN CLWYD COMMUNITY COUNCIL
www.llanfaircommunitycouncil.co.uk

Cofnodion Cyfarfod Cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd yn Neuadd Eleanor, Llanfair DC, nos Lun, 19 Awst 2019 am 7.00 pm.

PRESENNOL – Y Cyngorwyr Jayne Mayers [Cadeirydd], David Baker, Bob Barton, Wini Davies, Osian Owen, Ceri Ranson ac Eirwen Godden, Clerc.

HEFYD YN BRESENNOL - 13 aelod o'r cyhoedd

YMDDIHEURIADAU Y Cyngorwyr Tim Faire a Keith Mouldsdales [datgan buddiannau]; y Cyngorydd Hugh Evans, OBE, Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych.

583 CYNLLUN DATBLYGU CYMDOGAETH Y CYNGOR CYMUNED

Cyflwynwyd – cynllun diwygiedig/wedi'i ddiweddarau. Diolchwyd i Mr Steve Whipp, cadeirydd is-grŵp y Cynllun Cymunedol, am ei holl ymdrechion a'i fewnbwn i'r rhifyn diweddaraf i'w gymeradwyo gan y Cyngor Cymuned. Adroddodd bod yr is-grŵp wedi casglu cyfres o syniadau [disgwyllir rhagor o gynigion] a chanllawiau mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar 29/05/19 i gydlynu newidiadau, gyda mwy ynghylch polisi a meddwl yn strategol, egwyddorion arweiniol, cydnabod cyrff allanol allweddol, dogfennau awdurdod lleol yn cynnwys anghenion Neuadd Eleanor a sefydliadau eraill yn y gymuned ehangach. Y nod yw cael dogfen fyw wedi'i chynhyrchu fel sylfaen ar gyfer trafodaeth i weithio tuag at gymunedau cydlynus, gyda llesiant a diwylliant yn ganolog i'r hyn sydd angen digwydd. Y cam nesaf fydd edrych ar amserlenni ar gyfer y cynigion a restrwyd a bydd y Cyngor Cymuned yn ystyried y rhain. Cydnabuwyd y gellid tynnu rhai elfennau allan i'w cynnwys mewn cynllun bro yn ymwneud â chynllunio datblygu, fel y cyfeirir ato ym Mholisi Cynllunio Cymru, i'w ddatblygu gyda'r Tîm Cynllun Datblygu Lleol ochr yn ochr â'r cynllun cymdogaeth sy'n cynnwys tystiolaeth leol.

PENDERFYNWYD [a] Cymeradwyo'r fersiwn ddiweddaraf mewn egwyddor, yn ddarostyngedig i fan gywiriadau ac ychwanegiadau/diwygiadau i adlewyrchu'r sylwadau a wnaed yn y cyfarfod. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda Thîm Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych ynghylch y posibilrwydd o ddatblygu cynllun bro ac anfon copi o'r cynllun cymdogaeth atynt. [b] Dogfen ddiwygedig i'w chyflwyno i'w chadarnhau gan y Cyngor Cymuned yn y cyfarfod i'w gynnal ar 09/09/19.

584 STRATEGAETH A FFEFRIR DDRAFFT CYNGOR SIR DDINBYCH - CYNLLUN DATBLYGU LLEOL 2018-2033 - www.denbighshire.gov.uk/ldp

Cyflwynwyd – ymateb drafft i'w gyflwyno i'r Cyngor Sir o ran y dogfennau/cynigion a restrir isod. Nodwyd bod dyddiad cau ymatebion i'r ymgynghoriad wedi'i ymestyn i 27/09/19 ar gyfer cynghorau tref a chymuned [30/08/19 ar gyfer trigolion]. Diolchwyd i Mr Steve Whipp a Mr Phil Bennett Lloyd am yr holl waith paratoi a wnaed i gynhyrchu'r ymateb drafft.

PENDERFYNWYD [a] anfon yr ymatebion a ganlyn, fel y'u diwygiwyd yn y cyfarfod, i'r Cyngor Sir ar ôl cyfarfod nesaf y Cyngor Cymuned i'w gynnal ar 09/09/19 a [b] pharatoi nodyn briffio i gefnogi trigolion wrth ymateb i'r ymgynghori ar y Cynllun Datblygu Lleol a'i roi ar wefan y Cyngor Cymuned a bod ar gael i rwydweithiau cyfryngau cymdeithasol lleol.

584.1 Cyflwyniad Mae'r ymateb hwn yn cynrychioli'r mewnbwn y dymuna Cyngor Cymuned Llanfair DC ei gyflwyno i'r ymgynghori ynghylch Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych. Mae Cyngor Cymuned Llanfair DC yn cynrychioli pentrefi Llanfair DC, Graigfechan, Pentre Coch a Phentrecelyn yn ogystal â'r cefn gwlad amgylchynol ac mae 1,048 o drigolion gyda 458 eiddo ar y gofrestr etholiadol. Mae'r Cyngor Cymuned wedi datblygu nodyn briffio i'r holl aelodau i alluogi cymryd rhan yn yr ymgynghori ar y Cynllun Datblygu Lleol a chynhaliwyd cyfarfodydd arbennig i sicrhau bod y Cyngor Cymuned wedi ystyried y cynigion ac yn medru cyflwyno barn gynrychioliadol ar ran y gymuned gyfan.

584.2 Lefelau twf arfaethedig Noda Cyngor Cymuned Llanfair DC bod nifer o sefyllfaoedd yn y dyfodol wedi'u modelu a'u hystyried wrth ddatblygu'r strategaeth twf dros gyfnod y cynllun. Mae'r Cyngor Cymuned yn cefnogi'r dull strategol a ffeirir ac mae'n ystyried bod hwn yn ddull cyfrifol, darbodus ac ymarferol. Mae peth ansicrwydd allweddol ar hyn o bryd a allai effeithio ar y tueddiad cyffredinol o ran twf:

- Effaith gadael yr Undeb Ewropeaidd ('Brexit') a'r canlyniadau i'r dyfodol a allai fod yn arwyddocaol i'r rhanbarth o ran cynyddu neu leihau twf.
- Gallai creu Pwerdy Gogledd Lleol gael effaith cadarnhaol hefyd os yw'n darparu ysgogiad i ardaloedd cyfagos fel Caer, Lerpwl a Manceinion.
- Byddai rheilffordd HS2 yn darparu symbyliad i'r rhanbarth wrth alluogi mynediad i ranbarthau eraill. Gallai hyn ysgogi gweithgarwch diwydiannol, masnachol, busnes a thai.

584.3 Strategaeth Ofodol arfaethedig Noda Cyngor Cymuned Llanfair DC y dull a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r strategaeth ofodol ac mae'n cydnabod bod ardal y Cyngor Cymuned yn cynnwys pentref (Llanfair DC), pentref heb wasanaethau (Graigfechan) a chefn gwlad fel arall, ardaloedd heb eu dosbarthu fel Pentrecelyn a Phentre Coch, yn ogystal ag anheddiadau gwledig anghysbell. Mae'r Cyngor Cymuned yn cydnabod y realiti y bydd y pwyslais ar gyfer twf yn digwydd yng ngogledd y sir. Fodd bynnag, bydd y cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau gwledig yn parhau a byddai hyn yn cynnwys gweithgareddau'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth yn bennaf. Mae ardal y Cyngor Cymuned yn chwarae rôl allweddol mewn cynhyrchu bwyd, trwy ffermio defaid, gwartheg a chnydau â'r, ac mae'n cynnwys gweithgareddau cysylltiedig megis Canolfan Fridio Genus a Choleg Llysfasi. Mae twristiaeth hefyd yn weithgaredd sy'n cynyddu'n gyson yn yr ardal.

Mae ardal y Cyngor Cymuned wedi gweld lefel arwyddocaol o safleoedd tai bychan (tai unigol yn aml) a phrosiectau newid adeiladau a disgwylir i hyn barhau. Mae pentref Llanfair DC hefyd wedi gweld cymeradwyo a datblygu safle tai 63 uned a fydd yn dyblu nifer y tai nesaf at y pentref. Bydd pobl yn dechrau byw yn y tai ddiwedd 2019 ac mae amod i gwblhau'r datblygiad cyfan cyn pen 5 mlynedd. Mae rhai mesurau cynllunio i ddarparu seilwaith wedi'u cyflwyno megis darpariaeth ysgol newydd, ond nid oes ganddi'r capasiti i dderbyn plant oedran cynradd o'r datblygiad newydd. Bydd yn ofynnol darparu gwasanaethau eraill fel gofal iechyd, cludiant, addysg uwchradd a siopau yn Rhuthun neu rywle arall. Disgwylir y bydd yn ofynnol i effaith y datblygiad newydd setlo cyn ystyried datblygiad arwyddocaol arall. Rhaid i raddfa unrhyw ddatblygu fod yn gyfrannol i raddfa'r pentrefi gwledig, gan barchu'r gofynion statudol a nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a sicrhau cynaliadwyedd cymeriad, amgylchedd a diwylliant y pentrefi a llesiant y trigolion, yn awr ac yn y dyfodol. Nodir Dyffryn Clwyd fel Tirwedd o

Bwysigrwydd Hanesyddol Arbennig, gyda'r adroddiad Nodweddion Tirwedd Hanesyddol (Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd Powys) yn diffinio'r pentrefi a'r cymunedau fel 'anheddiadau cnewyllog bychan'. Mae'r nodweddion diffiniadol hyn yn hanfodol i'r ardal, ei threftadaeth ddiwylliannol a'r naws am le cryf sy'n cefnogi'r cymunedau a llesiant pobl. Mae Llanfair DC wedi cynhyrchu Cynllun Cymdogaeth sy'n ystyried ac yn nodi anghenion y gymuned, gan ddarparu sail tystiolaeth dan arweiniad y gymuned ac egwyddorion a fyddai'n sylfaen ar gyfer Cynllun Bro (Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 10, paragraffau 1.28-1.29).

584.4 Polisiâu Allweddol Drafft

Mae Cyngor Cymuned Llanfair DC yn croesawu'r polisiâu allweddol drafft sy'n gyson gyda'r dull a ddilynir wrth ystyried cynigion. Bydd y Cyngor Cymuned yn mabwysiadu'r polisiâu allweddol wrth ystyried cynigion datblygu yn y dyfodol er mwyn sicrhau cysondeb gyda nodau a chanllawiau allweddol sirol a chenedlaethol. O ran y polisiâu penodol a chyfleoedd lleol, gwneir y sylwadau isod:

584.4.1 Tir Cyflogaeth – Un defnydd a gynigiwyd ar gyfer cyn Ysgol Llanfair a fydd yn dod yn wag ym mis Medi 2019 yw fel deorfa busnesau, tebyg i Dŷ Technoleg yn Rhewl. Byddai angen cydgysylltu gyda Chynllunwyr y sir i benderfynu a oes angen rhagor o unedau dechrau busnes yn yr ardal. Cynigiwyd mathau eraill o ddefnydd potensial ar gyfer yr ysgol hefyd.

584.4.2 Adwerthu Mae'r Cyngor Cymuned wedi nodi'r datganiad polisi allweddol ac yn cytuno gyda ef yn fras. Fodd bynnag, mae achos dros ddarparu siop leol gyffredinol ac awgrymwyd hyn hefyd fel opsiwn ar gyfer safle'r hen ysgol. Mae siop gymunedol ym Mhwllglas ar hyn o bryd, ond nid yw'n hygyrch o ardal Llanfair. Mae potensial i sefydlu cyfleusterau 'lloeren' a gynhelir ar y cyd gyda Siop Pwllglas, yn rhan o'r hen ysgol efallai, fod o fudd arwyddocaol i'r ddwy gymuned, heb gyflwyno cystadlu sy'n tarfu ar hyn. Nodwyd bod Coleg Llysfasi wedi gwneud cais am gyfleuster cymunedol yn ddiweddar, ac mae'r Cyngor Cymuned yn cysylltu gyda nhw i ddeall beth sy'n cael ei gynnig. Mae'n bosibl y byddai cyfle ar gyfer siop gyffredinol neu siop fferm. Mantais cael siop yn y pentrefi fyddai bodloni'r galw gan y gymuned sy'n tyfu a lleihau allyriadau carbon sy'n gysylltiedig gyda theithio i Rhuthun. Cydnabyddir y byddai Rhuthun yn parhau'r canol tref lle y byddai nwyddau a gwasanaethau mwy arbenigol yn cael eu darparu.

584.4.3 Seilwaith Mae'r Cyngor Cymuned yn croesawu'r cynnig i sicrhau dilyn dull cyfannol o ran cynigion datblygu ac y dylai'r rhain sylweddoli'r angen am gyfraniad i sicrhau lleihau effaith datblygiadau newydd. Nid yw'r datblygiad cyfredol sy'n digwydd yn Llanfair i adeiladu 63 cartref newydd yn gwneud fawr ddim cyfraniad i'r seilwaith; cynhwysir yr isafswm o dai fforddiadwy, amwynderau hamdden ac mae'n meddu ar y potensial i rannu'r gymuned ac, yn drist iawn, mae'n dangos sut y gellir cyflwyno datblygu heb fawr ddim ystyriaeth i'r effaith y tu hwnt i'r safle ei hun. Byddai Cyngor Cymuned Llanfair DC yn annog Cyngor Sir Ddinbych i ystyried mecanweithiau cadarn er mwyn derbyn lefelau cyllid rhesymol gan ddatblygwyr (neu dirfeddiannwyr sy'n elwa o gynnydd yng ngwerth y datblygiadau) i ddarparu seilwaith a gwasanaethau hanfodol sy'n gysylltiedig â thwf, yn lleol ac ar raddfa fwy strategol. Mae seilwaith yn fater sy'n cael ei grybwyll yn gyson yng nghyfarfodydd y Cyngor Cymuned a chanfyddir bod ffyrdd a phontydd yn peri pryder ac mae'n amlwg fod y Cyngor Sir yn cael anhawster bodloni'r anghenion hyn.

584.4.4 Yr Economi Ymwelwyr Mae Cyngor Cymuned Llanfair DC wedi gweld nifer o gynigion ar gyfer meysydd carafanau a gwersylla (glampio) yn ystod y cyfnod diweddar ac wedi cydgyssylltu'n agos gyda'r cynigwyr i sicrhau darparu cyfleusterau ansawdd uchel. Mae'r Cyngor Cymuned yn sylweddoli ac yn cydnabod y cyfleoedd y mae twristiaeth yn ei gynnig i'r rhanbarth a bydd yn cefnogi cynigion priodol. Un ystyriaeth a gynigiwyd yw cynnig llety tŷ bynciau i ymwelwyr sy'n ymweld â'r ardal neu'n cerdded Clawdd Offa neu Lwybr Bryniau Clwyd neu'n ymweld â Choed Llandegla.

584.4.5 Cludiant a Hygyrchedd Mae Cyngor Cymuned Llanfair DC yn cynnwys darpariaeth yn ei Gynllun Cymdogaeth i wella cyfleusterau llwybrau troed a beicio yn yr ardal. Gwnaed peth gwaith dichonoldeb ond disgwylir y bydd angen gwneud rhagor i gysylltu'r pentrefi a darparu cysylltiadau. Mae hyn yn cyd-fynd ag agweddau o Gynllun Corfforaethol Cyngor Sir Ddinbych megis llesiant, cysylltu cymunedau, hybu newid yn y dull trafnidiaeth a lleihau allyriadau.

584.4.6 Yr Amgylchedd Naturiol ac Adeiliedig Mae Cyngor Cymuned Llanfair DC yn cefnogi'r polisi allweddol a gynigir yn y ddogfen ymgynghori ar y Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r Cyngor Cymuned wedi bod yn awyddus i weld cynigion sy'n cryfhau cyfoeth naturiol yr ardal. Mae'r Cyngor Cymuned yn sensitif i'r effaith mae nifer o ddatblygiadau diweddar yn Llanfair DC wedi'u cael lle bo coed a gwrychoedd wedi'u tynnu ymaith heb ystyriaeth ddigonol a darpariaeth wael o ran gwagle gwyrdd. Rhaid i gynigion newydd fod yn ddarostyngedig i graffu manylach yng nghyswllt hyn. Gwnaiff y Cyngor Cymuned ystyried sut y gall gefnogi diogelu coed a gwrychoedd a bydd yn gweithio gyda'r Cyngor Sir i awgrymu lle byddai gorchmynion cadw coed yn addas, ar sail gwybodaeth leol.

Nodir, yn Adroddiad Archwiliad ac Asesiad Gwagleoedd Agored Cyngor Sir Ddinbych, ym mhedwar o'r chwech categori mae gan 100% o'r trigolion yn ardal y cyngor cymuned fynediad cyfyngedig i gyfleusterau gwagle agored. Mae'r gwagle sydd ar gael ar hyn o bryd yn werthfawr iawn ac mae'n cyflwyno cyfleoedd i'w wella a'i gyfoethogi yn hytrach na'i ddiraddio neu ei gollu.

584.4.7 Y Gymraeg Bydd cynigion sy'n cynnal neu'n cyfoethogi integriti'r Gymraeg yn cael eu cefnogi.

584.5 Arfarniad Cynaliadwyedd Mae'r ddogfen yn darparu adnodd defnyddiol i'r Cyngor Cymuned gyfeirio ato wrth i ni ddatblygu ein Cynllun Cymdogaeth. Nodwn fod rhaid i leoliad datblygiad fod yn sensitif i: yr angen i hyrwyddo'r Gymraeg; pocedi amddifadedd; yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol; safleoedd cadwraeth; yn ogystal â'r tirweddau a'r amgylcheddau naturiol, amaethyddol, hanesyddol a diwylliannol. Rhaid i iechyd a lles pobl, yn ogystal â newid yn yr hinsawdd a'i effeithiau potensial, gael eu hystyried fel rhan o ddatblygu cynaliadwy.

584.6 Arfarniad Rheoliadau Cynefinoedd Mae Cyngor Cymuned Llanfair DC yn nodi'r adroddiad ar reoliadau cynefinoedd a baratowyd ar y cyd gyda Chynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych. Dymuna'r Cyngor Cymuned dynnu sylw'r Cyngor Sir i'r ardaloedd o ddiddordeb arbennig. Mae ardal Llanfair DC yn cynnwys ardaloedd fel:

- Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy,
- Gwarchodfa natur Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Coed Cilygroeslwyd, un o warchodfeydd natur cyntaf Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru, a brynwyd yn 1964 ac sy'n gartref i rywogaethau prin ac yn gyforiog o fywyd gwyllt,

- Graig Wyllt, safle hyfryd wedi'i gysgodi gan goetir hynafol, sy'n llawn lliwiau yn y gwanwyn gyda golygfeydd godidog ar draws Dyffryn Clwyd,
- Gwarchodfa gloynnod byw Creigiau Eyarth sy'n cynnwys rhywogaethau prin ac mewn perygl (Ardal o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig).

Mae rhagor o safleoedd arbennig yn cael eu hystyried ac mae'r Cyngor Cymuned yn cydweithio gydag Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru yn ogystal â'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Bydd y Cyngor Cymuned yn edrych ar yr holl ddatblygiadau arfaethedig ac yn ceisio sicrhau nad oes unrhyw effaith ar yr ardaloedd arbennig hyn. Hefyd mae cynnig i ddatblygu coridor bywyd gwyllt strategol ar draws Dyffryn Clwyd, yn croesi Cyngor Cymuned Llanfair DC, i ganiatáu cysylltedd rhwng yr ardaloedd arbennig hyn i alluogi parhad rhwng cynefinoedd, creu cydnerthedd ecosystemau a, thrwy hyn, annog cynaliadwyedd y rhywogaethau prin a phwysig yn genedlaethol yn ogystal â chynefinoedd sy'n fregus yn lleol.

Mae polisïau eraill, yn cynnwys tai, tai fforddiadwy a rheoli gwastraff, o ddiddordeb i Gyngor Cymuned Llanfair DC a byddant yn cael eu hystyried wrth ddatblygu ein Cynllun Cymdogaeth. Mae Cyngor Cymuned Llanfair DC yn croesawu'r polisïau allweddol a bydd yn ceisio eu mabwysiadu ac ymdrin â nhw trwy fesurau i'w cynnwys yn y Cynllun Cymdogaeth.

584.7 Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol – Sylwadau Cyffredinol Darperir sylwadau penodol i bob safle ynghylch pob un o'r safleoedd ymgeisiol ar y gofrestr yn y Cynllun Datblygu Lleol isod. Mae'r isod yn bwyntiau cyffredinol sy'n berthnasol i bob safle:

584.7.1 Gwnaeth Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Ddinbych 2006 - 2022 gydnabod yr ardal leol o gwmpas Llanfair DC fel 'Tirwedd Hanesyddol'. Mae'n ardal o dir amaethyddol gwledig yn bennaf, gydag anheddiadau cnewyllog bach yma ac acw. Mae Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd yn edrych dros y dyffryn i gyfeiriad gorllewinol. Mae gan bentref Llanfair DC Ardal Gadwraeth yn ei chanol, ac mae hyn yn darparu naws am le i'r holl ardal gyda ffocws cymdeithasol yr eglwys, y gofeb rhyfel, y cyn ysgol gynradd a'r elusendai (teras Elizabeth Owen) a thafarn y Ceffyl Gwyn. Byddai'r Cyngor Cymuned yn dymuno i unrhyw ddatblygiad gadw'r naws am le, ac yn benodol yr Ardal Gadwraeth yn Llanfair DC.

584.7.2 Byddai'r Cyngor Cymuned yn dymuno osgoi unrhyw ddatblygiad a fyddai'n cael effaith andwyol ar amwynder gweledol yr ardal, yn enwedig i ac o'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Mae twristiaeth yn dod yn rhan gynyddol bwysig o'r economi leol yn yr ardal ac mae'r angen i gadw'r ymdeimlad o wagle a'r teimlad gwledig heddychlon yn ganolog i'r cynnig twristiaeth. Mae mwyafrif yr ardaloedd, a phentrefi Graigfechan, Pentre Coch a Phentrecelyn, yn rhan o'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.

584.7.3 Cyhoeddwyd Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 10, fis Rhagfyr diwethaf. Mae'n cyfeirio ar y ffordd y dylid trin tir amaethyddol. Mae'n datgan, o ran y tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas:

3.54 Tir amaethyddol gradd 1, 2 a 3a yn y system Ddosbarthu Tir Amaethyddol yw'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas a dylid ei gadw i genedlaethau'r dyfodol fel adnodd y mae pen draw iddo.

3.55 Wrth ystyried y dilyniant chwilio ac wrth ddatblygu polisiau'r cynllun datblygu a phenderfyniadau rheoli datblygu dylid rhoi pwysau sylweddol ar ddiogelu tir o'r fath rhag cael ei ddatblygu, oherwydd ei bwysigrwydd arbennig.

Dylai tir gradd 1, 2 a 3a gael ei ddatblygu yn unig os oes angen trechol am y datblygiad, a bod tir a ddatblygwyd yn flaenorol neu nad oes tir amaethyddol gradd is ar gael, neu bod gan dir amaethyddol gradd is werth amgylcheddol sy'n cael ei gydnabod gan ddynodiad tirwedd, bywyd gwyllt, amaethyddol neu archeolegol sy'n bwysicach na'r ystyriaethau amaethyddol. Os oes angen datblygu tir gradd 1, 2 neu 3a, a bod dewis rhwng safleoedd gwahanol raddau, dylid cyfeirio datblygu at y tir gradd isaf.

Mae gan Gyngor Cymuned Llanfair DC bryder y byddai llawer o'r safleoedd ymgeisiol arfaethedig yn yr ardal yn golygu colli tir amaethyddol ac awgrymir yn gryf y dylid osgoi hyn yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru.

584.7.4 Mae Cyngor Cymuned Llanfair DC yn bryderus y gallai cynnwys y safleoedd ymgeisiol yn y gofrestr yn y Cynllun Datblygu Lleol fwrw cysgod dros neu felltithio eiddo cyfagos. Mae dogfennau ymgynghori Cyngor Sir Ddinbych ynghylch y Cynllun Datblygu Lleol yn cydnabod bod gorgapasiti enfawr o ran y safleoedd a gynigir i'w cynnwys. Mae Cyngor Cymuned Llanfair DC yn annog Cyngor Sir Ddinbych i ddileu safleoedd ymgeisiol o'r gofrestr gynted ag y bo'n ymarferol, unwaith y bo'n amlwg na fyddant yn mynd ymlaen i'w hystyried ymhellach yn y Cynllun Datblygu Lleol.

584.7.5 Dengys profiad bod gweithgareddau adeiladwaith yn gysylltiedig â datblygu tai yn arwain at niwsans sŵn, dirgrynu a llwch. Ymhellach, mae traffig sy'n gysylltiedig gyda'r adeiladwaith yn creu tarfu ar y briffordd. Mae gweithgareddau datblygu yn gwadu'r hawl i drigolion fwynhau amgylchedd tawel a heddychlon, yn enwedig y rhai mewn eiddo cyfagos, a gall gynrychioli colli'r hawl i fwynhau eu cartrefi a'r amgylchedd amgylchynol yn ystod a thu hwnt i'r cyfnod adeiladu. Mae'r straen sy'n deillio o'r ymgynghori ynghylch cynllunio, yn ogystal â'r gweithgaredd adeiladwaith, yn difetha iechyd trigolion.

584.7.6 Mae'r Cyngor Cymuned wedi datblygu Cynllun Cymdogaeth. Mae hyn yn nodi'r anghenion ar gyfer y dyfodol. Mae'n nodi sut mae'r Cyngor Cymuned yn gweithio gydag eraill ac, er enghraifft, yn disgrifio sut mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio i wella'r amgylchedd, y bioamrywiaeth naturiol ac ecoleg yr ardal. Mae nifer o warchodfeydd a safleoedd bywyd gwyllt y naill ochr i Ddyffryn Clwyd sy'n cynnwys rhywogaethau prin ac mewn perygl. Cynigir creu coridorau naturiol ar draws y Dyffryn i annog bywyd gwyllt i fudo i ardaloedd ehangach ac i ysgogi amrywiaeth bioamrywiaeth. Byddai angen ystyried unrhyw ddatblygu yn y safleoedd ymgeisiol a gynigir i sicrhau nad yw'r amgylchedd adeiledig newydd yn gweithredu fel rhwystr i fywyd gwyllt. Mae gan yr holl safleoedd ymgeisiol gynefin cyfoethog gyda choed a gwyrchoedd wedi hen sefydlu, ac mae'r rhain yn gartref i dylluanod, ystlumod ac amrywiaeth eang o fywyd gwyllt. Er enghraifft, mae gan y gwyrchoedd draenen wen aeron a ddefnyddir gan esgyll cochion ar gyfer eu mudo blynyddol. Mae dyfrgwn yn bresennol yn y dyffryn, a lluniwyd gwâl i annog eu presenoldeb.

584.7.7 Mae angen ystyried effaith hydrolegol unrhyw ddatblygiad arfaethedig yn rhan uchaf Dyffryn Clwyd yn ofalus iawn. Mae caledu arwynebau o gaeau gwyrdd i doeon neu gerrig pafin yn ganlyniad anochel. Mae datblygiadau cyfredol wedi cynnwys tanciau dâl dŵr

draenio, ac fe'u dyluniwyd i leihau effaith a photensial llifogydd oherwydd digwyddiadau glawiad. Rhaid gwneud cynigion ar sail bob achos unigol a dylid defnyddio'r egwyddor o ddim dirywiad, fel bod rhaid i ddyluniad safle sicrhau nad yw'r amodau yn is i lawr yr afon yn cael eu gwaethygu o ganlyniad i unrhyw ddatblygu.

584.7.8 O ran trin carthffosiaeth, gwasanaethir ardal y Cyngor Cymuned gan waith trin carthion bychan yn Llanfair DC a Graigfechan, a gan danciau septig fel arall. Cafodd y gwaith trin carthion yn Llanfair DC ei uwchraddio gan Dŵr Cymru i ymdrin â'r datblygiad newydd yn cynnwys 63 o dai ac i sicrhau ei fod yn bodloni'r safonau caniatâd arllwys gofynnol. Byddai rhagor o ddatblygu yn ei gwneud yn ofynnol adolygu a gwella darpariaeth y gwasanaeth hwn.

584.7.9 Byddai datblygu'r safleoedd ymgeisiol yn ei gwneud yn ofynnol ehangu gwasanaethau i ymdopi gyda'r tai ychwanegol. Mae Cyngor Cymuned Llanfair DC yn sylweddoli y byddai unrhyw ddatblygiad arall yn y rhan hon o'r sir hefyd yn galw am wasanaethau fel addysg a gofal iechyd yn ardal Rhuthun, a byddai angen i gynigion datblygu ystyried y gofynion lleol ehangach am wasanaethau.

584.7.10 Mae'r ysgol newydd leol yn Llanfair DC eisoes ar ei lefel capasiti ac nid o'r maint i fodloni anghenion y tai sy'n bodoli a'r rhai sydd wedi'u cymeradywo eisoes, a bydd angen darparu cyfleusterau ysgol ychwanegol.

584.7.11 O ran gwasanaethau eraill, mae band eang yn yr ardal yn dameidiog ac nid oes unrhyw gynlluniau i ymestyn y cysylltiad nwy arfaethedig y tu hwnt i'r datblygiad 63 o dai sy'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd. Mae'r mynediad i ofal iechyd, meddygon teulu a deintyddion dan straen yn Rhuthun ar hyn o bryd, a byddai rhagor o dwf yn y boblogaeth yn ei gwneud yn ofynnol cael darpariaeth ychwanegol neu i bobl orfod teithio i gael gwasanaethu. Darperir addysg uwchradd yn Rhuthun a thu hwnt.

584.7.12 Mae capasiti'r priffyrdd i'r de o Rhuthun eisoes yn cyrraedd y sefyllfa lle bo tagfeydd yn digwydd ar adegau llif brig. Byddai datblygu safleoedd ymgeisiol yn ychwanegu at y llifau traffig ar y priffyrdd, gan waethygu'r cyfyngiadau ac arwain at oedi arwyddocaol, sy'n gwrthdaro gyda'r nod o hyrwyddo a darparu dulliau teithio egniïol a newid yn y dulliau teithio. Dylid ystyried yr effeithiau ar y priffyrdd yng nghyswllt unrhyw ddatblygiad arfaethedig yn yr ardal.

584.7.13 Mae cludiant cyhoeddus yn eithaf cyfyngedig eisoes a byddai gallu'r rhwydwaith i ddarparu unrhyw beth mwy na gwneud y daith symlaf dan y trefniadau presennol yn cyfyngu ar ddefnydd cludiant cyhoeddus i drigolion y safleoedd ymgeisiol arfaethedig, a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol gwneud rhagor o deithiau mewn ceir a chynyddu'r ôl troed carbon. Mae hyn yn gwrthdaro gyda sawl agwedd yng Nghynllun Corfforaethol Cyngor Sir Ddinbych 2017 – 2022 o ran cysylltiadau cludiant da a lleihau allyriadau carbon.

584.7.14 Byddai Cyngor Cymuned Llanfair DC yn argymhell yn gryf bod Cyngor Sir Ddinbych yn ystyried modd o'i gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr ddarparu cyllid i gefnogi

anghenion seilwaith lleol a strategol, yn cynnwys seilwaith gwyrdd. Byddai hyn yn darparu tryloywder i gymunedau ac i ddatblygwyr.

584.7.15 Mae'r datblygiad cyfredol yn Llanfair DC wedi gweld cynllun gosod dwysedd uchel yn cael ei gymeradwyo, a byddai'r Cyngor Cymuned yn awgrymu defnyddio cymhareb is o ran dwysedd tai yn unrhyw ddatblygiadau'n y dyfodol. Mae'r naws am wagle sy'n cael ei greu yn cael ei ddylanwadu'n gryf gan ddwysder y datblygiad.

584.8 Sylwadau ynghylch Safleoedd Ymgeisiol penodol

584.8.1 Cyfeirnod y safle: CS-20E-098 Tir ger Neuadd y Pentref, Llanfair Dyffryn Clwyd (2.85 hectar)

1. Byddai'r safle ymgeisiol arfaethedig yn cynnwys datblygu ardal o dir amaethyddol ansawdd uchel yn y graddau sy'n cael eu hystyried y tir gorau a mwyaf amlbwrpas. Gofynna Cyngor Cymuned Llanfair DC i Gyngor Sir Ddinbych ddiogelu tir o'r fath rhag datblygu arno.

2. Byddai datblygu'r safle, a allai gynnwys mwy nag 80 eiddo, yn andwyol i amwynder gweledol yr ardal, yn enwedig i'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Byddai eiddo ar hyd Ffordd Graigfechan, sy'n mwynhau golygfeydd i'r gogledd, yn dioddef effaith andwyol ar eu hamwynder gweledol.

3. Er mwyn ystyried datblygiad pellach ar y fath raddfa yng nghyfnod y Cynllun Datblygu Lleol nesaf byddai'n rhaid asesu darpariaeth gwasanaethau. Mae'r datblygiad 63 o dai yn digwydd ar hyn o bryd i'r gorllewin o'r A525 a byddai datblygu ar y safle hwn yn cynrychioli effaith sylweddol ar bentref Llanfair DC. Byddai'r Cyngor Cymuned yn pryderu am ddatblygu o'r fath faint yn dilyn y datblygiad cyfredol 63 o dai.

4. Mae'r safle nesaf at y gwaith trin carthion lleol a gall datblygiadau sydd wrth ymyl cyfleusterau o'r fath arwain at gwynion am niwsans oherwydd pryfed ac arogluon yn ogystal â sŵn yr offer.

5. Mae'r Cyngor Cymuned wedi gweithio'n agos gyda Phwyllgor Rheoli Neuadd Eleanor a chynhwyswyd anghenion y neuadd gymuned yn y Cynllun Cymdogaeth. Mae'r gofynion i gael arian i uwchraddio a chynnal y neuadd yn sylweddol a bydd yn gosod baich ar y gymuned yn y dyfodol.

6. Mae'r gymuned yn mwynhau'r amwynder o ddefnyddio cae ar Ffordd Graigfechan sy'n cael ei roi ar gael i'r gymuned trwy haelioni'r ffermwr / perchennog tir. Nid oes unrhyw warant y bydd y trefniant hwn yn parhau yn y dyfodol. Defnyddir y safle ar gyfer hamdden, gemau pel-droed yn ystod tymor cynghrair pel-droed yr haf yn lleol, ac ar gyfer diwrnod chwaraeon hanesyddol a phoblogaidd iawn y pentref. Mae pwyllgor rheoli Neuadd Eleanor wedi bod yn ystyried caffael y tir y tu ôl i'r neuadd a'r eglwys i alluogi sicrhau'r amwynder ar gyfer y dyfodol tymor hir. Gellid darparu cyfleusterau newid yn Neuadd Eleanor. Mae dynodiad arfaethedig y safle ymgeisiol yn cymryd unrhyw dir a fyddai wedi'i ddefnyddio ar gyfer y diben hwn, a phetai'n cael ei gadw fel safle ymgeisiol byddai gwerth y tir yn cael ei gynyddu fel na fyddai'n fforddiadwy i'w ddefnyddio fel amwynder hamdden.

7. Er gwaetha'r pryderon a'r cyfyngiadau sylweddol, mae'n debygol mai'r safle ymgeisiol hwn yw'r lleiaf dadleuol o ran y safleoedd ym mhentref Llanfair DC, petai'n cael ei fireinio a'i gyflwyno ar raddfa lai. Efallai y byddai'n bosibl ystyried datrysiad lle bo graddfa gyffredinol y safle'n cael ei leihau'n arwyddocaol (gan ganolbwyntio ar yr ardal agosaf at yr A525) a bod y rhan hon o'r safle'n cael ei ddynodi ar gyfer tai a rhan arall ar gyfer defnydd hamdden / chwaraeon awyr agored, yn cynnwys cynnal anghenion y diwrnod chwaraeon a'r tîm pel-droed. Gellid defnyddio'r datblygiad tai i ddarparu cyllid tuag at y cyfleuster hamdden. Byddai'r Cyngor Cymuned yn gofyn i'r Cyngor Sir newid dyraniad defnydd rhan o'r safle ymgeisiol ar gyfer tai a defnydd hamdden, a lleihau ôl troed cyffredinol y datblygiad i ardal sydd nesaf at ac yn hygyrch o'r A525 yn unig.

584.8.2 Cyfeirnod y safle CS-20E-152 Tir Tŷ'n Twll, Llanfair Dyffryn Clwyd (0.37 hectar)

1. Byddai'r safle ymgeisiol arfaethedig yn cynnwys datblygu ardal o dir amaethyddol ansawdd uchel, gradd sy'n cael ei ystyried y tir amaethyddol 'gorau a mwyaf amlbwrpas'. Gofynna Cyngor Cymuned Llanfair DC i Gyngor Sir Ddinbych ddiogelu tir o'r fath rhag datblygu arno.

2. Petai datblygu'n bwrw ymlaen a chais yn cael ei gyflwyno i ddatblygu'r safle, byddai'n debygol y gallai'r Awdurdod Cynllunio Lleol ganfod y byddai'r tai arfaethedig yn ymddangos yn ymwithiol ac anghydweiddol yn y Tirlun Hanesyddol, ac felly'n cael effaith annerbyniol ar gymeriad, ymddangosiad ac amwynder gweledol y safle a'i amgylchedd uniongyrchol. Yn yr achos yma byddai'r cynnig yn gwrthdaro gyda Pholisi RD1, maen prawf i) Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig Sir Ddinbych a'r canllawiau a gynhwysir yn y Nodyn Canllawiau Cynllunio Atodol – Datblygiad Preswyl.

3. Mae'n anodd gweld sut y gellid datblygu'r safle ymgeisiol a gynigir heb gael effaith gweledol mawr ar y ddau eiddo sy'n bodoli eisoes, Y Wenallt a Phen yr Ardd. Mae eiddo arall cyfagos y byddai datblygu'r safle'n effeithio ar eu hamwynder gweledol yn cynnwys Tŷ'n Twll, Gwynle, The Nook, Endicot, Clyd Fan, Hafan, Hafod y Bryn, Bryn a Meadowbank. Mae'r ddau eiddo diwethaf yn rhan o Ardal Gadwraeth Llanfair DC.

4. Byddai'n ofynnol cael mynediad i'r safle o'r A525 Ffordd Wrecsam. Byddai angen adleoli'r parth terfyn cyflymder 30 milltir yr awr presennol tuag at Wrecsam i sicrhau y gallai traffig yn mynd i mewn ac allan o'r safle wneud hynny'n ddiogel. Mae'r A525 wedi bod yn peri pryder i Adran Priffyrdd Cyngor Sir Ddinbych, Heddlu Gogledd Cymru a'r Cyngor Cymuned a byddai datblygu'r safle ymgeisiol hwn yn gwaethygu'r sefyllfa.

5. Er mwyn darparu mynediad i'r safle hir a chul hwn, byddai cyfran uwch o'r arwynebedd na'r arfer yn cael ei gymryd gan ffordd. Mae gan eiddo cyfagos ar hyd yr A525 linellau adeiladu wedi'u nodi yn eu gweithredoedd eiddo, a phetai hyn yn cael ei gymhwyso i'r safle hwn yna ni chaniateid datblygu hyd at draean yr arwynebedd.

6. Er nad yw'n wynebu perygl llifogydd, mae pen uchaf y safle, sy'n dir amaethyddol agored, yn debygol o ddioddef llifogydd dŵr arwyneb ar adegau glawiad uchel. Petai'r safle'n cael ei ddatblygu, yna byddai draenio'r tir yn ofynnol, a byddai angen cyfeirio hyn at gwrs dŵr lleol addas. Effaith hyn fyddai gwaethygu'r ymateb i ddigwyddiadau llifogydd yn Nyffryn Clwyd a chynyddu'r dŵr ffo a'r dŵr arwyneb i'r gogledd. Mae Dyffryn Clwyd yn

sensitif i unrhyw newid o ran ymateb i ddigwyddiad glawiad a byddai datblygu'r safle ymgeisiol yn ychwanegu at y broblem.

7. Byddai'r safle ymgeisiol ar lefel uwch na'r rhwydwaith draenio dŵr budr presennol yn Llanfair DC. Cafodd y gwaith trin carthion lleol ei ddiweddarau'n ddiweddar gan Dŵr Cymru er mwyn ymdopi gyda'r llwyth ychwanegol o safle'r 63 o dai newydd sy'n cael eu hadeiladu'n y pentref ar hyn o bryd. Gellid gwasanaethu datblygu'r safle ymgeisiol hwn trwy un ai ymestyn y rhwydwaith sy'n bodoli eisoes, a allai olygu pwmpio, neu ddefnyddio trefniant tanc septig. Byddai'r ddau ddewis yn golygu cost arwyddocaol i'r datblygw'r.

8. O ystyried yr uchod, ystyrir bod y safle ymgeisiol yn anaddas ar gyfer datblygu i fodloni anghenion y Cynllun Datblygu Lleol yn ystod y cyfnod hwn, ac argymhellir y dylid ei dynnu ymaith o'r gofrestr safleoedd ymgeisiol.

584.8.3 Cyfeirnod y safle CS-20E-169 Llanfair Dyffryn Clwyd, cyn gae chwarae (0.48 hectar)

1. Mae Cyngor Cymuned Llanfair DC wedi mynegi diddordeb yn y penderfyniadau'n ymwneud â defnydd y cyn ysgol a'i chae chwarae. Fe'i darparwyd ar gyfer y gymuned yn wreiddiol, ac mae yng nghanol Ardal Gadwraeth y pentref ac yn rhan annatod o'i chymeriad. Mae ei argaeledd i'w ddefnyddio ar gyfer hamdden cae agored neu hamdden tawel yn darparu cymeriad sy'n cael effaith mawr ar naws am le'r pentref. Golyga'r safle uchel bod y golygfeydd o'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ymhlith y gorau o'r pentref. Cynhaliwyd cyfarfodydd rhwng y Cyngor Cymuned a'r Cyngor Sir ynghylch defnydd y cyn ysgol a'r cae chwarae yn y dyfodol, ac awgrymwyd nifer o opsiynau potensial, pe na bai gan y Cyngor Sir ddefnydd ar gyfer hen adeilad yr ysgol yn y dyfodol. Mae Cynllun Cymdogaeth Cyngor Cymuned Llanfair DC yn cynnwys rhandiroedd, y gellid eu lleoli ar gae chwarae'r cyn ysgol.

2. Petai datblygu'n digwydd a chais yn cael ei gyflwyno i ddatblygu'r safle byddai'n debygol y byddai'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn penderfynu y byddai'r tai arfaethedig yn ymddangos yn ymwithiol ac anghydweddol yn yr Ardal Tirwedd Hanesyddol a'r Ardal Gadwraeth, ac felly'n cael effaith annerbyniol ar gymeriad, edrychiad ac amwynder gweledol y safle a'i amgylchedd uniongyrchol. Yn yr achos yma byddai'r cynnig yn gwrthdaro gyda Pholisi RD1, maen prawf i) Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig Sir Ddinbych a'r canllawiau a gynhwysir yn y Nodyn Canllawiau Cynllunio Atodol – Datblygiad Preswyl.

3. Gallai'r mynediad i'r safle fod yn uniongyrchol o'r A525 neu oddi ar y llwybr ceffylau a fyddai'n rhaid ei ddatblygu at y diben hwnnw, gan ddifrodi neu waredu nodweddion hanesyddol yn barhaol yn y broses. Yn y naill achos byddai hyn yn achosi perygl traffig yn yr hyn sydd eisoes yn gyffordd gymhleth. Byddai angen rhoi ystyriaeth i'r dyluniad ar gyfer mynediad diogel i'r safle.

4. Byddai angen i unrhyw ddatblygiad arfaethedig ar y safle ddilyn Nodiadau Canllawiau Cynllunio Atodol Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2015. Byddai angen i unrhyw ddatblygiad barchu a chadw a chyfoethogi cymeriad a nodweddion pensaernïol a hanesyddol arbennig Ardal Gadwraeth

Llanfair DC. Mae ansawdd lle yn allweddol ac mae datblygiadau eraill yn yr ardal wedi cynnwys nodweddion i sicrhau bod hyn yn parhau. Mae'r safle'n cynnwys coed a gwrychoedd wedi'u sefydlu a waliau calchfaen hynafol sy'n darparu cynefinoedd i lawer o rywogaethau fel tylluanod, ystlumod a madfallod a byddai angen i unrhyw ddatblygiad sicrhau bod yr effaith ecolegol yn gadarnhaol. Mae gan y coed cyfagos, yn cynnwys derwen hynafol, ganopïau arwyddocaol a byddai'n ofynnol diogelu eu gwreiddiau rhag unrhyw ddifrod petai datblygu i'w ystyried.

5. Un defnydd yn y dyfodol a awgrymwyd ac a drafodwyd gan y Cyngor Cymuned yw defnyddio safle'r cyn ysgol fel tai cysgodol neu ar gyfer man cyfarfod i drigolion mewn fformat preswyl diwygiedig i wasanaethu'r tai a'r elusendai drws nesaf (Teras Elizabeth Owen) ar grŵn y pentref. Mae'r Cynllun Cymdogaeth a ddatblygwyd gan y Cyngor Cymuned yn rhagweld yr angen am wagle gardd tawel lle gall pobl gyfarfod a mwynhau'r pentref a'i amgylchedd. Byddai cyn gae chwarae'r ysgol, sy'n rhan o'r Ardal Gadwraeth, yn leoliad delfrydol ar gyfer amwynder o'r fath, gyda rhai o'r golygfeydd gorau yn y pentref ar draws y Dyffryn.

6. Byddai datblygu'r safle hwn yn meddu ar y potensial i gael effaith andwyol arwyddocaol ar amwynder gweledol eiddo sy'n bodoli eisoes o gwmpas y safle. Mae'r rhain yn cynnwys Bryn, Hafan, Hafod y Bryn a Chysgod y Bryn, Llanfair House, Silver Birches, Llwyn a Theras Elizabeth Owen. Mae'r coed mawr aeddfed yn ac ar ffiniau'r safle, yn cynnwys derwen hynafol, leimwydden a chastanwydden yn ychwanegu at gymeriad a photensial amgylcheddol yr adnodd gwagle gwyrdd gwerthfawr hwn.

7. Byddai'r Cyngor Cymuned yn dymuno cadw'r opsiwn o ddefnyddio cae chwarae'r cyn ysgol fel ardal bwysig a chanolog ar gyfer amwynder dinesig yn y pentref.

8. Dymuna'r Cyngor Cymuned wneud cais i'r safle gael ei dynnu o'r gofrestr safleoedd ymgeisiol tai yn y Cynllun Datblygu Lleol i alluogi ystyried ei ddefnyddio at fudd ehangach i'r ardal.

584.8.4 Cyfeirnod safle CS-20E-200 Tir y tu ôl i Clover Bank, Llanfair Dyffryn Clwyd (0.6 hectar)

1. Byddai'r safle ymgeisiol arfaethedig yn cynnwys datblygu ardal o dir amaethyddol ansawdd uchel, gradd sy'n cael ei ystyried y tir amaethyddol 'gorau a mwyaf amlbwrpas'. Gofynna Cyngor Cymuned Llanfair DC i Gyngor Sir Ddinbych ddiogelu tir o'r fath rhag datblygu arno.

2. Petai datblygu'n digwydd a chais yn cael ei gyflwyno i ddatblygu'r safle byddai'n debygol y byddai'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn penderfynu y byddai'r tai arfaethedig yn ymddangos yn ymwithiol ac anghydweddol yn yr Ardal Tirwedd Hanesyddol, y tu allan i 'amlen' naturiol y pentref, ac felly'n cael effaith annerbyniol ar gymeriad, edrychiad ac amwynder gweledol y safle a'i amgylchedd uniongyrchol. Yn yr achos yma byddai'r cynnig yn gwrthdaro gyda Pholisi RD1, maen prawf i) Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig Sir Ddinbych a'r canllawiau a gynhwysir yn y Nodyn Canllawiau Cynllunio Atodol – Datblygiad Preswyl.

3. Byddai datblygu'r safle yn andwyol i amwynder gweledol yr eiddo sy'n cael eu hadnabod fel The Bridles a Thyddyn Garreg. Wedi'i leoli ar frig crib byddai'r datblygiad yn andwyol i amwynder gweledol o'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol hefyd.
4. Nid oes unrhyw fynediad amlwg i'r safle, ac mae'n debygol y byddai angen prynu eiddo a'i ddymchwel er mwyn darparu mynediad.
5. Mae'n debygol y byddai'r mynediad i'r safle trwy Fron y Clwyd, sy'n anaddas ar gyfer cludo traffig ychwanegol ac mae nesaf at yr ysgol gynradd newydd. Byddai angen rhoi sylw gofalus i drefniadau'r safle o ran mynd i mewn ac allan fel nad yw problemau traffig sy'n bodoli eisoes yn cael eu gwaethygu.
6. Byddai'r safle'n cael ei ddraenio trwy ddisgyrchiant ar gyfer dŵr arwyneb i gyfeiriad gorllewinol, ond unwaith eto byddai angen cynnwys darpariaeth cadw'r llif er mwyn sicrhau dim effeithiau andwyol o ran llifogydd yn deillio o'r datblygiad.
7. Wedi ystyried yr uchod mae Cyngor Cymuned Llanfair DC o'r farn bod y safle ymgeisiol yn anaddas i'w ddatblygu i fodloni anghenion y Cynllun Datblygu Lleol yn ystod y cyfnod hwn, ac argymhellir ei dynnu o'r gofrestr safleoedd ymgeisiol.

584.8.5 Cyfeirnod y safle CS-20E-026 Graigfechan, tir nesaf at Paradwys (0.68 hectar)

1. Byddai'r safle ymgeisiol arfaethedig yn cynnwys datblygu ardal o dir amaethyddol ansawdd uchel, yn y graddau a ystyrir y tir gorau a mwyaf amlbwrpas. Gofynna Cyngor Cymuned Llanfair DC i Gyngor Sir Ddinbych ddiogelu tir o'r fath rhag datblygu arno.

2. Rhoddwyd caniatâd amlinellol i bron i hanner y safle eisoes (Cyfeirnod 20/2016/1242) a gwnaeth Cyngor Cymuned Llanfair DC roi mewnbyn i nodi pryderon ynghylch draenio yn ogystal â'r effaith potensial ar ffynhonnell dŵr ffrwd ar y safle. Nododd y Cyngor Cymuned, ymhellach, gan fod y cynnig i ddatblygu naw o dai ar y safle, nad oedd unrhyw ddarpariaeth tai fforddiadwy wedi'i gynnwys yn y cais. Os cytunir ar y safle ymgeisiol yna byddai hyn yn galluogi darparu hyd at 20 o dai, mewn dwy ran yn dybiedig. Dymuna'r Cyngor Cymuned weld tai fforddiadwy'n cael eu cynnwys yn unrhyw gynigion cynllunio manwl ar gyfer y safle yn gyson gyda chanllawiau cynllunio Cyngor Sir Ddinbych.

584.8.6 Cyfeirnod y safle CS-20E-059 Graigfechan, tir i'r de o Fryn Creigiog (0.17 hectar)

1. Mae'r safle ymgeisiol yn cynnwys tŷ unllawr sy'n adfail. Mae'r safle yn yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ac mae Cyngor Cymuned Llanfair DC yn nodi nad oes hawl i ailadeiladu mewn cefn gwlad agored.

2. Mae'r safle'n cael ei gynnwys fel safle ymgeisiol ar sail ei ddefnyddio ar gyfer un annedd, a allai fod yn briodol, ond sy'n gyfyngiedig iawn yn strategol yng nghyd-destun y Cynllun Datblygu Lleol.

3. Nid oes gan y safle unrhyw anawsterau o ran amwynder gweledol a byddai'r datblygiad yn adfer ei ddefnydd blaenorol. Byddai unrhyw gynnig i adeiladu mwy nag un eiddo'n achosi problemau yn enwedig o ran yr effaith gweledol yn ogystal â darpariaeth mynediad ac ardal wasanaethu.

4. Nid yw Cyngor Cymuned Llanfair DC yn gweld unrhyw broblem gyda chynnwys y safle hwn yn y gofrestr safleoedd ymgeisiol a byddai'n disgwyl iddo fynd trwy'r gweithdrefnau cais cynllunio arferol unwaith y bo bwriad i'w gyflwyno, ac yn ddarostyngedig i'r pwyntiau a nodwyd.

584.9 Unrhyw sylwadau eraill Mae Cyngor Cymuned Llanfair DC yn cydnabod yr angen a'r dull a ddefnyddiwyd i gynnal yr ymgynghoriad hwn. Fel bo pwerau'n cael eu datganoli ymhellach, byddai'r Cyngor Cymuned yn croesawu'r cyfle i adolygu'r broses Cynllun Datblygu Lleol a sicrhau cydgysylltu agos gyda'r Cyngor Sir i sicrhau bod dull cyfannol a llyfrgrwn yn cael ei fabwysiadu sy'n cynnwys strategaeth o'r bôn i'r brig yn ogystal ag ô'rbrig i lawr. Byddai perthynas agosach o fudd wrth sicrhau canlyniadau da ac wrth ystyried yr opsiynau eraill a datblygu polisïau a strategaethau sy'n cefnogi ei gilydd.

585 DYDDIADAU CYFARFODYDD Y DYFODOL

2019 09 Medi [Ysgol Llanfair], 14 Hydref [Ysgol Pentrecelyn], 11 Tachwedd [Canolfan Genus], 09 Rhagfyr [Ysgol Llanfair]

2020 13 Ionawr [Ysgol Pentrecelyn], 09 Mawrth [Canolfan Genus]

Gorffennodd y cyfarfod am 9.30pm.

_____ CADEIRYDD _____ DYDDIAD

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR DYFFRYN CLWYD COMMUNITY COUNCIL **www.llanfaircommunitycouncil.co.uk**

Cofnodion Cyfarfod Cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd yn Ysgol Llanfair, nos Lun, 9 Medi 2019 am 7.00pm.

PRESENNOL – Y Cynghorwyr Jayne Mayers [Cadeirydd], David Baker, Bob Barton, Wini Davies [Rhan 1], Tim Faire, Keith Mouldsdaie, Osian Owen, Ceri Ranson ac Eirwen Godden, Clerc.

HEFYD YN BRESENNOL - 3 aelod o'r cyhoedd

YMDDIHEURIADAU Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau

RHAN 1

586 DATGAN BUDDIANNAU Y Cynghorwyr David Baker [Eglwys Llanfair] a Keith Mouldsdaie [Ymddiriedolwr, Neuadd Eleanor]

587 COFNODION PENDERFYNWYD Cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf a 19 Awst 2019 a'u llofnodi fel cofnodion cywir.

588 ADRODDIAD Y CLERC

588.1 Diweddariad ynghylch sedd wag ar y Cyngor [565.1, 574.1] Adroddwyd y mynegwyd diddordeb gan Mr Owen Evans. **PENDERFYNWYD** cyfethol Mr Owen Evans fel Cynghorydd Cymuned yn lle Moira Edwards.

588.2 Ymddiswyddiad Adroddwyd bod Paul Weston wedi ymddiswyddo fel Cynghorydd Cymuned. **PENDERFYNWYD** [a] dechrau ar y broses o lenwi'r sedd wag gynted ag y bo modd a [b] ethol Keith Mouldsdaie yn Is-gadeirydd.

589 MATERION CYMUNEDOL

589.1 Safle'r hen ysgol / Ysgol Llanfair newydd Mae Swyddog Moderneiddio Addysg Cyngor Sir Ddinbych wedi cadarnhau bod y rhwyddfrait wedi'i gytuno gan yr holl bartïon yn awr a bydd y gwaith ar y cysylltiad draen dŵr budr yn dechrau ar 23/09/19. Mae'n aros am gadarnhad ynghylch y rhaglen waith, hyd y gwaith ac amcangyfrif o ddyddiad cwblhau'r prosiect. Unwaith y cyhoeddir y rhaglen waith bydd y dyddiad symud i mewn i'r ysgol yn cael ei gadarnhau. Holodd y Cynghorwyr ynghylch defnydd tymor hir posibl safle'r hen ysgol, hynny yw, y posibilrwydd o'i gaffael fel cae chwarae ar gyfer y gymuned.

589.2 Datblygiad tai / Nwy prif gyflenwad Adroddwyd bod y Cynghorwyr Keith Mouldsdaie a'r Clerc wedi cael cyfarfod cadarnhaol gyda Rheolwr Dylunio Pure a staff eraill ar y safle ar 05/09/19. Yn nechrau Awst dywedodd Pure eu bod wedi cael ymateb cadarnhaol gan Wales and West Utilities a bod sicrhau'r bibell nwy prif gyflenwad yn mynd i'r cyfeiriad cywir. Mae Pure yn aros i Wales & West Utilities sicrhau'r cytundeb cyfreithiol gyda'r perchennog tir cyn bod gosod y bibell nwy yn cael ei gadarnhau'n derfynol. Mae'r perchennog tir yn derbyn, mewn egwyddor, y cynnig i groesi'r afon sydd mynd trwy eu tir. Yn unol â hynny mae Pure yn bwriadu datblygu'r safle i gynnwys darpariaeth nwy prif gyflenwad. Bydd adeiladu tai rhan 1 o 2 yn dechrau ymhen ychydig wythnosau. Awgrymwyd trefnu ymweliad safle arall ymhen deufis. Yn y cyfamser gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda Pure am sicrwydd y bydd y briffordd yn cael ei chadw'n glir o fwd a rwbel gan y contractwyr.

589.3 Cynllun Cymdogaeth Adroddwyd bod y cynllun wedi'i ddiweddarau yn dilyn cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 19/08/19. Gofynnwyd i'r aelodau gymeradwyo'r cynllun a gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau ac amserlenni ar gyfer y cynigion. Cytunwyd. Nodwyd fod gan Gapel Bethel, Pentrecelyn, restr o gynlluniau/prosiectau ar gyfer adnewyddu ac uwchraddio y dylid eu hychwanegu at y cynllun.

590 GOHEBIAETH / ADRODDIADAU

590.1 Arolwg ynghylch defnyddio mecanweithiau digidol gan y sector i ymgysylltu, trafod a rhannu gwybodaeth gyda chymunedau Cytunwyd bod y Clerc yn llenwi'r holiadur ar ran y Cyngor Cymuned. Cydnabuwyd y gallai fod yn ofynnol comisiynu dylunydd gwefannau proffesiynol i asesu a gwneud gwelliannau i wefan y Cyngor er mwyn cydymffurfio gyda gofynion y Rheoliadau Hygyrchedd Gwefannau 2018 newydd. Bydd angen i'r Cyngor Cymuned gydymffurfio gyda'r Rheoliadau erbyn 23/09/20.

590.2 Cronfa Fuddsoddi Cymunedol Fferm Wynt Brenig Daeth cwmni Brenig Wind Limited yn weithredol ar 30/03/19 a bydd y gronfa flynyddol yn dechrau ar oddeutu £152,468 y flwyddyn am hyd at 25 mlynedd. Bydd y gronfa'n cael ei dosbarthu i gymunedau a chyrff lleol ar gyfer dibenion amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd ac addysgol a bydd canllawiau a ffurflenni cais am grantiau ar gael ar 16/09/19 ar www.cadwynclwyd.co.uk. Comisinwyd Cadwyn Clwyd i gynnal ymgynghori cymunedol i

sefydlu a gweinyddu'r Gronfa Budd Cymunedol. Bwriedir darparu buddion i'r cymunedau sy'n cynnwys ac yn byw gyda ac o gwmpas y fferm wynt. Bydd Cadwyn Clwyd yn ffurfio Panel Grantiau a fydd yn gyfrifol am asesu ceisiadau grant. Adroddodd y Cynghorydd Barton bod pobl eraill wedi gofyn iddo gynnig ei enw.

Cytunodd yr aelodau y byddent yn hapus i gefnogi cais Mr Steve Whipp i fod yn aelod o'r Panel Grantiau.

590.3 Cynhadledd a Chyfarfod Blynyddol Un Llais Cymru 05/10/19 ym Mhontrhydfendigaid – Thema – Rôl Cynghorau Tref a Chymuned yn y dyfodol

Cymeradwywyd bod y Cynghorydd Bob Barton yn mynd i'r digwyddiad, cyn belled ag y bo'r gost yn cael ei rhannu gyda Chynghorau eraill; Clerc Cyngor Cymuned Llanbedr i drefnu lle iddo yn y gynhadledd.

591 Adborth/Adroddiadau o Gynadleddau/Hyfforddiant/Cyfarfodydd

591.1 Hyfforddiant Un Llais Cymru – Sgiliau Cadeirio – 16/07/19 Roedd y Cynghorydd Jayne Mayers wedi bod yn yr hyfforddiant. Dywedodd bod yr hyfforddiant yn fuddiol a'i bod wedi gwerthfawrogi cyfarfod Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion eraill a thrafod sut mae Cynghorau eraill yn gweithredu. Cafwyd trafodaethau da ynghylch gwahanol sefyllfaoedd anodd y gellid dod ar eu traws. Roedd yr hyfforddwr yn wybodus a gwnaeth gydbwysu'r amser rhwng y cyflwyniad a thrafodaeth weithgar.

591.2 Cyfarfod Cangen Clwyd SLCC 12/09/19 Cymeradwywyd bod y Clerc yn mynd i'r cyfarfod.

591.3 Hyfforddiant ar-lein Un Llais Cymru Nododd y Cynghorydd Barton bod y modiwlau ar-lein yn darparu cyflwyniad yn unig, ac y dylai Cynghorwyr fynd i'r sesiynau gyda thiwtor hefyd.

592 CYNLLUNIO www.denbighshire.gov.uk/planning

592.1 Ymateb i'r Adran Gynllunio ynghylch y Strategaeth Ddrafft a Ffefrir – Cynllun Datblygu Lleol 2018-2033 PENDERFYNWYD cadarnhau'r ymateb drafft fel y'i cynhwyswyd yng nghofnodion y Cyngor dyddiedig 19/08/19 a'i gyflwyno i'r Cyngor Sir.

592.2 Cais 20/2019/0608 – Cyflwynwyd diwygiad gan Adran Addysg a Gwasanaethau Plant Cyngor Sir Ddinbych ynghylch manylion goleuadau diwygiedig ar y llwybr diogel a gymeradwywyd [manyion diwygiedig wedi'u cymeradwyo'n flaenorol gan gais cyfeirnod 20/2019/0403/AC] a gyflwynwyd yn unol ag amod rhif 17 caniatâd cynllunio cyfeirnod 20/2017/0819 – Tir yr eglwys gyferbyn â Bron y Clwyd, Llanfair D C. Cadarnhaodd yr aelodau'r gweithredu i anfon yr ymateb a ganlyn h.y. nid oedd unrhyw wrthwynebiad i ddiwygio manylion y goleuadau ar y llwybr diogel a gymeradwywyd. Mae unrhyw welliannau i'w croesawu a rhagdybir bod trigolion sy'n byw'n gyfagos wedi'u hysbysu.

592.3 Cais 20/2019/0510 – Diwygiad a gyflwynwyd gan Mr Alun Lewis a Miss Rachel Davies – Torri tair coeden yn yr Ardal Gadwraeth i lawr – Silver Birches, Llanfair DC. Cadarnhaodd yr aelodau'r gweithredu i anfon yr ymateb a ganlyn h.y. nid oedd y Cyngor Cymuned wedi derbyn unrhyw wrthwynebiad i'r cais i dorri tair coeden i lawr yn yr eiddo.

592.4 Ceisiadau cynllunio eraill Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau cynllunio eraill. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda'r Cyngor Sir am wybodaeth a sut i gael gafael ar symiau cymudol Adran 106.

592.5 Ymateb yr Adran Gynllunio i sylwadau'r Cyngor Cymuned ynghylch cais 20/2019/0487 a gyflwynwyd gan Goleg Cambria – Adeiladu Adeilad Cymunedol ar gyfer Coleg Cambria – Llysfasi, Rhuthun. Holwyd sut y byddai'r cynnig o fudd i gymuned y coleg a'r gymuned ehangach. Roedd yr Adran Gynllunio wedi gofyn i'r asiant ymateb i gwestiynau'r Cyngor Cymuned. Mae dogfennau a anfonwyd gan yr asiant yn datgan y bydd y prosiect yn darparu canolbwynt dysgu cymunedol a fydd yn darparu asedau ar gyfer eu defnyddio gan y gymuned ehangach. Bydd yn cynnwys ystafelloedd dosbarth, gweithdai, ystafelloedd Technoleg Gwybodaeth, ystafelloedd cyfarfod, swyddfeydd, man llesiant myfyrwyr a gwagle cymdeithasol. Mae dogfen arall yn tynnu sylw at ymdrechion y Coleg i ymgysylltu gyda'r gymuned sy'n cyfoethogi dysgu'r myfyrwyr ac yn gwneud cyfraniad arwyddocaol i gymunedau gogledd ddwyrain Cymru. Yn ôl yr Adran Gynllunio mae'r cais yn dderbyniol yn nhermau cynllunio.

Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda Choleg Llysfasi i drefnu cyfarfod i drafod y cynnig arfaethedig ac, os yn bosibl, defnyddio'r Coleg fel lleoliad ar gyfer cyfarfod y Cyngor Cymuned.

592.6 Ymgynghori ynghylch y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol 07/08/19 – 01/11/19 Cytunodd Mr Steve Whipp gynhyrchu nodyn briffio ar gyfer cyfarfod y Cyngor Cymuned i'w gynnal ar 14/10/19.

593 PRIFFYRDD A'R AMGYLCHEDD Ystyriodd yr aelodau y materion a ganlyn:

593.1 Cynigion ar gyfer y Grŵn gyferbyn â Bron y Clwyd, Llanfair D C [557.1, 568.3, 579.2] Gwahoddwyd Emily Reddy, Cydlynnydd Datblygu Cymunedol, a Heather Battison-Howard, Swyddog Tirwedd, Cyngor Sir Ddinbych, i'r cyfarfod i drafod cynnig i blannu coed/gwrychoedd ar y grŵn, gan ystyried lleoliadau y draeniau sy'n bodoli a seilwaith arall. Awgrymwyd y dylai'r glaswellt barhau ac ystyried plannu rhes o goed cynhenid, rhywogaethau cymysg fel draenen ddu, draenen wen, bedwen arian a/neu rosyn ci. Gellid gwneud yr ardal ar hyd y boncyn uchaf yn fwy naturiol gyda bylbiau a/neu dyweirch blodau gwyllt. Nid oedd planwyr yn cael eu hystyried yn addas o gofio'r angen i'w rheoli yn y dyfodol. Byddai'n rhaid chwilio am gyllid cyfatebol tuag at gost y cynllun [mae gan y Cyngor Cymuned gyllideb gweithgareddau cymunedol bychan]; mae gan Cadw Cymru'n Daclus wahanol ddyluniadau plannu coed a pheccynnau coed/gwrychoedd y gellir eu cael gan Coed Cadw.

Dywedwyd nad yw parcio a gyrru dros y glaswellt yn digwydd yn aml yn gyffredinol, ond bod angen cyfryngu rhwng dau o drigolion yr ardal. Nid yw'r Cyngor Sir mewn sefyllfa i ddyrannu manau parcio.

Cymeradwywyd y cynnig plannu mewn egwyddor a chytunodd Emily Reddy i gysylltu gyda'r ysgol ynghylch plant yn plannu coed fel gweithgaredd gwirfoddol; canfod faint fyddai'r cynllun yn ei gostio a lle y gellid chwilio am gyllid cyfatebol. Hefyd cytunwyd y dylai'r gilfan newydd y tu allan i'r ysgol newydd fod ar gael ar gyfer parcio dros nos, ac ymgynghori gyda'r Adran Priffyrdd a'r Adran Addysg ynghylch y mater hwn.

593.2 Llwybr troed Llanfair DC – Rhuthun [579.1] Trafodwyd gwelliannau i'r llwybr troed ar sawl achlysur yn y gorffennol – ystyrir bod y llwybr yn rhy gul ac mewn cyflwr gwael. Cadarnhaodd y Clerc bod y mater wedi'i gyfeirio at Arweinydd y Cyngor Sir gyda gwahoddiad i gerdded ar hyd y llwybr o Lanfair i Rhuthun. Dim ymateb hyd yma.

593.3 Gwagleoedd Agored / Gwasanaethau Cefn Gwlad [535.5, 545.2, 557.3, 568.4, 579.5] Bydd Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Cymru yn gweithio gyda staff yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol i wneud gwaith clirio ym Mhant Ruth yn ystod hydref/gaeaf 2019. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn gweithio gyda'r grŵp cadwraeth lleol [Llanfair-Fyw] trwy eu tudalen Gweplyfr: <https://www.facebook.com/groups/2013627798742210/> a'r Grŵp Gwyllt hefyd [teuluoedd ifanc]. Bydd cyfleoedd gwirfoddoli a digwyddiadau/gweithgareddau i'r gymuned gymryd rhan ynddynt yng ngwarchodfa natur Graig Wyllt yng Nghraigfechan yn cael eu hyrwyddo ar y dudalen Gweplyfr hefyd. Nid yw safle Pant Ruth yn ddigon mawr i gael criw ysgol yno eto, nes bo'r safle wedi'i glirio. Gofynnwyd i'r Clerc i roi'r ddolen ar wefan y Cyngor Cymuned.

593.4 Gwelliannau ailwynebu'r ffordd [513.3, 523.3, 535.3, 545.5, 557.4, 568.5, 579.6] – y ffordd o Bentre Coch i'r Silff - Adroddwyd bod y Clerc wedi ysgrifennu at Mr Tim Towers eto ar y mater hwn. Dim ymateb hyd yma.

593.5 Trwsio camfeydd [513.2, 568.7, 579.7] Roedd y Cynghorydd Osian Owen wedi hysbysu nad oedd camfa ar berimedr y datblygiad tai newydd wedi'i thrwsio i safon dda. Roedd y Clerc wedi cyfeirio'r mater at Reolwr Dylunio Pure, sydd wedi cymryd camau i unioni'r sefyllfa.

593.6 Torri glaswellt / ymyl y lôn ar lonydd cul [579.8] Roedd y Clerc wedi ysgrifennu at yr adran Priffyrdd am y mater, gan wahodd y Pennaeth Priffyrdd a'r Arweinydd i ymweld â'r lonydd cul yn lleol. Dim ymateb hyd yma ond roedd y gwrychoedd ac ymyl y ffyrdd wedi'u torri. Pwysleisiodd y Cynghorydd Tim Faire fod ei bryderon yn deillio o sicrhau diogelwch/gwelededd wrth deithio ar hyd lonydd cefn cul a bod angen torri'r glaswellt yn amlach.

593.7 Gwyo Llwybr Cyhoeddus Rhif 19, Castell, Llanfair DC PENDERFYNWYD anfon ymateb at y Swyddog Cefn Gwlad yn nodi nad oes unrhyw wrthwynebiadau i'r cynnig.

593.8 Gwyo Llwybr Cyhoeddus Rhif 2, Gorsaf Eyarth, Llanfair DC PENDERFYNWYD anfon ymateb at yr Adran Gwasanaethau Cyfreithiol yn nodi nad oes unrhyw wrthwynebiadau i'r cynnig.

593.9 Byngalos yng Nghraigfechan Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gydag Emily Reddy [Adran Tai Cyngor Sir Ddinbych] ynghylch cyflwr gwael y llwybrau troed o gwmpas y byngalos ac yn arwain at y brif ffordd, yn cynnwys y tyllau yn y maes parcio.

593.10 Goryrru ar yr A525 PENDERFYNWYD gwahodd Ben Wilcox-Jones a chynrychiolydd yr Heddlu i ddod i gyfarfod y Cyngor Cymuned yn y dyfodol a chyflwyno canlyniadau unrhyw arolygon cyfredol.

RHAN 2 594 PENDERFYNWYD gwahardd y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod oherwydd natur gyfrinachol yr eitemau a ganlyn:

594 MATERION ARIANNOL

581.5 594.1 Talu Cyfrifon/Anfonebau PENDERFYNWYD gwneud taliadau fel a ganlyn:

£358.14 Sandra Williams [Gwasanaeth Cyfieithu]

£326.64 Sandra Williams [Gwasanaeth Cyfieithu]

£48.00 SLCC [Ffi Cynhadledd y Clerc 20/06/19]

£20.00 Un Llais Cymru [Ffi Hyfforddiant y Cadeirydd 16/07/19]

£11.70 Cynghorydd J Mayers [Costau teithio 16/07/19]

£1990.00 D P Williams Building Services [gwaith trwsio wal y fynwent]

£2568.98 Taliadau i Gynghorwyr Panel Cydnabyddiaeth Ariannol Annibynnol ar gyfer Cymru

594.2 Ceisiadau am Gymorth Ariannol PENDERFYNWYD [a] dyfarnu grantiau fel a ganlyn:

£200.00 Marie Curie [Gwasanaethau canser]

£150.00 Eglwys Llanfair [torri glaswellt]

594.3 Gwelliannau/gwaith trwsio'r Gofeb Rhyfel Cyflwynwyd – cynnig i drwsio/addasu'r slabiau pafin a dyluniad ar gyfer bolardiau a chadwyn rhyngddynt. Atgoffwyd yr aelodau y gwnaed darpariaeth yn y gyllideb dros y dair blynedd ddiwethaf i sicrhau bod cyllid ar gael i gyllido'r prosiect. Byddai angen i'r Cyngor Cymuned gyflwyno cais cynllunio ac ymgynghori gyda'r Ymddiriedolaeth Cofebau Rhyfel. **PENDERFYNWYD** [a] derbyn y cynnig mewn egwyddor a [b] rhoi pwerau dirprwyedig i'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a'r Clerc fwrw ymlaen gyda'r cynllun gyda Mr John Pugh, Syrfeiw'r Siartredig, fel asiant y Cyngor.

594.4 Dileu/Ychwanegu llofnodwr banc PENDERFYNWYD [a] dileu enwau Moira Edwards a Paul Weston o'r rhestr yn dilyn eu hymddiswyddiadau fel Cynghorwyr a [b] ychwanegu enw Ceri Ranson at y rhestr llofnodwyr.

594.5 Diweddariad ar y broses Archwilio Allanol Adroddodd y Clerc ei bod hi'n disgwyl am gadarnhad nad oedd unrhyw faterion a ddaeth i sylw'r archwilydd allanol a oedd yn ei gwneud yn ofynnol cyflwyno adroddiad materion yn codi, ar wahân.

595 DYDDIADAU CYFARFODYDD Y DYFODOL

PENDERFYNWYD cynnwys dau ddyddiad ychwanegol yn y rhestr – 25/11/19 [cyfarfod i drafod cyllideb praesept 2020/2021] a 10/02/20.

2019 09/09/19 [Ysgol Llanfair], 14/10/19 [Ysgol Pentrecelyn], 11/11/19 [Canolfan Genus], 25/11/19 [lleoliad i'w gadarnhau], 09/12/19 [Ysgol Llanfair]

2020 13/01/20 [Ysgol Pentrecelyn], 10/02/20 [lleoliad i'w gadarnhau], 09/03/20 [Canolfan Genus]

Gorffennodd y cyfarfod am 8.55pm.

_____ CADEIRYDD _____ DYDDIAD

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR DYFFRYN CLWYD COMMUNITY COUNCIL
www.llanfaircommunitycouncil.co.uk

Cofnodion Cyfarfod Cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd yn Ysgol Pentrecelyn nos Lun, 14 Hydref 2019 am 7.00pm.

PRESENNOL – Y Cynghorwyr Jayne Mayers [Cadeirydd], David Baker, Bob Barton, Wini Davies [rhan o'r cyfarfod], Owen Evans, Osian Owen, Ceri Ranson [rhan o'r cyfarfod] ac Eirwen Godden, Clerc.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Owen Evans i'w gyfarfod Cyngor cyntaf. Llofnododd y ffurflen Datgan Derbyn y Swydd.

HEFYD YN BRESENNOL - 2 aelod o'r cyhoedd, Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych, y Cynghorydd Hugh H Evans Evans OBE a Mr Ben Wilcox-Jones, Uwch Beiriannydd Cyngor Sir Ddinbych.

YMDDIHEURIADAU Y Cynghorwyr Tim Faire a Keith Mouldsdale [Is-gadeirydd] [gwyliau]

RHAN 1

596 DATGAN BUDDIANNAU Y Cyngorydd David Baker [Eglwys Llanfair]

597 COFNODION - PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Medi 2019 a'u llofnodi fel cofnodion cywir.

598 ADRODDIAD Y CLERC

598.1 Diweddariad ynghylch y sedd wag ar y Cyngor [565.1, 574.1, 588.1] Adroddwyd nad oedd y Cyngor Sir wedi derbyn cais am etholiad yn dilyn ymddiswyddiad Paul Weston ac felly bod y Cyngor Cymuned yn rhydd i gyfethol i lenwi'r sedd wag. Cadarnhaodd y Clerc bod hysbysiadau wedi'u rhoi ar hysbysfyrdau a gwefan y Cyngor, gyda dyddiad cau 25/10/19 ar gyfer mynegi diddordeb yn y sedd wag.

598.2 Coleg Cambria Llysfasi Dywedodd y Clerc nad oedd hi wedi cysylltu gyda Choleg Llysfasi hyd yma, oherwydd cyfnod gwyliau, i gael cyfarfod i drafod y cynnig ac, os yn bosibl, cyfarfod o'r Cyngor Cymuned yn defnyddio'r Coleg fel lleoliad ar 25/11/19.

598.3 Gwagleoedd agored / Gwasanaethau Cefn Gwlad [535.5, 545.2, 557.3, 568.4, 579.5, 593.3] Cyflwynwyd copi o gofnodion cyfarfod grŵp cadwraeth Llanfair Fyw a gynhaliwyd ar 26/09/19. Mae Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru'n gweithio gyda staff yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol i wneud gwaith clirio ym Mhant Ruth yn ystod hydref/gaeaf 2019. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn gweithio gyda'r grŵp cadwraeth lleol [Llanfair Fyw] a'u tudalen Gweplyfr:

<https://www.facebook.com/groups/2013627798742210/> a'r Grŵp Gwyllt hefyd [teuluoedd ifanc]. Bydd cyfleoedd gwirfoddoli a digwyddiadau/gweithgareddau i'r gymuned gymryd rhan ynddyn nhw yn y warchodfa natur Graig Wylt yng Nghraigfechan, a byddant yn cael eu hyrwyddo ar dudalen Gweplyfr. Mae'r wybodaeth hon wedi'i rhannu gyda'r Cronicl yn lleol hefyd. Nodwyd.

598.4 Cronfa Fuddsoddi Cymunedol Fferm Wynt Brenig [590.2] Cyflwynwyd diweddariad gan Gadwyn Clwyd yn datgan bod y gronfa fuddion yn agored ar gyfer

ceisiadau'n awr, a'r dyddiad cau yw 11/11/19. Mae Cadwyn Clwyd wedi sefydlu dwy sesiwn galw heibio i'r gymuned ddod i drafod eu syniadau a cheisiadau grant posibl yng Nghanolfan Ymwelwyr Llyn Brenig, Cerrigydrudion LL21 9TT ar 25/09/19 a 16/10/19 3 – 5.45 pm. Mae Fran Rhodes, Swyddog Datblygu Cymunedol Cyngor Sir Ddinbych, hefyd yn fodlon darparu cymorth i ddatblygu prosiect neu syniad cymunedol - fran.rhodes@denbighshire.gov.uk 01824 712968. Nodwyd.

598.5 Fferm Wynt Coedwig Clocaenog Cyflwynwyd diweddariad ar y gwaith adeiladu, sy'n mynd rhagddo'n dda. Unwaith y bydd yn gweithredu'n llwyr, mae'r cyllid cymunedol cysylltiedig gwerth cyfanswm o £19miliwn dros eu hoes gweithredol yn dod ar gael i ymgeiswyr. Mae gan y cyllid hyblyg hwn y potensial i fod o fudd sylweddol i gymunedau, y rhai lleol iawn i'r prosiect ac yn fwy eang ar draws Gogledd Cymru. Ar hyn o bryd mae proses yn digwydd i sefydlu sefydliad i weinyddu'r gronfa, gyda chyhoeddiad i'w wneud yn ddiweddarach yn yr Hydref. Nodwyd.

598.6 Byngalos yng Nghraigfechan [593.8] Mae'r Clerc yn aros am ymateb gan Emily Reddy [Tai Sir Ddinbych] ynghylch cyflwr gwael y llwybrau troed o gwmpas y byngalos ac yn arwain at y briffordd, yn cynnwys y tyllau yn eu maes parcio.

599 MATERION CYMUNEDOL

599.1 Safle'r hen ysgol / Ysgol newydd Llanfair DC Ymddengys na fydd yr ysgol newydd yn agor tan ddechrau 2020 oherwydd materion cyfreithiol yn ymwneud â'r draeniau.

599.2 Datblygiad Tai / Pibell nwy prif gyflenwad Mae gwaith ar y safle'n bwrw ymlaen yn dda. Mae'r datblygwr wedi cadarnhau y bydd yn sicrhau bod y contractwyr yn cadw'r mwd ar y briffordd i'r isafswm.

599.3 Cynllun Cymdogaeth Mae angen penderfyniad ynghylch blaenoriaeth ac amserlen ar gyfer y cynigion. Cytunodd Mr Steve Whipp i gymryd cyfrifoldeb i ailgynnull yr is-grŵp, Bwriedir ychwanegu eitemau newydd.

600 GOHEBIAETH / ADRODDIADAU

600.1 Urdd Cyfeillion Ysbyty Rhuthun Mae'r Urdd Cyfeillion wedi estyn gwahoddiad i'r Cyngor Cymuned anfon un neu ddau gynrychiolydd i'w gyfarfodydd pwyllgor, sy'n cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn. Mae'r Urdd Cyfeillion yn chwarae rôl hanfodol yn cynorthwyo'r ysbyty i gyflawni ei nod o ddarparu gwasanaethau o'r ansawdd uchaf i'r holl gleifion yn yr ysbyty a'r allgleifion.

Dywedodd y Cynghorydd Bob Barton y byddai'n mynd i'r cyfarfod nesaf ar 13/11/19.

600.2 Cofeb i ddioddefwyr y ddamwain awyr yn ystod yr Ail Ryfel Byd Llythyr dyddiedig 07/10/19 gan Mr E H Edwards [ac yn cynrychioli Mr John Harrop] yn cynnwys cynnig i ddarparu sedd gardd ddwbl wedi'i harysgrifio gyda'r geiriau "Er cof am 13 milwr a fu farw ar 17 Gorffennaf 1942 pan fu eu hawyren Awyrlu mewn damwain wrth Tŷ'n y Bryn, Llanfair DC."

PENDERFYNWYD derbyn cynnig hael Mr E H Edwards.

600.3 Bwletin Newyddion Un Llais Cymru 2019 Bwletin briffio wedi'i ddsbarthu i'r Cynghorwyr er sylw/gwybodaeth. Nodwyd.

600.4 Mr Darren Millar AC Llythyr dyddiedig 23/09/19 yn mynegi dymuniad i gyfarfod gyda'r Cyngor Cymuned eto eleni fel rhan o'i ymrwymiad i weithio'n agos gyda'r aelodau er budd trigolion lleol.

PENDERFYNWYD anfon rhestr yr holl ddyddiadau cyfarfodydd Cyngor Cymuned i'r holl bleidiau gwleidyddol gyda gwahoddiad agored i ddod i unrhyw un o'r cyfarfodydd.

600.5 Corff Llywodraethol Ysgol Pentrecelyn Neges e-bost dyddiedig 07/10/19 gan Gadeirydd y Llywodraethwyr yn gwahodd y Cyngor Cymuned i enwebu'r Cynghorydd Osian Owen i lenwi'r sedd wag yn dilyn ymddiswyddiad Medwen Roberts.

PENDERFYNWYD cyflwyno enw'r Cynghorydd Osian Owen fel enwebai i'w ystyried fel aelod o gorff llywodraethol yr ysgol.

600.6 Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru – ymgynghoriad ar ddatblygu Strategaeth Amgylcheddol Tymor Hir Neges e-bost dyddiedig 04/10/19 yn gwahodd y Cyngor Cymuned i gyflwyno syniadau am wasanaethau y gallai'r Awdurdod eu darparu yn ystod yr 20 – 30 mlynedd nesaf. Dyddiad cau ar gyfer ymatebion – 31/12/19.

PENDERFYNWYD anfon copi o Gynllun Cymdogaeth y Cyngor Cymuned i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

600.7 Siarter Cydymffurfiaeth Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych Neges e-bost dyddiedig 10/10/19 gan Mr Adam Turner, Rheolwr Cydymffurfio Cynllunio. Mae Cyngor Sir Ddinbych yn bwriadu cyflwyno siarter cydymffurfiaeth cynllunio, a fydd yn nodi sut y gall y Cyngor weithio ochr yn ochr gyda sefydliadau lleol fel cynghorau dinas, tref a chymuned i fynd i'r afael â datblygiadau diawdurdod. Dyddiad cau ar gyfer sylwadau – 31/10/19. Mynegwyd pryder ynghylch y cyfnod byr i ddarparu ymatebion.

PENDERFYNWYD tynnu sylw at yr amser annigonol ar gyfer ymateb yn y cyfarfod i Gadeiryddion a Clercod gyda Chyngor Sir Ddinbych ar 15/10/19. [Ers y cyfarfod cafodd y dyddiad cau ei ymestyn i Ragfyr 2019].

601 Adborth / Adroddiad[au] ynghylch Cynadleddau / Hyfforddiant / Cyfarfodydd Cymorth Cynllunio Cymru / Un Llais Cymru

601.1 Cyfarfod Cangen SLCC 12/09/19 Mae hwn yn darparu cyfle i Glercod gyfarfod a rhwydweithio, rhannu syniadau ac arbenigedd ar lu o bynciau fel cofrestrau asedau, rheoliadau pensiwn, rheoliadau ariannol enghreifftiol/canllaw ymarferwyr newydd, cynadleddau a digwyddiadau hyfforddiant i ddod yn cynnwys ymholiadau cyffredinol a gyflwynwyd gan Glercod. Gobeithir y bydd y pwyslais yng nghyfarfod Rhagfyr ar weithio i gydymffurfio gyda Deddf Democratiaeth Cymru o ran hygyrchedd gwefannau.

601.2 Cynhadledd a Chyfarfod Blynyddol Un Llais Cymru 05/10/19 Roedd y Cynghorydd Bob Barton wedi mynd i'r Gynhadledd a'r Cyfarfod Blynyddol yn ogystal â chyfarfod Pwyllgor Ardal yn ddiweddar, a oedd yn canolbwyntio ar rôl cynghorau tref a chymuned yn y dyfodol; hyfforddiant gorfodol a chymwysterau clercod yn benodol. Pwysleisiodd y Cynghorydd Barton bod angen i Lywodraeth Cymru ddarparu cymorth ariannol digonol i dalu'r costau.

601.3 Cyfarfod Cadeiryddion/Clercod gyda swyddogion Cyngor Sir Ddinbych 15/10/19 Nodwyd y byddai'r Cadeirydd a'r Clerc yn bresennol yn y cyfarfod hwn.

602 CYNLLUNIO www.sirddinbych.gov.uk/cynllunio

602.1 Cais 20/2019/0745 – cyflwynwyd gan Mr Stephen Emberton – adeiladu porth ceir/garej yn Nhŷ'n y Berllan, Pentrecelyn. Nid oedd unrhyw wrthwynebiad.

602.2 Cais 20/2019/0777 – cyflwynwyd gan Lloyd ac Edwards – dymchwel estyniad presennol, ystafell haul a balconïau cysylltiedig, ac adeiladu estyniadau newydd yn Berthen Gron, Pentrecelyn. Nid oedd unrhyw wrthwynebiad

602.3 Cais 20/2019/0844 - cyflwynwyd gan Goleg Cambria – adeiladu tanc taenellu, pwmpdy a gwaith cysylltiedig yn Llysfasi. Nid oedd unrhyw wrthwynebiad

602.4 Ymgynghoriad ynghylch Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru

Cyflwynwyd – papur briffio ac ymateb drafft y Cyngor Cymuned. Mae'r Fframwaith Cynllunio Cenedlaethol yn gynllun datblygu 20 mlynedd sy'n cwmpasu Cymru gyfan. Fe'i cynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru ac, unwaith y bo wedi'i fabwysiadu, bydd yn berthnasol i'r cyfnod 2020 – 2040. Lanswyd yr ymgynghoriad ar 08/08/19 a gwahoddir ymatebion erbyn y dyddiad cau, sef 01/11/19. Diolchwyd i Mr Steve Whipp am lunio ymateb drafft i'r aelodau ei ystyried.

PENDERFYNWYD cyflwyno ymateb fel y'i drafftiwyd.

603 PRIFFYRDD A'R AMGYLCHEDD Ystyriodd yr aelodau y materion a ganlyn:

603.1 Data / Materion goryrru [593.10] Siaradwr gwadd - Mr Ben Wilcox-Jones, Uwch Beiriannydd, Cyngor Sir Ddinbych. Gwahoddwyd Mr Wilcox-Jones i'r cyfarfod gan fod trigolion wedi bod yn gofyn am ddiweddariad ynghylch yr hyn sy'n cael ei wneud a'r camau gweithredu y gellir eu cyflwyno i leihau'r goryrru i mewn ac allan o Lanfair DC ar yr A525, yn cynnwys y rhan o'r briffordd i mewn ac allan o Fwlch Nant y Garth. Mae cyflwyno cyfyngiadau cyflymder ar ffyrdd eraill wedi golygu bod motobeicwyr, er enghraifft, yn osgoi'r ffyrdd hynny ac yn defnyddio'r A525 fel ffordd amgen. Cydnabu bod hyn yn fater o bwys i'r ardal; cyflwynwyd mesurau yn Llanfair megis arwydd a ysgogir gan gerbyddau, terfyn cyflymder 20 milltir yr awr cynghorol ac mae cynlluniau i adleoli'r terfyn 30 milltir yr awr ymhellach i'r gogledd yn agosach at safle'r datblygiad tai newydd. Mae peth data ar gael sy'n awgrymu bod goryrru trwy bentref Llanfair yn cynyddu, yn amrywio o 37-39mya mewn terfyn 30mya. Y drefn arferol yw adolygu hyn dros gyfnod 12 mis ac eto ymhen tair blynedd. Mae Llywodraeth Cymru yn edrych ar gyflwyno terfyn cyflymder 20mya gorfodol ymhob ardal drefol yng Nghymru, ond mae'r goblygiadau cost yn uchel iawn. Mae mesurau i leihau goryrru'n dibynnu ar fodloni meini prawf deddfwriaethol penodol, gwelededd traffig, nifer y gwrthdrawiadau a ffactorau eraill. Gallai cynnig i leihau'r terfyn cyflymder i 40mya trwy Lysfasi a Nant y Garth gael eu gyflwyno mewn 3-4 mis os na cheir unrhyw wrthwynebiad. Mynegodd yr Arweinydd ddymuniad am berthynas mwy cydlynus gyda'r Heddlu.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr Wilcox-Jones am ddod i'r cyfarfod.

603.2 Diweddariad ynghylch y cynigion ar gyfer y Grŵn gyferbyn â Bron y Clwyd, Llanfair DC [557.1,568.3, 579.2, 593.1] Dywedodd y Clerc ei bod wedi derbyn ymateb gan Heather Battison-Howard, Swyddog Datblygu Gwagle Gwyrdd Cyngor Sir Ddinbych, am y cynnydd a'r camau nesaf ar gyfer plannu coed, bylbiau a/neu dywarchod blodau gwyllt. Mae hi wedi llwyddo i gael tua 150 o blanhigion gwrych llydanddail rhywogaethau cynhenid ar gyfer y prosiect, am ddim. Nid yw'r nifer yn ddigon a bydd rhaid prynu rhai gan feithrinfa

leol; awgrymir y dylid plannu'r gwrych yn fuan mewn rhyw ddwy sesiwn, a gadael y coed a'r ddôl blodau gwyllt tan Chwefror 2020. Mae Pennaeth Ysgol Llanfair yn cefnogi'r cynllun yn llwyr ac yn hapus i'r disgyblion ysgol gymryd rhan yn y plannu.

PENDERFYNWYD bwrw ymlaen gyda'r cynllun fel yr argymhellwyd gan y Swyddog Gwagle Gwyrdd a rhoi pwerau dirprwyedig i'r Cadeirydd a'r Clerc o ran gwneud cyfraniad tuag at gost prynu planhigion/coed.

603.3 Cynllun drafft ar gyfer cynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth yn ardal y Cyngor Cymuned. Mae'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus (yn cynnwys Cyngorau Tref a Chymuned) dan Adran 6 Deddf Amgylchedd Cymru 2016 baratoi a chyhoeddi cynllun yn nodi'r hyn mae'n fwriadu ei wneud i gydymffurfio gyda'r dyletswydd i gynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth yn eu meysydd gwaith cyfredol. Mae Llywodraeth Cymru wedi hysbysu Un Llais Cymru y bydd canllawiau'n cael eu cyhoeddi'n fuan.

PENDERFYNWYD Nodi'r adroddiad ac ystyried cynhyrchu atodiad i'r Cynllun Cymdogaeth yn cyfeirio at fioamrywiaeth.

603.4 Parcio yn y gilfan ger Llysfasi Roedd trigolion lleol wedi holi a oedd gan gerbyd Voel Coaches yr hawl i barcio yn y gilfan trwy'r dydd. Roedd cwyn hefyd am y bws ysgol yn goryrru ar hyd y ffordd o Graigfechan i Bentrecelyn. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda Chyngor Sir Ddinbych am y ddau fater.

RHAN 2 604 PENDERFYNWYD gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod oherwydd natur gyfrinachol yr eitemau a ganlyn:

605 MATERION ARIANNOL

605.1 Crynodeb incwm a gwariant am y cyfnod 1 Ebrill – 30 Medi 2019 a gyflwynwyd i'w gymeradwyo. **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r datganiad.

605.2 Talu Cyfrifon / Anfonebau PENDERFYNWYD gwneud taliadau fel a ganlyn:

£138.89 Treuliau'r Clerc, Gorffennaf – Medi 2019

£25.00 Cyngor Cymuned Llanbedr – cyfran 25% o ffi Cynhadledd Un Llais Cymru 05/10/19 [Cynghorydd B Barton]

605.3 Ceisiadau am gymorth ariannol PENDERFYNWYD gwneud taliadau fel a ganlyn:

£100.00 Hosbis Tŷ'r Eos

£200.00 Y Lleng Brydeinig – Apêl Pabi Coch Rhuthun

Atgoffwyd yr aelodau bod Sul y Cofio ar 10 Tachwedd 2019.

605.4 Gwelliannau / Gwaith trwsio'r Gofeb Rhyfel Cyflwynwyd – darnau o'r cais cynllunio a gyflwynwyd i'r Adran Gynllunio gan asiant y Cyngor Sir, Mr John Pugh, Syrfeiw'r Siartredig. Nid oedd ffi cynllunio'n daladwy.

605.5 Diweddariad ynghylch y broses Archwiliad Allanol Adroddodd y Clerc y cafwyd cadarnhad yn datgan nad oedd unrhyw faterion wedi dod i sylw'r archwilydd allanol a oedd yn ei gwneud yn ofynnol cyflwyno adroddiad ychwanegol ar wahân. Diolchwyd i'r Cadeirydd am roi copïau ar hysbysfyrdau a gwefan a Cyngor yn ystod absenoldeb y Clerc ar wyliau. **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r adroddiad archwilio a'i dderbyn gan y Cyngor.

606 DYDDIADAU CYFARFODYDD Y DYFODOL

Gwnaed awgrym i ystyried cael rhan gyntaf cyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd am 10 munud.

2019 11/11/19 [Canolfan Genus], 25/11/19 [cyfarfod trafod y gyllideb braesept – Coleg Llysfasi], 09/12/19 [Ysgol Llanfair]

2020 13/01/20 [Ysgol Pentrecelyn], 10/02/20 [Ysgol Llanfair], 09/03/20 [Canolfan Genus]

Gorffennodd y cyfarfod am 8.45pm

_____ CADEIRYDD _____ DYDDIAD

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR DYFFRYN CLWYD COMMUNITY COUNCIL
www.llanfaircommunitycouncil.co.uk

Cofnodion Cyfarfod Cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Genus, Llanrhydd, nos Lun, 11 Tachwedd 2019 am 7.00pm.

PRESENNOL – Y Cynghorwyr Jayne Mayers [Cadeirydd], David Baker, Bob Barton, Wini Davies, Tim Faire, Keith Mouldsdale, Osian Owen, Ceri Ranson ac Eirwen Godden, Clerc.

Gwnaeth y Cynghorydd Keith Mouldsdale lofnodi'r Datganiad Derbyn Swydd yn dilyn ei benodi'n Is-gadeirydd.

HEFYD YN BRESENNOL - 6 aelod o'r cyhoedd.

YMDDIHEURIADAU Y Cynghorydd Owen Evans [ymrwmiadau teulu]

RHAN 1

607 DATGAN BUDDIANNAU Y Cynghorydd David Baker [Eglwys Llanfair a Chais Cynllunio 20/2019/0884], y Cynghorydd Keith Mouldsdale [Ymddiredolwr Neuadd Bentref Llanfair DC].

608 COFNODION - PENDERFYNWYD Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Hydref 2019 a'u llofnodi fel cofnodion cywir.

609 ADRODDIAD Y CLERC

609.1 Diweddariad ynghylch sedd wag ar y Cyngor [565.1, 574.1, 588.1] Adroddwyd y derbyniwyd un llythyr yn mynegi diddordeb gan Mr Steve Whipp.

PENDERFYNWYD [a] derbyn cais Mr Steve Whipp a'i benodi fel Cynghorydd Cymuned. Cafodd y ffurflenni datgan derbyn y swydd a datgan buddiannau eu llenwi a'u llofnodi a [b] ychwanegu'r tri enw a ganlyn at restr y llofnodwyr banc – y Cynghorwyr Ceri Ranson, Osian Owen a Steve Whipp [c] a thynnu enwau Mrs Moira Edwards a Mr Paul Weston oddi ar y rhestr llofnodwyr banc yn dilyn eu hymddiswyddiadau fel Cynghorwyr yn gynharach yn y flwyddyn.

609.2 Gwefan hygyrch [577.1] Adroddwyd bod y Clerc yn y broses o gael dyfynbrisiau ar gyfer tudalennau Cymraeg a Saesneg y wefan gyfredol i'w hasesu o ran eu hygyrchedd; llunio rhestr o'r gweithredu sy'n ofynnol er mwyn cydymffurfio â'r gofynion hygyrchedd a chynhyrchu datganiad hygyrchedd [gan ddefnyddio'r datganiad enghreifftiol gan y Llywodraeth]. Esboniodd y Clerc bod angen cael syniad o'r prisiau er mwyn sicrhau

cynnwys ffigur priodol yng nghyllideb 2020/2021. Cymeradwyodd yr aelodau'r gweithredu gan y Clerc.

609.3 Coleg Cambria Llysfasi [606] Gwnaed trefniadau i gynnal cyfarfod pennu praesept y Cyngor yng Ngholeg Llysfasi ar 25/11/19. Roedd Pennaeth y Coleg, Mr Iain Clarke, a chydweithiwr wedi cytuno i fod yn bresennol yn rhan gyntaf y cyfarfod. Dywedodd yr aelodau y byddent yn hoffi i Mr Clarke annerch yr aelodau ynghylch y cynlluniau ar gyfer yr adeilad cymunedol newydd a sut mae'r coleg yn bwriadu ymgysylltu gyda'r gymuned leol. Hefyd awgrymwyd anfon copi o Gynllun Cymdogaeth y Cyngor i'r Coleg yn y cyfamser.

609.4 Cynllun Cymdogaeth [599.3] Roedd y grŵp [Mr Steve Whipp [yn gweithredu fel y Cadeirydd], y Cynghorwyr Keith Mouldsdaie [Is-gadeirydd y Cyngor], Bob Barton, Wini Davies, y Clerc, Eirwen Godden, ynghyd â Mr Phil Bennett-Lloyd a Mr Phil Webb wedi cyfarfod yn gynharach ar 11/11/19 gydag Arweinydd a Fran Rhodes o'r Cyngor Sir, wnaeth roi cyngor ynghylch cyfleoedd grantiau ar gyfer cynigion lleol. Rhan o rôl Fran Rhodes yw cynorthwyo mudiadau gyda phrosiectau sydd angen cyllid a thynnodd sylw at y cronfeydd a ganlyn a allai fod o ddiddordeb ac yn werth ymchwilio iddynt (os nad oeddynt yn hysbys eisoes):

Ymddiriedolaeth Eglwysi Cenedlaethol: <https://www.nationalchurchestrust.org/our-grants>
Grant Cyfleusterau Cymunedol Llywodraeth Cymru: <https://gov.wales/community-facilities-programme>

Grant Adeiladau Hanesyddol Cadw: <https://cadw.gov.wales/advice-support/historic-assets/listed-buildings/historic-buildings-grant>

Cronfa Dreftadaeth y Loteri y Loteri Genedlaethol: <https://www.heritagefund.org.uk/funding>
Cyllid Symiau Cymudol Gwagle Agored: <https://www.denbighshire.gov.uk/commuted-sums>

Cyfeiriadur Cyllid Treftadaeth: <https://www.heritagefundingdirectoryuk.org/>

Chwilotwr Cyllid Grant Cyllido Cymru: <https://funding.cymru/>

Cronfa Fferm Wynt Brenig: <https://cadwynclwyd.co.uk/other-projects/brenig-wind-farm/>

Cronfa Fferm Wynt Clocaenog: www.innogy.com/clocaenogforest

Disgwylir cael cyhoeddiad ynghylch gweinyddydd Cronfa Fferm Wynt Clocaenog yn fuan. Mae hefyd yn bosibl cofrestru i dderbyn newyddion yn uniongyrchol am Fferm Wynt Clocaenog ar eu gwefan. Mae Fran yn fwy na bodlon ymdrin ag ymholiadau ynghylch cyllido a chael sgysiau dilynol i gynorthwyo i symud pethau ymlaen yn y gymuned leol o ran prosiectau a syniadau arfaethedig – fran.rhodes@sirddinbych.gov.uk neu strategicplanningteam@denbighshire.gov.uk 01824 708018 neu 01824 712968.

609.5 Bioamrywiaeth [603.3] Hefyd nodwyd ei bod yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus (yn cynnwys Cyngorau Tref a Chymuned) dan Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 baratoi a chyhoeddi cynllun yn nodi'r hyn mae'n fwriadu ei wneud i gydymffurfio gyda'r dyletswydd i gynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth yn eu meysydd gwaith cyfredol.

Awgrymwyd yng nghyfarfod y Cyngor Cymuned a gynhaliwyd ar 14/10/19 y dylid cynhyrchu atodiad o'r cynllun cymdogaeth sy'n cyfeirio at fioamrywiaeth. Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn neges e-bost gan Un Llais Cymru yn gynharach yn y diwrnod gyda rhagor o ganllawiau ynghylch hyn. Cytunodd i anfon hwn at y Cynghorydd Steve Whipp.

PENDERFYNWYD peidio â gweithredu ar y cam hwn i'r grŵp Cynllun Cymdogaeth ddod yn bwyllgor ffurfiol y Cyngor Cymuned.

609.6 Gwahoddiad agored i bleidiau gwleidyddol [600.4] Nid yw'n ymddangos bod dyddiadau cyfarfodydd y Cyngor yn gyfleus ar gyfer gwleidyddion ac maent yn brysur iawn pan fo Llywodraeth Cymru ar gyfnod gwyliau – mae ceisiadau am apwyntiadau'n cael eu llenwi'n gyflym. Nodwyd.

610 MATERION CYMUNEDOL

610.1 Pentref Llanfair DC - Llifogydd – Hysbysodd y Cynghorydd Keith Mouldsdale ynghylch llifogydd ar y llwybr troed ger yr ysgol newydd ac o flaen gorsaf Eyarth, a chyfeiriodd at lythyr a dderbyniwyd gan y perchennog. Mynegwyd pryderon bod y tanc gwanhau yng nghyffiniau'r ysgol newydd a Clover Bank yn gorlifo, gan arwain at gwestiynau a oedd yn meddu ar gapasiti digon mawr i ymdopi gyda glawiad trwm. Cytunodd yr aelodau'n unfrydol bod angen adolygiad strategol a datrysiadau cyfannol, gan ystyried yr holl fannau llifogydd, y datblygiad tai newydd a'r ffordd ar gau ar hyn o bryd yng nghanol y pentref.

PENDERFYNWYD gofyn i'r Clerc anfon llythyr at y Pennaeth Priffyrdd i dynnu sylw at y materion a drafodwyd a gofyn am gyfarfod safle ar frys.

610.2 Elusendai Elizabeth Owen yn Llanfair DC Mae trigolion yn y pentref yn holi am ddiweddariad ynghylch gwaith trwsio/uwchraddio. **PENDERFYNWYD** bod y Clerc yn cysylltu gyda [a] Grŵp Cynefin i gael diweddariad a [b] adain tai gwag Tai Sir Ddinbych i ymchwilio i'r sefyllfa.

611 GOHEBIAETH / ADRODDIADAU

611.1 Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Adroddiad Drafft 2020-2021 – ymgynghori'n dod i ben ar 10/12/19. Anfonwyd copi o'r adroddiad at y Cyngorwyr trwy e-bost; tudalennau 41-49 yn cyfeirio at Gynghorau Tref a Chymuned. Mae Penderfyniad 47 yng nghyswllt Cynghorau Tref a Chymuned wedi'i ddiweddarau sy'n golygu y gallant dalu iawndal colled ariannol i bob un o'r aelodau, lle bo colled o'r fath wedi digwydd, am fod yn bresennol ar ddyletswyddau cymeradwy, fel a ganlyn:- hyd at £55.00 am bob cyfnod heb oresgyn 4 awr a hyd at £110.00 am bob cyfnod dros 4 awr ond heb fod yn hwy na 24 awr. Mae'r taliad gorfodol o £150 i bob Cyngorydd yn parhau'r un fath fel y mae taliadau o hyd at £1,500 a £500 i'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn ôl eu trefn. Mae'n rhaid i'r taliadau i'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd gael eu cymeradwyo gan y Cyngor. **PENDERFYNWYD** bod angen penderfyniad ynghylch pob adran, yn cynnwys eglurhad ynghylch taliadau pro rata ac adfer taliadau os yw cynghorwyr yn ymddiswyddo; cynnwys eitem ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod pennu'r praesept ar 25/11/19.

611.2 Symiau Cymudol [neges e-bost dyddiedig 30/10/19 gan Dîm Cynllunio Strategol Cyngor Sir Ddinbych]. Swm y cyllid sydd ar gael i Lanfair DC yw £2,480.62. Gall Cynghorau Tref/Cymuned, grwpiau/mudiadau cymunedol neu wirfoddol, partneriaeth cyhoeddus/preifat neu adran awdurdod lleol wneud cais am y cyllid rhwng 01/11/19 a 31/01/20. Manylion cyswllt: 01824 708018/712968 neu strategicplanningteam@denbighshire.gov.uk Adroddwyd bod Pwyllgor Rheoli Neuadd Bentref Llanfair yn bwriadu gwneud cais am gyllid symiau cymudol.

611.3 Diweddariad ar y cynigion ar gyfer y grŵn gyferbyn â Bron y Clwyd, Llanfair DC [557.1, 568.3, 579.2, 593.1, 603.2] Neges e-bost dyddiedig 08/11/19 gan Heather Battison-Howard, Swyddog Datblygu Gwagleoedd Gwyrdd Cyngor Sir Ddinbych, yn dweud y trefnwyd cynnal y sesiwn blannu gyntaf yn ystod yr wythnos yn dechrau 25/11/19. Mae hi wedi cysylltu gyda'r ysgol ac maent ar gael unrhyw brynhawn yr wythnos honno. Unwaith y

penderfynir ar ddyddiad bydd yn trefnu cael datganiad i'r wasg a gellir hysbysebu'r digwyddiad ar Trydar a Gweplyfr ac yn y blaen.

Hefyd adroddwyd bod un o'r trigolion, yn y cyfamser, wedi anfon neges e-bost at y Clerc ar 08/11/19, a rhannwyd copi gyda'r Cynghorwyr. Roedd y neges yn ymddangos yn aneglur; roedd yn ymddangos bod yr awdur dan yr argraff bod cynlluniau i gael gwared ar y grŵn. Nid yw hyn yn wir.

PENDERFYNWYD [a] hysbysu'r unigolyn y bydd y prosiect yn bwrw yn ei flaen fel y cynlluniwyd gan wneud yn union yr hyn a drafodwyd ac y cytunwyd mewn cyfarfod safle, gyda'r unigolyn yn bresennol yn y cyfarfod hwnnw, yn gynharach yn y flwyddyn ac wedi'i gadarnhau yn llwyr mewn cyfarfod dilynol y cyngor cymuned. Hynny yw, plannu gwrych rhywogaeth cynhenid, coed ffrwythau lleol a dôl blodau gwyllt ar y grŵn ym Mron y Clwyd. [b] byddai cynrychiolwyr y Cyngor Cymuned yn fodlon bod yn bresennol yn y sesiwn blannu gyntaf ar ddyddiad i'w ddewis gan yr ysgol a'r Swyddog Datblygu Gwagleoedd Gwyrdd.

612 Adborth / Adroddiadau ynghylch Cynadleddau / Hyfforddiant / Cyfarfodydd Cynllunio Cymru / Un Llais Cymru

612.1 Cyfarfod Cadeiryddion a Chlercod gyda swyddogion Cyngor Sir Ddinbych 15/10/19 Roedd y Cynghorwyr Jayne Mayers a Bob Barton yn bresennol yn y digwyddiad hwn. Cafwyd trafodaeth ynghylch sefyllfa ariannol yr awdurdod lleol a sut mae anawsterau gwleidyddol cyffredinol wedi effeithio ar amseriad y setliad drafft. Bydd y gyllideb ddrafft yn cael ei llunio yn y drydedd wythnos ym mis Tachwedd, gan obeithio am setliad terfynol ym mis Chwefror. Bydd amseriad praeseptau yr un fath â'r llynedd, llythyrau'n cael eu hanfon ddiwedd Tachwedd i gael ymateb erbyn 15 Ionawr. Bydd rhaid gwneud arbedion ar draws yr holl wasanaethau. Siaradodd Tara Dumas o'r adran rheoli gwastraff am y newidiadau i'r casgliadau gwastraff. Mae hi'n fodlon dod allan i'r cymunedau i drafod hyn. Trafododd Tim Towers y rhaglen gynnal a chadw yn ystod y gaeaf a bydd Adam Turner, Swyddog Cydymffurfiaeth Cynllunio, yn derbyn ymatebion ynghylch y siarter arfaethedig hyd at fis Rhagfyr. Soniodd Ffion Angharad am y gwasanaeth hysbysu newydd i gwsmeriaid; mae 58 o wasanaethau'n fyw ar y system hon a bydd rhagor yn cael eu hychwanegu. Hefyd bydd porth ar-lein i gynghorau. Gall Amy Selby a Fran Rhodes ddarparu cymorth gyda ymgeisio am grantiau fferm wynt neu unrhyw gyfleoedd grant eraill.

613 CYNLLUNIO www.sirddinbych.gov.uk/cynllunio

613.1 Cais 20/2019/0847 Adeiladu annedd newydd ac estyniad i'r cwrtil preswyl yn Fron Bach, Graigfechan, a gyflwynwyd gan Mr a Mrs S Williams.

PENDERFYNWYD cefnogi'r cais mewn egwyddor, ond mynegodd aelodau bryderon bod y datblygiad mewn cefn gwlad agored mewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol a graddfa'r datblygiad arfaethedig.

613.2 Cais 20/2019/0855 Adeiladu estyniad ar gyfer yr annedd yn 2 Tŷ Capel, Graigadwywynt, a gyflwynwyd gan Mr G Turner.

PENDERFYNWYD peidio â gwneud unrhyw sylwadau.

613.3 Cais 20/2019/0871 Gwaith trwsio arfaethedig i'r gofeb rhyfel sy'n bodoli eisoes, yn cynnwys ailosod cerrig copa, ailbwyntio, arysgrifio, gosod bolardiau, tirlunio a gwaith cysylltiedig – Y Gofeb Ryfel, Llanfair DC, a gyflwynwyd gan Gyngor Cymuned Llanfair DC.

PENDERFYNWYD nad oedd unrhyw wrthwynebiad gan mai'r Cyngor Cymuned yw'r ymgeisydd.

613.4 Cais 20/2019/0884 Datblygu 0.125 hectar o dir trwy adeiladu annedd sengl anghenion fforddiadwy lleol a gwaith cysylltiedig [cais amlinellol – yr holl faterion wedi'u cadw'n ôl] ar dir nesaf at Bwlch y Llyn, Pentre Coch, a gyflwynwyd gan Mr David Baker **PENDERFYNWYD** cefnogi'r cais.

613.5 Cais 20/2019/0885 Amrywio amod 2 caniatâd cynllunio 20/2018/0540/PF i ganiatáu dyluniad diwygiedig – tir yn Three Pigeons Inn, Graigfechan, a gyflwynwyd gan Mr/Mrs Paul a Debbie Henri. **PENDERFYNWYD** cefnogi'r cais.

613.6 Cais 20/2019/0036 Gwaith ar ddwy goeden mewn Ardal Gadwraeth – 2 Tan Llan, Llanfair DC, a gyflwynwyd gan Mrs Helen Stalford. **PENDERFYNWYD** nad oedd unrhyw wrthwynebiad.

613.7 Dogfen Ymgynghori Siarter Cydymffurfiaeth Cynllunio Drafft Cyngor Sir Ddinbych Cyflwynwyd – ymateb drafft. Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Steve Whipp am baratoi'r ddogfen ddrafft. **PENDERFYNWYD** cyflwyno'r ymateb fel y'i drafftiwyd.

614 PRIFFYRDD A'R AMGYLCHEDD Ystyriodd yr aelodau'r materion a ganlyn:

614.1 Gorchymyn Gwro Llwybr Cyhoeddus – Deddf Priffyrdd 1980 – Adran 119 – Cais i wyro llwybr cyhoeddus yng nghyffiniau Castell, Graigadwywynt. **PENDERFYNWYD** cefnogi'r cais.

614.1 Byngalos yng Nghraigfechan [593.8, 598.6] Roedd y Clerc yn aros am ymateb gan Glyn Forsdick [Tai Sir Ddinbych] ynghylch cyflwr gwael y llwybrau troed o gwmpas y byngalos ac yn arwain at y brif ffordd, yn cynnwys y tyllau yn y maes parcio.

614.2 Parcio yn y gilfan ger Llysfasi a goryrru [603.4] Mae'r Clerc yn aros am ymateb gan yr awdurdod lleol. Atgoffwyd aelodau ei bod yn bwysig gwneud nodyn o rifau cofrestru ceir lle bynnag y bo modd wrth hysbysu am ddiwyddiadau goryrru.

RHAN 2 615 PENDERFYNWYD gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod oherwydd natur gyfrinachol yr eitemau a ganlyn:

616 MATERION ARIANNOL

616.1 Talu Cyfrifon / Anfonebau PENDERFYNWYD gwneud taliadau fel a ganlyn: **£697.20** Sandra Williams [Gwasanaeth Cyfieithu]

616.2 Prynu coeden Nadolig PENDERFYNWYD [a] y byddai'r Cynghorydd Keith Mouldsdale yn prynu coeden [b] y Clerc yn cysylltu gyda Grŵp Cynefin i ofyn a ellir darparu cyflenwad trydan a [c] ystyried cynnal seremoni goleuo'r goeden.

616.3 Ceisiadau am Gymorth Ariannol Ni chyflwynwyd unrhyw geisiadau ond disgwylir dau gan Ysgol Llanfair ac Ysgol Pentrecelyn.

617 DYDDIADAU CYFARFODYDD Y DYFODOL

2019 25/11/19 [cyfarfod pennu'r gyllideb praesept – Coleg Llysfasi],
09/12/19 [Ysgol Llanfair]

2020 13/01/20 [Ysgol Pentrecelyn], 10/02/20 [Ysgol Llanfair, Siaradwr gwadd - Tara Dumas], 09/03/20 [Canolfan Genus]

Gorffennodd y cyfarfod am 9pm.

_____ CADEIRYDD _____ DYDDIAD

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR DYFFRYN CLWYD COMMUNITY COUNCIL
www.llanfaircommunitycouncil.co.uk

Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yng Ngholeg Cambria Llysfasi nos Lun, 25 Tachwedd 2019 am 7.00 pm.

PRESENNOL – Y Cyngorwyr Jayne Mayers [Cadeirydd], Keith Mouldsdaie [Is-gadeirydd], David Baker, Owen Evans, Osian Owen, Ceri Ranson ac Eirwen Godden, Clerc.

HEFYD YN BRESENNOL – Mr Rick Bedson [Pennaeth Ystadau] a Dewi Jones [Rheolwr Fferm] Coleg Cambria Llysfasi

YMDDIHEURIADAU – Y Cyngorwyr Bob Barton [apwyntiad ysbyty], Wini Davies [salwch teuluol] a Tim Faire [ymrwymiad blaenorol] ynghyd â Mr Iain Clarke, Pennaeth Coleg Cambria Llysfasi.

618 DATGAN BUDDIANNAU Dim

619 SIARADWYR GWADD Croesawodd y Cadeirydd Mr Rick Bedson a Mr Dewi Jones o Goleg Cambria Llysfasi, gan gyfeirio at eu cynlluniau ar gyfer adeilad newydd a fyddai ar gael i'r gymuned leol. Mae gan y Cyngor Cymuned ddiddordeb mewn sefydlu perthynas gadarnhaol a buddiol rhwng y coleg a'r gymuned leol. Mae'r coleg yn cefnogi nifer o grwpiau cymunedol eisoes yn ei gyfleusterau, rhaglenni a digwyddiadau a byddai'n croesawu syniadau ar sut y gallai'r cyngor gynorthwyo gyda hyn. Maent yn ymwybodol o gyfleusterau a lleoliadau eraill yn yr ardal nad yw'r coleg am gystadlu yn eu herbyn ond yn hytrach ategu'r hyn sydd ar gael. Mae'r cynllun ar gyfer yr adeilad newydd [dosbarthwyd copiâu] yn cael ei hyrwyddo fel canolbwynt cymunedol.

Roedd copi o Gynllun Cymdogaeth y Cyngor wedi'i anfon i'r coleg eisoes; crybwyllid yr arolwg lleol a gynhaliwyd i ganfod beth roedd pawb yn yr ardal yn ddymuno ei gael, gyda chryn ymgynghori wedi digwydd. Mae rhai pobl ar y cyrion, mae tystiolaeth o unigrywdd a gallai rhai ohonynt fod â diddordeb yn rhai o'r gweithgareddau yn y coleg. Bydd y coleg yn 100 oed ymhen dwy flynedd; mae'r oes wedi newid; mae'r seilwaith cludiant yn anodd ond mae'r ddarpariaeth yn parhau i gael ei hystyried yn bwysig i'r gymuned wledig, yn cefnogi amaethyddiaeth, cynaliadwyedd, bioamrywiaeth a thechnolegau ynni adnewyddadwy. Dywedodd y Cyngorwyr Keith Mouldsdaie y byddai'n fodlon derbyn hysbysiadau cyrsiau/erthyglau gan y coleg ar gyfer y llythyr newyddion lleol, Cronicl Dyffryn Clwyd. Holwyd am nifer y llwybrau cyhoeddus ar dir y coleg, yr angen i'w gwneud yn fwy hygyrch, gwyro eraill, gwella'r arwyddion ac ymgysylltu mwy gyda gwasanaethau cefn gwlad a grwpiau fel Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Gogledd Cymru.

I gloi, penderfynwyd y byddai deialog rheolaidd rhwng y cyngor cymuned a'r coleg i'w groesawu, er enghraifft, ynghylch gwneud mwy o ddefnydd o'r adeilad newydd gan y gymuned leol, sefydlu cysylltiadau marchnata rhwng y cyngor a'r coleg, mwy o ffocws ar wella llwybrau a sut y gellir annog pobl ifanc i fynychu a chymryd rhan yng nghyfarfodydd y cyngor. Diolchodd y Cadeirydd i'r ddau siaradwr am eu presenoldeb ac am gael cynnal y cyfarfod yn y coleg, gan ychwanegu ei bod yn falch o ddysgu y bydd y coleg yn darparu lleoliad ar gyfer cyfarfodydd y cyngor yn y dyfodol.

620 CYLLIDEB 2020/2021 Cyflwynwyd – Cyllideb Ddrafft, Datganiad Ariannol am y cyfnod 1 Ebrill i 30 Medi 2019 [taliadau wedi'u gwneud ers 1 Hydref mewn coch] a'r Polisi Cronfeydd wrth Gefn [a gymeradwywyd 13/05/19]. Arweiniodd y Clerc yr aelodau trwy'r wybodaeth a gyflwynwyd, gan edrych ar yr incwm a'r gwariant y llynedd, yr alldro a amcangyfrifiwyd ar gyfer eleni, fesul categori, ac ystyried beth i'w gynnwys ar gyfer y flwyddyn nesaf. Y teimlad cyffredinol oedd y dylid cynnwys dodrefn stryd dan y pennawd costau safleoedd dan waith trwsio a chynnal a chadw; roedd angen cynyddu'r gyllideb meddalwedd cyfrifiadurol/gwasanaethau rhyngwrwyd i gwmpasu costau cydymffurfio gyda rheoliadau gwefan hygyrch; cynyddu'r ffigur dan gostau offer er mwyn adnewyddu cyfrifiadur y Cyngor; dim darpariaeth i wneud cais i gofrestru fel loteri fach a chynyddu'r gyllideb grantiau a chyfraniadau o £2,000 i £2,500. Bydd y swm o £10,000 yn parhau fel ffigur ailadroddus tuag at y gwaith trwsio/uwchraddio arfaethedig i'r Gofeb Ryfel nes bo'r union gost yn wybyddus; mae'r ffigur hwn yn cynnwys darpariaeth ar gyfer trwsio waliau mynwent yr eglwys fel a phan fo angen. Cafwyd trafodaeth hefyd ynghylch rhoi grant arall i Apêl Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2020, yn dibynnu ar y sefyllfa alldro eleni. Penderfynwyd cyflwyno ail gyllideb ddrafft ddiwygiedig gerbron y Cyngor ar 09/12/19 i'w hystyried ymhellach.

621 TALIADAU PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL Cyflwynwyd – darn o Adroddiad Drafft 2020/2021 [tudalennau 41-49]. Mae gan aelodau cyngor tref neu gymuned yr hawl i dderbyn taliadau fel y penderfynwyd gan y Panel. Mae'n fater i bob cyngor wneud, a chofnodi, penderfyniad polisi o ran p'un ai y gwneir taliad i aelod ai peidio; sawl taliad a wneir er mwyn talu'r cyfanswm sy'n daladwy; p'un ai a sut i adfer unrhyw daliadau a wnaed i aelod sy'n gadael, neu'n newid eu rôl, yn ystod y flwyddyn ariannol. Atgoffwyd yr aelodau ei bod yn ofynnol i gynghorau tref a chymuned gyhoeddi manylion am yr holl daliadau a wneir i aelodau unigol ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

PENDERFYNWYD Cytunodd yr aelodau mewn egwyddor ar y camau gweithredu isod yng nghyswllt Penderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol o ran taliadau:-

Penderfyniad 42 – Talu'r £150 sy'n orfodol i bob aelod oni bai eu bod yn cynghori'n ysgrifenedig nad ydynt am dderbyn y taliad

Penderfyniad 44 – Peidio â gwneud taliad blynyddol o hyd at £500 yr un i hyd at 5 aelod i gydnabod cyfrifoldebau penodol

Penderfyniad 45 – Talu gwir gostau teithio ar gludiant cyhoeddus neu lwfans milltiroedd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, pa bynnag un sy'n berthnasol, yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth ymlaen llaw

Penderfyniad 46 – Talu treuliau cynhaliaeth dros nos, yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth ymlaen llaw a chyflwyno derbynebau

Penderfyniad 47 – Talu lwfans colled ariannol, lle bo colled o'r fath wedi digwydd, am fod yn bresennol mewn dyletswyddau cymeradwy

Penderfyniad 48 – Gwneud taliad i ad-dalu costau angenrheidiol gofalu am blant ac oedolion dibynnol [a ddarperir gan ofalwyr ffurfiol neu anffurfiol] ac ar gyfer anghenion cymorth personol. Mae'r taliad hwn yn orfodol ar gyfer pob aelod os ydynt yn gymwys i'w hawlio ac yn dymuno gwneud hynny ar sail cyflwyno derbynau gan y gofalwr.

Penderfyniad 49 – Gwneud taliad o hyd at £1,500 i gadeirydd y cyngor

Penderfyniad 50 – Gwneud taliad o hyd at £500 i ddirprwy gadeirydd y cyngor

Bydd yr holl daliadau dan Benderfyniadau 42, 49 a 50 am y flwyddyn yn cael eu talu ym mis Chwefror, a byddant yn cael eu talu ar sail pro rata petai aelod un ai'n dod yn gynghorydd neu'n gadael ei rôl fel cynghorydd yn ystod y flwyddyn ariannol.

622 DYDDIADAU CYFARFODYDD Y DYFODOL

2019 09/12/19 [Ysgol Llanfair]

2020 13/01/20 [Ysgol Pentrecelyn], 10/02/20 [Ysgol Llanfair, Siaradwr gwadd - Tara Dumas], 09/03/20 [Canolfan Genus]

Gorffennodd y cyfarfod am 8.55pm.

_____ CADEIRYDD _____ DYDDIAD

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR DYFFRYN CLWYD COMMUNITY COUNCIL
www.llanfaircommunitycouncil.co.uk

Cofnodion Cyfarfod Cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd yn Ysgol Llanfair nos Lun, 9 Rhagfyr 2019 am 7.00pm.

PRESENNOL – Y Cynghorwyr Jayne Mayers [Cadeirydd], Keith Mouldsdale [Is-gadeirydd], David Baker, Bob Barton, Wini Davies, Owen Evans, Osian Owen, Steve Whipp ac Eirwen Godden, Clerc.

HEFYD YN BRESENNOL - 3 aelod o'r cyhoedd.

YMDDIHEURIADAU Y Cynghorwyr Tim Faire [ymrwymiad blaenorol], Ceri Ranson [ymrwymiadau gwaith] ac Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych.

RHAN 1 - 623 DATGAN BUDDIANNAU Y Cynghorydd David Baker [Eglwys Llanfair], y Cynghorydd Keith Mouldsdale [Ymddiriedolwr Neuadd Bentref Llanfair DC]

624 COFNODION - PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 11 a 25 Tachwedd 2019 a'u llofnodi fel cofnodion cywir.

625 ADRODDIAD Y CLERC

625.1 Coleg Cambria Lllysfasi [606, 609.3] Mae'r Coleg yn edrych ymlaen at sefydlu partneriaeth gadarnhaol a buddiol gyda'r cyngor cymuned. Pennaeth y Coleg a'r Rheolwr Fferm sydd yn y sefyllfa orau i gefnogi datblygiad y bartneriaeth bwysig hon. Mae Cydlynnydd Datblygiad Masnachol Cambria'n hapus i rannu manylion am ddigwyddiadau a gweithgareddau yn Lllysfasi trwy ddarparu dogfennau A5 dwyieithog ar gyfer Cronicl Dyffryn Clwyd.

625.2 Gwahoddiad agored i bleidiau gwleidyddol [600.4, 609.6] Adroddwyd y byddai'r Cadeirydd a'r Clerc yn cyfarfod gyda Mr Darren Millar AC mewn cymhorthfa yn Llyfrgell Rhuthun ar 31/01/20. Gofynnwyd am gyfarfodydd briffio rheolaidd gydag Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych – nid yw'r dyddiadau wedi'u trefnu hyd yma.

625.3 Diffibrilydd Mae'r diffibrilydd yn Llanfair wedi'i symud i safle'r ysgol newydd. Mae Sefydliad Prydeinig y Galon wedi datblygu 'The Circuit' www.thecircuit.uk – rhwydwaith diffibrilyddion cenedlaethol newydd. Daw hwn yn lle cronfa ddata diffibrilyddion Gwasanaeth Ambiwylans Cymru a bydd angen cofrestru'r holl offer gyda The Circuit. Cytunwyd mai'r Clerc fydd y pwynt cyswllt ar gyfer y diffibrilydd yn y Three Pigeons Inn, Graigfechan.

626 MATERION CYMUNEDOL

626.1 Pentref Llanfair DC - Llifogydd [610.1] – Dim ymateb hyd yma gan yr Adran Prifffyrdd ynghylch trefnu cyfarfod safle i drafod y materion a godwyd yng nghyfarfod y Cyngor Cymuned a gynhaliwyd ar 11/11/19. Fodd bynnag, yn y cyfamser mae peirianwyr Cyngor Sir Ddinbych wedi datgan nad yw safle adeiladu'r ysgol newydd wedi cael caniatâd i gysylltu i'r draeniau cyhoeddus hyd yma, ond disgwylir y gellir gwneud hyn yn fuan. Dyma pam bod yr holl ddŵr glaw yn llifo dros y tir ac ar y ffordd. Mynegwyd pryderon y gellid cael perygl go iawn os yw'n rhewi. Yr ymateb gan Wynne Construction oedd bod cysylltu'r dŵr arwyneb yn cael ei wneud ym mis Ionawr, cyn belled ag y ceir cymeradwyaeth gan yr Adran Prifffyrdd, ac maent yn aros am hynny ar hyn o bryd. Yn anffodus, gan fod y gwaith draenio dŵr budr yn parhau ni ellir agor y rhan hon o'r ffordd hefyd. Bydd y dŵr arwyneb yn llifo oddi ar y safle yn digwydd yn ystod tywydd eithafol (glawiad eithafol) yn unig, pan na fydd y tanc dal dŵr ar y safle'n medru dal rhagor o ddŵr arwyneb.

Fodd bynnag, sylwadau'r Cynghorwyr oedd ei bod yn amlwg fod y tanc dal dŵr yn llawn yn awr heb unrhyw le i'r dŵr fynd. Felly mae unrhyw lawiad pellach yn gorlifo ar y ffordd yn y cyfamser.

626.2 Datblygiad Tai - Llanfair DC – Derbyniwyd y diweddariad a ganlyn gan Pure ar 06/12/19:

[a] Wales & West Utilities, Nwy – Mae'r hawddfreintiau oddi ar y safle wedi'u cytuno gyda pherchnogion tir eraill ac mae'r dyluniad nwy prif gyflenwad ar y safle / oddi ar y safle wedi'i gwblhau. Mae gwaith gosod oddi ar y safle ar gyfer y bibell nwy prif gyflenwad i fod i ddechrau yn fuan ym mis Mawrth 2020.

[b] BT/Openreach – Mae'r siambr newydd i'w llunio ar lwybr troed yr A525 gyferbyn â'r fynedfa newydd i safle Pure rhwng 6 ac 8 Ionawr 2020.

[c] Gwaith trydan SPEN – Bydd gwaith oddi ar y safle i osod cyflenwad trydan newydd yn digwydd rhwng 13 a 15 Ionawr 2020 (o Fron y Clwyd i'r A525 i is-orsaf newydd). Bydd cysylltu cymalau a gwaith ar y safle i roi ynni i'r is-orsaf yn cael ei gwblhau erbyn diwedd Ionawr 2020.

[d] Cynllunio – Mae cais cynllunio Adran 73 i amrywio amod yn bodoli ar hyn o bryd, sy'n diwygio rhestr y cynllun a gymeradwywyd. Yn gyffredinol mae hwn yn ddiweddariad o ran dyluniad dau fath o dai ac aildrefnu plotiau 48 i 55 (sy'n cefnu ar wagle agored ac oddi wrth eiddo cyfagos sy'n bodoli eisoes). Bydd llwybr ffordd y safle'n parhau yn union yr un fath. Mae Adran Cynllunio Sir Ddinbych wrthi'n dilysu'r cais yr wythnos hon a bydd y cyngor cymuned yn derbyn dogfennau ymgynghori'n uniongyrchol gan Gyngor Sir Ddinbych. Ar ddechrau'r flwyddyn nesaf, ac wrth i'r tai gael eu hadeiladu, bydd Pure yn dechrau datblygu blaen y safle. Bwriedir trefnu ymweliad safle pan fo'r tywydd yn gwella.

626.3 Clwb Moduron Dyffryn Clwyd [Rali Tlws Farrington Automark] 16/17 Tachwedd 2019 Mynegwyd pryder ynghylch y diffyg rhybudd i'r cyngor cymuned ac i drigolion lleol a fydd yn cael eu heffeithio gan y digwyddiad. Dywedodd y Cyngorydd Jayne Mayers ei bod hi wedi cysylltu gyda'r heddlu a oedd hefyd wedi cael eu hysbysu am y digwyddiad ar fyr rybudd. Roedd rhai cymdogion oedranus yn ofnus gan nad oeddynt yn gwybod beth sy'n digwydd. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda Chyngor Sir Ddinbych ynghylch y diffyg cyfathrebu, pwy roddodd ganiatâd i gynnal y digwyddiad a sut y gellir gwella gweithdrefnau ar gyfer digwyddiadau'n y dyfodol.

626.4 Coeden Nadolig Adroddwyd bod Grŵp Cynefin wedi cytuno'n garedig i osod soced trydan allanol yn un o'r elusendai i ddarparu pŵer i oleuadau'r goeden Nadolig yn Llanfair DC. Diolchwyd i'r Cyngorydd Keith Mouldsdaile a Mr John Pugh am osod y goeden.

626.5 Goleuadau stryd – Llanfair DC Adroddwyd bod lampau'n cael eu hadnewyddu gyda fersiynau LED. Mae rhai trigolion wedi cwyno, yn methu deall pam bod angen newid y lampau gwreiddiol ac yn teimlo y dylent fod wedi cael eu hysbysu ymlaen llaw.

626.6 Gwaith ffyrdd/datblygiadau tai yn Llanfair Adroddwyd bod anfodlonrwydd ac annifyrwrch yn cael ei fynegi gan drigolion am yr oedi wrth geisio ymdrin â'r draenio, tyllu ffosydd a materion eraill sy'n awrain at ffyrdd ar gau am gyfnodau maith neu'n gyson yn y pentref; diffyg cyfathrebu; a dim digon o feddwl cydlynus rhwng y datblygwyr amrywiol, yn cynnwys gwahanol adrannau'r awdurdod lleol. Cytunwyd gofyn i'r Arweinydd ddarparu diweddariad ynghylch y trafodaethau a gynhaliwyd gyda gwahanol bartïon yn ddiweddar.

627 GOHEBIAETH / ADRODDIADAU

627.1 Adroddiad Blynyddol Pwyllgorau Craffu Cyngor Sir Ddinbych 2018/19 a Ffurflen Gais Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi gofyn i'r cyngor cymuned sicrhau bod y rhain ar gael i drigolion yn y gymuned. Mae'r Cyngor Sir yn hynod o awyddus i dynnu gwaith y Pwyllgorau Craffu at sylw'r trigolion, gan bwysleisio eu bod y medru tynnu materion pwysig neu sy'n peri pryder iddynt at sylw'r pwyllgorau hyn. **PENDERFYNWYD** gofyn i'r Clerc gysylltu gyda Chyngor Sir Ddinbych am erthygl esboniadol addas ar gyfer Cronicl Dyffryn Clwyd.

627.2 Sedd goffa'r ddamwain awyren Cyflwynwyd llythyr dyddiedig 20/11/19 yn dweud bod Mr E H Edwards a Mr John Harrop wedi rhoi rhodd o sedd wedi'i harysgrifio er cof am y swyddogion milwrol a fu farw ar 17 Gorffennaf 1942 pan fu eu harwyen Awyrlu mewn damwain ger Tŷ'n y Bryn, Llanfair DC. Mae'r sedd wedi ei rhoi wrth y Gofeb Rhyfel, ond heb ei gosod yn ei lle'n barhaol eto. **PENDERFYNWYD** anfon llythyr o ddiolch at Mr E H Edwards a Mr John Harrop i gydnabod eu haelioni.

627.3 Rhaglen Adnewyddu Tocyn Bws Cyflwynwyd neges e-bost dyddiedig 25/11/19 gan Un Llais Cymru'n darparu manylion sut y gall pobl wneud cais am eu tocyn bws newydd. Mae Trafnidiaeth Cymru yn rheoli'r rhaglen adnewyddu ar ran y 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru. Bydd y tocynnau bws cyfredol i gyd yn darford ar 31/12/19 ac ni fyddant yn cael eu derbyn ar fysiau ar ôl y dyddiad hwnnw. Gall y rhai â thocyn bws un ai wneud cais ar-lein yn www.tfw.wales/travelcards neu ar bapur, y gellir ei lawrlwytho o'r wefan neu gael copi gan eu Hawdurdod Lleol. Gellir gofyn am gopi yn y post hefyd, trwy ffonio 0300 303 4240. Dywedodd Cyngorwyr y byddent yn dosbarthu'r wybodaeth mor eang ag y bo modd yn eu cymunedau.

628 Adborth / Adroddiadau o Gynadleddau / Hyfforddiant / Cyfarfodydd

628.1 Cyfarfod Cangen SLCC 06/12/19 [Clerc] Roedd y prif eitemau'n cynnwys atgoffa'r aelodau ynghylch cydymffurfio gyda rheoliadau hygrychedd gwefannau; cytundebau siarter; digwyddiadau'r dyfodol; a bod data defnyddiol ar gael ar www.understandingwelshplaces.wales i gynghorau/sefydliadau sydd angen tystiolaeth i gefnogi cynllun cymuned, cynllun cymdogaeth neu gais cyllido. Un anfantais, fodd bynnag, yw bod y data ar gael ar gyfer cymunedau â phoblogaeth o fwy na 2,000.

628.2 Gweithdy band eang 05/12/19 [Y Cynghorwyr David Baker a Bob Barton] Nod y gweithdy oedd cynorthwyo'r cymunedau hynny gyda mynediad band eang gwael i ddeall eu hopsiynau'n well trwy rannu gwybodaeth allweddol, pethau i'w hystyried a'r darlun diweddaaf o ran lle mae band eang cyflym iawn i'w gael yn Sir Ddinbych. Cynlluniau i'r dyfodol yn cynnwys argaeledd cyllid a phenodi swyddog datblygu digidol gan Gyngor Sir Ddinbych.

629 CYNLLUNIO www.sirddinbych.gov.uk/cynllunio

629.1 Cais 20/2019/0794 Adeiladu dau fyngalo sengl [cais wedi'i ailgyflwyno] - tir yn Clover Bank, Llanfair DC a gyflwynwyd gan Mrs Anne Hughes. **PENDERFYNWYD** bod y cyfarfod yn nodi ailgyflwyno'r cais a'r ffaith nad oedd fawr ddim newid arwyddocaol ers y cais blaenorol, 20/2019/0190, adeiladu dau fyngalo dormer sengl ar 1/3/2019, yr oedd Awdurdod Cynllunio Lleol Sir Ddinbych wedi'i wrthod. Nid oedd y cais yn mynd i'r afael â'r sail dros wrthod y cais blaenorol. Mae'r Cyngor Cymuned yn cydnabod bod y safle y tu mewn i ffin datblygu pentref Llanfair DC.

Mae'r cais hwn wedi'i ailgyflwyno ar gyfer dau fyngalo ar y safle. Y gwahaniaeth rhwng y cais hwn a'r un blaenorol yw bod yr ystafelloedd gwely dormer wedi'u tynnu o'r cynllun a'r cynllun gosod a gweddluniau wedi'u newid ychydig. Roedd y Cyngor Cymuned o'r farn y byddai'r cynllun arfaethedig yn parhau i gynrychioli gorddatblygu'r safle. Byddai'r eiddo'n cael eu gwasgu i mewn i'r gwagle sydd ar gael gyda fawr ddim darpariaeth amwynder.

Natur y stryd yn yr ardal hon yw bo'r eiddo sy'n bodoli eisoes wedi'u gosod yn ôl oddi wrth y briffordd. Byddai'r cynnig hwn yn gweld byngalos yn cael eu hadeiladu o flaen y llinell adeiladu sy'n bodoli a byddai'r anheddau nesaf at y briffordd.

Mae'r cynllun gosod arfaethedig yn dangos darpariaeth ar gyfer chwech lle parcio ychwanegol a nodir y rhain ar y ffurflen gais. Dangosir bod y mannau parcio yn rhai 2m x 4m, maint cerbyd teuluol, ond heb unrhyw lwfans ar gyfer agor drysau car. Ni fyddai'r cynllun gosod arfaethedig yn gadael fawr ddim lle i droi ar y dreif. Byddai'r mannau parcio o flaen yr eiddo yn uniongyrchol o flaen ffenestri ystafell wely a byddai'n anodd cael mynediad at ddrws ffrynt pob eiddo. Eto byddai'r ddau le a ddangosir o flaen y ddau eiddo yn ei chael yn anodd derbyn cerbydau. Byddai'r mannau a ddarperir yn medru cynnal tri char ar y gorau. Byddai hyn yn golygu y byddai'n rhaid i'r preswylwyr barcio y tu allan i'r safle, a chreu niwsans potensial i gymdogion yn ogystal â pherygl petai'r parcio ar y briffordd.

Mynegodd y Cyngor Cymuned bryder ynghylch effaith y datblygiad arfaethedig ar ddraeniad. Mae'r rhan hon o'r pentref yn dueddol o ddiodeff llifogydd dŵr arwyneb yn ystod glawiad trwm, a byddai'r cynnig hwn yn gwaethygu'r sefyllfa gydag arwynebddau caled oherwydd presenoldeb toeon a dreifiau.

Fel y nodwyd uchod, mae'r ffurflen gais yn honni na fu unrhyw ddatblygiad cyn cyflwyno'r ffurflen. Gwnaed y cais cyntaf ar y safle hwn, 20/2018/0448, ym mis Mai 2018, a oedd yn cynnwys dogfennau'n ystyried y coed a bioamrywiaeth natur y safle. Cafodd y safle ei glirio'n dilyn hyn, mewn modd a oedd yn diystyru'r cynnig blaenorol ac yn cael gwared ar fwy o goed nag a ystyriwyd yn wreiddiol. Ers y clirio mae'r safle wedi bod yn ddolur i'r llygad yn y pentref. Byddai'r Cyngor Cymuned yn ystyried bod clirio'r safle, a ddigwyddodd ynghanol 2018, yn gam cyntaf yn y datblygiad. Mae'r datganiad ar ffurflen gais y cynnig cynllunio sy'n datgan nad oedd unrhyw waith wedi'i gyflawni'n wallus.

Mae'r cais wedi'i ailgyflwyno yn parhau i gynrychioli gorddatblygu'r safle, mae'n anghyson gyda Chynllun Cymdogaeth y Cyngor Cymuned ac yn benodol, ei nodau bioamrywiaeth. Nid yw'n mynd i'r afael â'r seiliau gwrthod y cais blaenorol. Ymhellach, mae'r cynnig yn gwrthdaro gyda maen prawf i) Polisi Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych a'r arweiniad a gynhwysir yn y nodyn Canllaw Cynllunio Atodol Preswyl.

Mae'r Cyngor Cymuned o'r farn y byddai Hysbysiad Penderfyniad yr Awdurdod Cynllunio Lleol, dyddiedig 11/6/2019, o ran y cais blaenorol, 20/2019/0190 Adeiladu dau fyngalo dormer sengl, yn parhau i fod yn berthnasol ac yn gofyn i'r cais wedi'i ailgyflwyno gael ei wrthod.

630 PRIFFYRDD A'R AMGYLCHEDD Ystyriodd yr aelodau'r materion a ganlyn:

630.1 Adran 6[7] Deddf yr Amgylchedd [Cymru] 2016 Cyflwynwyd – adroddiad drafft a baratowyd gan y Cynghorydd Steve Whipp ynghylch yr hyn mae'r Cyngor Cymuned wedi'i wneud i gydymffurfio gyda'i ddyletswydd o ran bioamrywiaeth a chydnerthed ecosystemau. Mae'r Cynghorydd Whipp wedi ychwanegu Gwasanaethau Cefn Gwlad Sir Ddinbych yn y bennod yn y Cynllun Cymdogaeth, yn ogystal â'r ymateb i'r gofyniad Adran 6. Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Whipp am ei ymdrechion. **PENDERFYNWYD** cyflwyno'r ymateb fel y'i drafftwyd.

630.2 Plannu coed ym Mron y Clwyd, Llanfair DC [557.1, 568.3, 579.2, 593.1, 603.2, 611.3] Roedd Heather Battison-Howard, Swyddog Datblygu Gwagle Gwyrdd Cyngor Sir Ddinbych, wedi trefnu'r sesiwn blannu gyntaf [gwrych rhywogaeth cynhenid ceirios [cynnar a hwyr], draenen wen, rhosyn gwyllt, masarn bach, coed cyll ac Euonymus Europaeus], a gynhaliwyd ar 26/11/19 ar y cyd gydag Ysgol Llanfair. Bydd Adran Tai Cyngor Sir Ddinbych yn talu costau'r coed. Roedd y Cynghorydd Keith Mouldsdales yn bresennol a dywedodd y byddai ail sesiwn yn cael ei chynnal ym mis Chwefror 2020 i blannu coed ffrwythau a blodau gwyllt.

630.3 Cyfarfod safle cwlfer Graigfechan 05/12/19 Roedd y Cynghorydd Keith Mouldsdales a Steve Whipp yn y cyfarfod safle hwn, ynghyd ag Arweinydd y Cyngor Sir, trigolion, perchnogion tir a swyddogion draenio Cyngor Sir Ddinbych. Dywedodd swyddogion y Cyngor Sir, er mwyn rheoli'r disgwyliadau, y gallant gynorthwyo gyda phethau maen nhw'n gyfrifol amdanynt ond nid tu hwnt i hynny.

Wedi dweud hynny penderfynwyd bod datblygu'r tai ym mhen uchaf y pentref wedi'i wneud gyda'r cwlfer dŵr arwyneb wedi'i amgau mewn pibell gyda diamedr tua 1050mm. Roedd hyn yn gynrychioli adeiladu dros y bibell ac ni allai'r Cyngor Sir fod yn gyfrifol am drefniant nad oedd wedi ymwneud ag ef. Yn ddiweddar roedd problemau wedi codi gyda blocio'r

cwlfert gan deiar Land Rover ar olwyn a oedd wedi mynd i mewn i'r cwlfert. Roedd Cyngor Sir Ddinbych wedi dod yn ôl a chlymu'r teiar mewn man lle na allai achosi problem. Byddant yn ei waredu'n fuan.

Symudodd y cyfarfod o gwmpas y safle i archwilio'r draeniad yn y ffosydd a gweld y cwlfertau. Roedd y trigolion lleol yn bryderus y gallai llifogydd ddigwydd eto petai'r cwlfert yn blocio. Hefyd roeddynt o'r farn y byddai peth clirio gwrychoedd a ffosydd lle'r oedd llystyfiant wedi gordyfu'n cynorthwyo i wneud cyrsiau dŵr yn fwy gweladwy a hygyrch ac y byddai'n helpu i gynnal llifau. Cytunodd Peirianwyr Draenio Cyngor Sir Ddinbych i geisio cael cyllid (y gellid ei wneud yn gyflym) i gynnal ymchwiliad i'r angen ac yna gynnig datrysiad. Byddai eitemau rhydd fel logiau a changhennau wedi disgyn yn cael eu tynnu ymaith o ardal y cyrsiau dŵr. Ystyriwyd y byddai gwneud hyn yn ddigonol i gael gwared o unrhyw fygythiad ar unwaith o ragor o lifogydd. Byddai'r dadansoddiad anghenion yn nodi lle fyddai orau i ymdrin â llifau, ac yna ddatblygu cynllun ac eto dywedwyd y gallai hyn ddigwydd ar fyrder, yn y flwyddyn ariannol hon. Gallai hyn gynnwys gwasgaru'r llif yn uwch i fyny neu ddarparu griliau i atal deunyddiau rhag mynd i mewn i'r cwlfert.

Bydd swyddogion Cyngor Sir Ddinbych yn paratoi adroddiad a bydd Mr Wayne Hope, y Rheolwr Draenio Llifogydd, yn dod i gyfarfod mis Ionawr Cyngor Cymuned Llanfair DC. Roedd y cyfarfod yn gyfeillgar iawn, gyda phawb yn datgan eu parodrwydd i weithio gyda'i gilydd i ddatrys y broblem.

630.4 Gorchymyn Gwro Llwybr Cyhoeddus – Deddf Priffyrdd 1980 – Adran 119 – Cais i wro llwybr cyhoeddus yng nghyffiniau Castell, Graigadwywynt. Ailgyflwynwyd y map gan nad yr un gwreiddiol oedd yr un cywir, y gwahaniaeth oedd bod y llinell a ddangosir mewn llinellau gwyrdd wedi'i addasu ychydig i adlewyrchu llwybr newydd arfaethedig y llwybr. Mae'r gwyrdd yn parhau'n dderbiniol i'r Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol. **PENDERFYNWYD** nad oedd gan y Cynghorwyr unrhyw wrthwynebiad.

630.5 Byngalos yng Nghraigfechan [593.8, 598.6, 614.1] Aros am ymateb gan Glyn Forsdick [Tai Sir Ddinbych] ynghylch cyflwr gwael y llwybrau o gwmpas y byngalos ac yn arwain at y brif ffordd, yn cynnwys y tyllau yn y maes parcio. Gofynnwyd i'r Clerc anfon nodyn atgoffa arall.

630.6 Parcio yn y gilfan ger Llysfasi a goryrru [603.4, 614.2] Aros am ymateb gan yr awdurdod lleol. Gofynnwyd i'r Clerc anfon nodyn atgoffa arall.

630.7 Gwrychoedd wedi gordyfu – Adroddwyd am wrych uchel iawn yn plygu dros y ffordd ger y Three Pigeons Inn, Graigfechan. **PENDERFYNWYD** gofyn i'r Clerc ysgrifennu at Gyngor Sir Ddinbych i ganfod pwy sy'n gyfrifol am dorri'r gwrych a chlirio'r toriadau ymaith.

RHAN 2 631 PENDERFYNWYD gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod oherwydd natur gyfrinachol yr eitemau a ganlyn:

632 MATERION ARIANNOL

632.1 Talu Cyfrifon / Anfonebau PENDERFYNWYD gwneud taliadau fel a ganlyn:
£291.66 Y Cynghorydd K Moulds Dale [Taliad Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol – Taliad Lwfans Is-gadeirydd pro rata]
£135.22 Treuliau'r Clerc, Hydref – Rhagfyr 2019

£ 35.52 Y Cynghorydd T Faire [Ad-daliad – planhigion a chompost]
£ 83.06 Y Cynghorydd K Mouldsdales [Ad-daliad – coeden Nadolig a gwarchodwyr ceblau]
£109.00 Aelodaeth SLCC 2020
£223.05 Swyddfa Archwilio Cymru [Ffi archwiliad allanol]

632.2 Ceisiadau am Gymorth Ariannol PENDERFYNWYD dyfarnu grantiau fel a ganlyn [arian i'w drosglwyddo o'r gyllideb Gweithgareddau'r Cynllun Cymdogaeth i'r gyllideb Grantiau a Chyfraniadau]:

£450.00 Ysgol Pentrecelyn [tuag at gostau cludiant ar gyfer gweithgareddau nofio a chwaraeon]

£450.00 Ysgol Llanfair [tuag at gostau gwresogi'r eglwys leol yn ystod ymarferion/perfformiadau a gweithgareddau allgyrsiol eraill]

632.3 Cyllideb ar gyfer 2020/2021 Cyflwynwyd – Cyllideb ddrafft fersiwn 2 i'w hystyried. **PENDERFYNWYD** pennu'r gofyniad cyllideb ar gyfer 2020/2021 ar £31,227. Gwnaeth y Cynghorydd Bob Barton atal ei bleidlais.

633 DYDDIADAU CYFARFODYDD Y DYFODOL 13/01/20 [Ysgol Pentrecelyn, Siaradwr gwadd - Wayne Hope, Rheolwr Draenio Llifogydd Cyngor Sir Ddinbych a Noela Jones, Pennaeth Tai, Grŵp Cynefin], 10/02/20 [Ysgol Llanfair, Siaradwr gwadd - Tara Dumas], 09/03/20 [Canolfan Genus]

633.1 Cymeradwywyd y calendr cyfarfodydd o Ebrill 2020 – Mawrth 2021 fel a ganlyn: 20/04/20, 18/05/20, 15/06/20, 13/07/20, 14/09/20, 12/10/20, 09/11/20, 14/12/20, 11/01/21, 08/02/21, 08/03/21

634.1 Dywedodd y Cynghorydd Steve Whipp bod angen slot hanner awr mewn cyfarfod yn y dyfodol i benderfynu ar eitemau blaenoriaeth y Cynllun Cymdogaeth. Cytunwyd.

Gorffennodd y cyfarfod am 8.45pm.

_____ CADEIRYDD _____ DYDDIAD

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR DYFFRYN CLWYD COMMUNITY COUNCIL
www.llanfaircommunitycouncil.co.uk

Cofnodion cyfarfod cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd yn Ysgol Pentrecelyn nos Lun, 13 Ionawr 2020, am 7.00pm.

PRESENNOL – Y Cynghorwyr Jayne Mayers [Cadeirydd], Keith Mouldsdales [Is-gadeirydd], David Baker, Bob Barton, Wini Davies, Owen Evans, Tim Faire, Osian Owen, Ceri Ranson, Steve Whipp ac Eirwen Godden, Clerc.

HEFYD YN BRESENNOL - 12 aelod o'r cyhoedd, Noela Jones, Pennaeth Tai Cymdeithas Tai Grŵp Cynefin; Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych, y Cynghorydd Hugh H Evans OBE; Tim Towers, Adran Priffyrdd, Cyngor Sir Ddinbych; Wayne Hope, Rheolwr Risg Llifogydd, Cyngor Sir Ddinbych.

YMDDIHEURIADAU Dim.

RHAN 1 - 635 DATGAN BUDDIANNAU Y Cynghorydd David Baker [Eglwys Llanfair], y Cynghorydd Keith Mouldsdale [Ymddiriedolwr Neuadd Bentref Llanfair DC].

636 MINUTES - PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Rhagfyr 2019 a'u llofnodi fel cofnodion cywir.

637 ADRODDIAD Y CLERC

637.1 Y Gofeb Rhyfel – Gwaith adnewyddu/trwsio [594.3, 605.4, 613.3] Adroddwyd bod [a] y Cyngor Cymuned wedi derbyn caniatâd Adeilad Rhestredig [cyfeirnod 20/2019/0871/LB] ar 11/12/19 a [b] y cysylltwyd gyda'r Ymddiriedolaeth Cofebau Rhyfel [ni ddisgwylir ateb yn gynharach na 6 wythnos o 20/12/19] a'r Comisiwn Beddau Rhyfel i gael eu sylwadau am y gwaith arfaethedig i'r gofeb. Bydd angen cadw at Reol Sefydlog [cymal 24] a Rheoliadau Ariannol y Cyngor Cymuned wrth ymrwymo i gytundeb i gyflawni'r gwaith. Bydd drafft o wahoddiad i dendro a darpar fanyleb yn cael eu cyflwyno gerbron cyfarfod y Cyngor Cymuned ar 10/02/20.

637.2 Byngalos yng Nghraigfechan [593.9, 598.6, 614.1 630.5] Mae Swyddog Tai Sir Ddinbych wedi ymweld â'r safle ac yn cytuno y byddai gwelliannau'n fuddiol, a bydd yn edrych i weld a ellir sicrhau cyllid i wella'r maes parcio yng ngefn y stad. Yr Adran Priffyrdd sy'n gyfrifol am y llwybrau o gwmpas y byngalos. Bydd archwiliad arall yn cael ei gynnal yn y Flwyddyn Newydd.

637.3 Parcio yn y gilfan ger Llysfasi a goryrru [603.4, 614.2, 630.6] Nid yw'n anghyfreithlon i fws fod wedi'i barcio yn y lleoliad hwn cyn belled â bod ganddo dreth cerbyd, yswiriant ac ati. Hysbyswyd y contractwr am y cwynion am fws ysgol yn goryrru ac atgoffwyd gyrwyr y dylent gadw at y terfyn cyflymder [neu gyflymder is mwy priodol yn unol â'r amodau gyrru]. Dim ond yr heddlu sy'n medru gweithredu ar hyn, a gallai fod yn synhwyrol tynnu eu sylw at hyn. Cytunwyd anfon neges e-bost at Peter Daniels, Rheolwr Cludiant Teithwyr, gyda chais i ofyn i berchennog y bws sicrhau bod y bws yn cael ei symud ymhellach ymlaen yn y gilfan fel bod modd mynd at y blwch post.

637.4 Rali Clwb Moduron Dyffryn Clwyd 16-17/11/19 [626.3] Mae Rheolwr Gwaith Stryd Cyngor Sir Ddinbych wedi cynghori nad oes gan yr awdurdod priffyrdd unrhyw hawl i gymeradwyo / gwrthod / gwrthwynebu raliâu ceir, gan fod gan yr holl gerbydau'r hawl i ddefnyddio'r priffyrdd cyhoeddus [cyn belled â'u bod mewn cyflwr addas ar gyfer y ffordd ac yn cadw at Ddeddf Rheoliadau Traffig Ffyrdd]. Mae digwyddiadau moduro'n cael eu llywodraethu gan y Gymdeithas Campau Moduro [Motor Sports Association [MSA]] a thra'i bod yn ofynnol iddynt ymgynghori gyda'r heddlu, nid yw'n ofynnol cael caniatâd gan yr awdurdod priffyrdd. Y Gymdeithas sy'n awdurdodi digwyddiadau [trwy bwerau dirprwyedig a roddwyd iddynt gan Lywodraeth Cymru]. Mae'r Clerc mewn cysylltiad gydag ysgrifennydd y Clwb Moduro, sy'n cadw cofnod o'r holl eiddo yr ymwelwyd gyda nhw cyn unrhyw ddiwyddiad. Mae'r ysgrifennydd wedi gofyn am restr o gyfeiriadau/trigolion a fynegodd bryderon, fel y gellir ymchwilio i hyn ac adrodd yn ôl i'r Cyngor Cymuned. Bydd y clwb yn anfon hysbysiad at y Clerc cyn cynnal y digwyddiad yn ddiweddarach eleni – gellir dosbarthu hwn i bobl â diddordeb a'i gynnwys yng Nghronicl Dyffryn Clwyd.

Gofynnwyd i'r Clerc gael manylion am lwybr y rali gan ei bod yn ymddangos bod cystadleuwyr a/neu wylwyr wedi troi'r ffordd anghywir a gyrru heibio eiddo nad oedd wedi derbyn ymweliad gan y trefnwyr cyn y digwyddiad. Dywedodd yr aelodau eu bod yn disgwyl

i'r trefnwyr barhau i hysbysu trigolion ac ymweld â phob eiddo fel rhan o'u harferion arferol cyn pob digwyddiad.

637.5 Gwrych wedi gordyfu ger y Three Pigeons Inn, Graigfechan [630.7] Hysbyswyd Cyngor Sir Ddinbych am y mater ac roeddynt yn ymddrin â'r sefyllfa.

638 MATERION CYMUNEDOL

638.1 Siaradwr gwadd - Noela Jones, Pennaeth Tai, Grŵp Cynefin Roedd Bwrdd Rheoli'r Gymdeithas Tai wedi ystyried dau ddewis ynghylch ymddiriedolaeth Elusendai Elizabeth Owen, lle mae un tenant ar ôl. Nid yw strategaeth ystadau bresennol Grŵp Cynefin yn addas ar gyfer gwneud unrhyw beth ynghylch yr eiddo, ac maent wedi gofyn am gyngor ynghylch eu trosglwyddo i gymdeithas cymuned leol. Mae trafodaethau'n parhau gydag Adran Tai Cyngor Sir Ddinbych a bwriedir cysylltu gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestedig eraill hefyd.

Mynegwyd pryder yn y cyfarfod na ddylid caniatáu i'r eiddo ddirywio ymhellach; mae gan y Grŵp ymrwymadau a chyfrifoldebau fel yr ymddiriedolwyr presennol; gofynnwyd a oedd prynu gorfodol yn opsiwn; pwysigrwyd dod â chartrefi gwag yn ôl i'w defnyddio fel cartrefi eto; yr angen i gadw'r dewisiadau'n agored gan eu bod yn rhan o dreftadaeth yr ardal; y posibilrwyd y gellid defnyddio adeilad yr hen ysgol yn y dyfodol yn gysylltiedig â'r tai, trwy weithredu fel llety cysgodol neu fan cyfarfod i'r trigolion.

Diolchodd y Cadeirydd i Noela Jones am ddod i'r cyfarfod. Bydd Grŵp Cynefin yn darparu diweddariadau misol i'r Clerc i'w rhannu gyda'r Cyngor Cymuned.

638.2 Siaradwr gwadd - Wayne Hope, Rheolwr Risg Llifogydd, Cyngor Sir Ddinbych Darparwyd trosolwg ynghylch risg llifogydd a sut mae'n cael ei reoli. Mae mwy na 20 darn o ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar risg llifogydd yn cwmpasu afonydd, y môr, dŵr arwyneb a'r cyfan wedi'u cyfuno. Mae gan Lanfair un o'r risgiau isaf. Mae adnoddau'r Cyngor Sir yn gyfyngedig. Mae bellach yn gorff systemau draenio cynaliadwy sy'n cymryd traean o'r amser sydd ar gael. Mynegodd Mr Hope barodrwyd i weithio mewn partneriaeth gyda'r Cyngor Cymuned ac awgrymodd sefydlu gweithgor i nodi lle mae'r risgiau llifogydd a'r ardaloedd sy'n achosi problemau. Rhaid ystyried sefyllfaoedd mewn lleoliadau eraill wrth chwilio am ddatrysiadau posibl gan y gall gwlliau neu ddraeniau effeithio ar fannau eraill ymhellach draw. Crybwylyd cynllun hydro yng Nghraigfechan – gallai storio i fyny'r afon fod yn bosibilrwyd yn dilyn astudiaeth asesu. Cytunwyd bod y Cyngor Cymuned yn enwebu gwirfoddolwyr i fod yn rhan o'r gweithgor – Mr Phil Bennett Lloyd ynghyd â'r Cynghorwyr Bob Barton a Steve Whipp.

Diolchodd y Cadeirydd i Wayne Hope am ei gyflwyniad.

639 GOHEBIAETH / ADRODDIADAU

639.1 Cymorth Cynllunio Cymru neges e-bost dyddiedig 02/01/20 ynghylch digwyddiad ar 24/01/20 yn Venue Cymru Llandudno 9.30-12.00 [dosbarthwyd manylion i'r Cynghorwyr cyn y cyfarfod]

PENDERFYNWYD cymeradwyo bod y Cynghorydd Bob Barton yn mynd i'r digwyddiad.

640 Adborth / Adroddiadau o Gynadleddau / Hyfforddiant / Cyfarfodydd

640.1 Pwyllgor Ardal Conwy a Sir Ddinbych Un Llais Cymru 18/09/19 Dosbarthwyd y cofnodion i'r Cynghorwyr. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 29/01/20 yn Neuadd y Dref Dinbychh am 7pm. Dywedodd y Cynghorydd Bob Barton y byddai'n mynd i'r cyfarfod.

640.2 Cyfarfod Blynyddol a chyfarfod Cangen Clwyd SLCC 03/03/20 Neuadd y Dref, Dinbych a **Chyd-gynhadledd SLCC ac Un Llais Cymru 20/05/20** Gwesty Parc Dewi Sant, Ewloe.

PENDERFYNWYD cymeradwyo bod y Clerc yn mynd i'r ddau ddigwyddiad.

641 CYNLLUNIO www.sirddinbych.gov.uk/cynllunio

641.1 Cais 20/2019/0962 a gyflwynwyd gan Pure Residential & Commercial Ltd – Amrywio amod rhif 2 caniatâd cynllunio cyfeirnod 20/2016/1137 i ddiwygio tai math E [plotiau 25,28,37,38,41,42,43,46 a 47] a math F [plotiau 35,36,39,40 a 48] a diwygio trefniant plotiau 48 i 55 – Tir i'r gorllewin o Ffordd Wreccsam, Llanfair DC **PENDERFYNWYD** hysbysu'r Adran Gynlluno nad oedd unrhyw wrthwynebiadau cyn bellad nad yw'r diwygiadau arfaethedig yn effeithio ar drigolion cyfredol yn yr ardal. Mae'r newidiadau fel y'u dangosir yn ymddangos i fod yn welliant cyffredinol.

641.2 Cais 20/2019/0855 a gyflwynwyd gan Mr G Turner – Adeiladu estyniad i du ôl yr annedd yn 2 Tŷ Capel, Graigadwywynt [cynlluniau diwygiedig]. Derbyniwyd y cais hwn rhwng cyfarfodydd a rhannodd y Clerc y manylion gyda'r Cynghorwyr. Gan nad oedd unrhyw sylwadau na gwrthwynebiadau anfonodd ymateb i'r Adran Gynllunio yn unol â hynny. **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r gweithredu gan y Clerc.

641.3 Cais 20/2019/1097 am Dystysgrif Cyfreithlondeb defnydd cyfredol adeilad fel annedd a gyflwynwyd gan Mr a Mrs S Williams – Fron Bach, Graigfechan.

PENDERFYNWYD hysbysu'r Adran Gynllunio bod dau Gynghorydd wedi cadarnhau, hyd eithaf eu gwybodaeth, fod preswylwyr wedi bod yn yr annedd ers 2008.

641.4 Cais 20/2019/1063 a gyflwynwyd gan yr Eglwys yng Nghymru [Esbogaeth Llanellwyl] – Gwaredu derwen yn Ardal Gadwraeth Llanfair DC – Y Ficerdy, Ffordd Wreccsam, Llanfair DC **PENDERFYNWYD** yn sgîl barn yr arbenigwr coedwriaeth ynghylch cyflwr y goeden yn dirywio, nad oedd gan yr aelodau unrhyw wrthwynebiad i'w waredu. Serch hynny, mae'r Cyngor Cymuned yn dymuno annog plannu yn lle coed sy'n cael eu torri lle bynnag y bo'n bosibl.

641.5 Erw Fair, Llanfair DC Trafoddodd y Cynghorwyr y sefyllfa gyfredol yn yr eiddo hwn. Yn flaenorol bu problem ynghylch honiad bod carafan sefydlog wedi'i gosod yno. Roedd Cyngor Sir Ddinbych wedi dilyn camau gorfodi, nad oedd wedi datrys y sefylla, a chytunwyd i gadw llygad ar y sefyllfa. Hysbyswyd yr aelodau bod tair carafan deithiol yn cael eu cadw ar y safle yn awr, yn ogystal â'r garafan sefydlog, nwyddau a chelfi amrywiol, cerbydau a threlars wedi'u gadael ac unedau storio. Cytunodd y cyfarfod bod y safle'n yn amharu'n gynyddol ar amwynder gweledol yr ardal a chytunwyd y dylai'r Clerc ysgrifennu at Swyddog Gorfodaeth Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych i ofyn iddo adolygu'r sefyllfa a gwneud argymhelliad i'r Cyngor Cymuned ynghylch yr hyn y gellir ei wneud i adfer y sefyllfa.

642 PRIFFYRDD A'R AMGYLCHEDD Ystyriodd yr aelodau'r materion a ganlyn:

642.1 Gwyo Llwybr Cyhoeddus Rhif 2 – Gorsaf Eyarth, Llanfair DC

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r gweithredu – ni fu unrhyw wrthwynebiad i'r Gorchymyn a wnaed gan y Cyngor Sir i wyro'r llwybr fel y dynodwyd yn y Gorchymyn a'r map cysylltiedig.

642.2 Cyfathrebu gwybodaeth i drigolion ynghylch cau priffyrdd a llwybrau troed

Roedd nifer o gynlluniau'n cael eu datblygu ar yr un pryd gan nifer o wahanol gontractwyr dros sawl mis ym mhentref Llanfair a'r cyffiniau, gan achosi problemau a chau ffyrdd. Er bod hysbysiadau wedi'u llunio a'u harddangos, roedd oedi oherwydd y tywydd a materion cyfreithiol yn golygu nad oedd y contractwyr yn medru cadw at yr amserlen a bennwyd. Roedd gwaith ar y bibell nwy newydd ar fin dechrau, byddai ffordd Graigfechan yn cael ei chau a disgwylir rhagor o waith ar yr A525 ar gyfer cysylltiadau i'r datblygiad tai newydd. Mae'r oedi cyn agor yr ysgolnewydd a chydlynu cau ffyrdd ac ati wedi ychwanegol at y sefyllfa.

Crybwyllwyd y posibilrwydd o iawndal i drigolion oherwydd yr anghyfleustrau a'r newidiadau cyson yn y pentref yn ystod y tair blynedd ddiwethaf. Mae trigolion yn cwyno am y diffyg cydlynu gan nad oes gan unrhyw un reolaeth llwyr. Dywedodd yr Arweinydd y byddai'n gofyn am gyngor cyfreithiol ynghylch iawndal.

Cytunwyd trefnu Cyfarfod Cyhoeddus Agored gan y Cyngor Sir, dan gadeiryddiaeth yr Arweinydd, i'w gynnal yn Neuadd Eleanor, Llanfair DC ar nos Iau – y dyddiad i'w gadarnhau. Estyn gwahoddiad i drigolion, yr holl gontractwyr, cwmnïau cyfleustodau, adrannau'r Cyngor Sir a phartion eraill â diddordeb.

642.3 Llwybrau Cyhoeddus Dywedodd y Cynghorydd Osian Owen ei fod wedi canfod dwy giat wedi'u cloi ar lwybr cyhoeddus ac y byddai'n anfon manylion cyfeirnod grid [181517] er mwyn i'r Clerc holi Swyddog Llwybrau Troed Cyngor Sir Ddinbych am hyn.

RHAN 2 643 PENDERFYNWYD gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod oherwydd natur gyfrinachol yr eitemau a ganlyn:

644 MATERION ARIANNOL

644.1 Cyfrifon – Cyflwynwyd – Crynodeb Incwm a Gwariant, yn cynnwys y llyfr Derbyniadau a Thaliadau am y cyfnod 1 Ebrill i 31 Rhagfyr 2019.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r datganiadau.

644.2 Talu Cyfrifon / Anfonebau Dim.

644.3 Ceisiadau am Gymorth Ariannol – derbyniwyd gan:

Ambiwlans Awyr Cymru

OWL Cymru [Elusen Atal Troseddau]

Cwmni Theatr Bara Caws

Homestart Sir Ddinbych

PENDERFYNWYD gohirio'r mater tan y cyfarfod ar 10/02/20.

644.4 Penodi'r Archwilydd Mewnol PENDERFYNWYD penodi JDH Business Services Limited fel archwilydd mewnol y Cyngor Cymuned.

645 DYDDIADAU CYFARFODYDD Y DYFODOL

10/02/20 [Ysgol Llanfair, Siaradwr gwadd - Tara Dumas], 09/03/20 [Canolfan Genus]

20/04/20, 18/05/20, 15/06/20, 13/07/20, 14/09/20, 12/10/20, 09/11/20, 14/12/20
11/01/21, 08/02/21, 08/03/21 [lleoliadau i'w cadarnhau]

Gorffennodd y cyfarfod am 8.55pm.

_____ CADEIRYDD _____ DYDDIAD

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR DYFFRYN CLWYD COMMUNITY COUNCIL

www.llanfaircommunitycouncil.co.uk

Cofnodion cyfarfod cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd yn Ysgol Llanfair nos Lun, 10 Chwefror 2020 am 7.00 pm.

PRESENNOL – Y Cynghorwyr Jayne Mayers [Cadeirydd], Keith Mouldsdale [Is-gadeirydd], Bob Barton, Owen Evans, Tim Faire, Osian Owen, Ceri Ranson, Steve Whipp ac Eirwen Godden, Clerc.

HEFYD YN BRESENNOL - 2 aelod o'r cyhoedd, Tara Dumas, Rheolwr Gwastraff ac Ailgylchu Cyngor Sir Ddinbych.

YMDDIHEURIADAU Y Cynghorwyr David Baker, Wini Davies [cyfarfod arall] a'r Cynghorydd Sir Hugh H Evans OBE.

RHAN 1 - 646 DATGAN BUDDIANNAU Y Cynghorydd Keith Mouldsdale [Ymddiriedolwr Neuadd Bentref Llanfair DC].

647 COFNODION - PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Ionawr 2020 a'u llofnodi fel cofnodion cywir.

648 ADRODDIAD Y CLERC

648.1 Rali Clwb Moduron Dyffryn Clwyd 16-17/11/19 [626.3,637.4] Adroddwyd y cysylltwyd gydag ysgrifennydd y clwb moduro a gadarnhaodd bod nifer o geir wedi methu troed i'r chwith ar ôl Fferm Bryn Chwarae gan olygu eu bod wedi mynd y ffordd anghywir. Yn anffodus nid oedd y clwb yn ymwybodol o hyn tan ar ôl y digwyddiad. Os defnyddir y ffyrdd hyn eto bydd y clwb yn sicrhau un ai bod stiward neu saeth syml yn dangos y llwybr cywir. Pwysleisiwyd wrth y clwb er nad oedd llwybr y rali'n mynd heibio eiddo'n uniongyrchol, mae'r swm o'r cerbydau'n cario a gallai darfu ar bobl sy'n gweithio patrymau shifft. Gofynnwyd i'r clwb hysbysu mwy o gartrefi'n amgylchynu llwybr y rali, am y rheswm hwn, fel bod pawb yn ymwybodol o'r digwyddiad ymlaen llaw. Mae'r clwb wedi ymddiheuro'n ddiffuant i bawb y gwnaeth hyn darfu arnynt ar y noson a dymuna ddiolch iddynt am eu dealltwriaeth.

648.2 Erw Fair, Llanfair DC [641.5] Mae Swyddog Cynllunio a Chydymffurfio Cyngor Sir Ddinbych wedi cadarnhau y bydd yn cynnal archwiliad safle ac yn adrodd yn ôl maes o law.

648.3 Llwybrau cyhoeddus – giatiau wedi cloi [642.3] [a] Mae Swyddog Mynediad Cefn Gwlad Cyngor Sir Ddinbych wedi hysbysu y cynhaliwyd archwiliad. Mae giat wedi'i chloi ar Lwybr 75 heibio Fferm Tŷ Coch, yn gyfochrog gyda'r Shilff. Mae'r llwybr hwn yn lwybr troed ac mae camfa sy'n hwyluso mynediad ar droed wrth ochr y giât ar glo. Fodd bynnag, mae'r Cyngor Sir wedi derbyn cais am ffurflen gais i hawlio llwybr ceffylau ar hyd y llwybr hwn. Os cyflwynir cais o'r fath yna bydd y sefyllfa gyda'r giât ar glo'n cael ei hadolygu. Nodwyd.

[b] Mae'r Cyngor Cymuned wedi derbyn hysbysiadau am lwybr ceffylau [58] wedi'i rwystro hefyd, cyfeirnod grid SJ 14275 51554 rhwng Coed Talwrn a Bryn Aur. **PENDERFYNWYD** cyfeirio'r mater at Gyngor Sir Ddinbych.

648.4 Cyfathrebu gwybodaeth i drigolion ynghylch cau priffyrdd a llwybrau troed

[642.2] Atgoffwyd yr aelodau fod y Cyngor Cymuned wedi cytuno trefnu cyfarfod cyhoeddus agored, dan gadeiryddiaeth y Cynghorydd Sir Hugh H Evans OBE. Bwriedir gwahodd trigolion, yr holl gontractwyr, cwmnïau cyfleustodau, adrannau'r Cyngor Sir â phartion eraill cysylltiedig. Fodd bynnag, mae'r ffordd i ganol Llanfair wedi'i hailagor; mae'r gwaith draenio a gosod wyneb newydd ar ffordd Eyarth i Haymakers [Bron y Clwyd] wedi'i gwblhau; disgwylir i'r ysgol newydd agor yn dilyn gwyliau hanner tymor Chwefror. Yn y cyfamser mae Wynne Construction wedi cynghori bod angen cynnal arolwg camera o'r draen a gwblhawyd a fyddai'n golygu gosod goleuadau traffig ar yr A525 Ffordd Wreccsam. Adroddwyd bod y gwaith wedi'i gwblhau ar 06/02/20.

PENDERFYNWYD gwneud trefniadau i gynnal cyfarfod agored 6.30pm tan 7.30pm cyn cyfarfod cyffredin nesaf y Cyngor Cymuned i'w gynnal ar 09/03/20 yng Nghanolfan Genus, Llanrhyd. Gofynnwyd i'r Clerc wirio a fyddai'r Cynghorydd Hugh Evans ar gael i gadeirio'r cyfarfod. Awgrymwyd fod Aelodau'n cyflwyno cwestiynau i'r Clerc cyn y cyfarfod.

648.5 Grŵp Cynefin – Elusendai Elizabeth Owen [638.1] Roedd Pennaeth Tai'r Gymdeithas Dai wedi hysbysu ei bod wedi cysylltu gyda chymdeithasau tai eraill, yn cynnwys Gwasanaethau Tai Cyngor Sir Ddinbych, i drafod y posibilrwydd o drosglwyddo'r eiddo. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi cytuno i sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen yn cynnwys swyddogion o'r timau polisi tai a chynnal a chadw tai i gyfarfod rhywbryd ym mis Mawrth.

649 MATERION CYMUNEDOL

649.1 Siaradwr gwadd - Tara Dumas, Gwasanaethau Rheoli Gwastraff, Cyngor Sir Ddinbych Mae gan y sir un o'r cyfraddau ailgylchu gorau yng Nghymru ac mae trigolion wedi bod yn arwyddocaol yn y llwyddiant hwn <https://myrecyclingwales.org.uk>. Er gwaetha'r holl ymdrechion mae mwy na 5,000 tunnell o ddeunyddiau y gellid eu hailgylchu'n cael eu taflu ymaith trwy'r casgliadau gwastraff cyffredinol. Felly mae'r Cyngor Sir yn bwriadu lansio prosiect gwastraff newydd i gynyddu ailgylchu a lleihau gwastraff yn y sir ac mae'n dymuno gweithio gyda chymunedau i wynebu'r her hon. Bydd y targed a bennwyd gan Lywodraeth Cymru yn cynyddu o 64% i 70% erbyn 2024-25 a gyda'r contractau cyfredol yn dod i ben mae hyn yn her benodol i Sir Ddinbych. Bydd angen i'r Cyngor ailgylchu mwy a lleihau costau gwaredu diangenrhaid. Gellir gwneud hynny'n unig trwy newid y ffordd mae casglu gwastraff yn gweithio a thrwy newid y ffordd mae trigolion yn ailgylchu.

Bydd newidiadau arfaethedig i'r gwasanaeth ailgylchu yn golygu casglu eitemau ailgylchadwy fel papur, gwydr, caniau a phlastig yn wythnosol; casglu gwastraff bwyd yn wythnosol a chasgliad newydd fyddai'n derbyn dillad ac eitemau trydanol bach bob pythefnos. Gallai hyn fod trwy gyfrwng pedwar bocs ar droli neu un bin mawr gyda 3 i 6 adran. Bydd lleoliadau gwledig yn parhau i gael sachau ar gyfer rhai eitemau.

Diolchodd y Cadeirydd i Tara am ei chyflwyniad llawn gwybodaeth. Bydd erthygl yn cael ei hanfon at y Clerc i'w defnyddio gan olygydd Cronicl Dyffryn Clwyd.

649.2 Neuadd Eleanor, Llanfair DC Cysylltwyd gyda CADW ynghylch rhestru adeilad neuadd y pentref, sydd wedi mynd trwodd i'r ail rownd ar gyfer cyllid i adnewyddu'r ffenestri.

Cyflwynwyd cais i'r Cyngor Sir am gyllid symiau cymudol hefyd, ar gyfer polion a ffensio, a disgwylir ateb yn fuan.

649.3 Datblygiad tai newydd Llanfair DC Awgrymodd y Cyngorydd Steve Whipp ystyried cynhyrchu pecyn croeso'n cynnwys gwybodaeth leol i drigolion newydd.

650 GOHEBIAETH / ADRODDIADAU Cyflwynwyd –

650.1 Neges e-bost dyddiedig 17/01/20 Ymateb Un Llais Cymru – Ymgynghori ar Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau [Cymru] Mae'r Bil hwn yn cynrychioli deddfwriaeth arwyddocaol a sylweddol. Yn fras, mae Un Llais Cymru'n cefnogi:

- y bwriad i ymestyn hawliau llywodraeth leol i ddinasyddion tramor ar y sail eu bod yn drigolion cyfreithlon Cymru, beth bynnag fo'u cenedligrwydd
- y cynnig i ganiatáu i bobl ifanc 16 ac 17 oed fedru cofrestru i bleidleisio yn etholiadau llywodraeth leol Cymru
- yn gyffredinol safiad y Comisiwn Etholiadau y dylid cael system etholiadol gyffredin ar draws yr holl awdurdodau lleol i osgoi cymhlethdod a dryswch ymhlith pleidleiswyr ac na ddylai awdurdodau lleol fedru dewis eu system bleidleisio eu hunain
- y cynnig i newid y gylchred etholiadol etholiadau lleol o bedair blynedd i bum mlynedd
- y bwriad i sefydlu a chynnal cronfa ddata genedlaethol gwybodaeth gofrestru etholiadol
- y cynnig i ganiatáu i ddinesydd unrhyw wlad sefyll mewn etholiadau llywodraeth leol
- dulliau i'w gwneud yn haws i fod yn ymgeiswyr mewn etholiadau lleol
- ac yn croesawu'r darpariaethau ar gyfer y Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol a chyhoeddi canllawiau
- cymhwyster CiLCA fel safon y sector ond bod angen cyllido hyn
- hyrwyddo a chefnogi ymgysylltu democrataidd, cyfranogiad y cyhoedd a bod yn agored a thryloyw
- y dyletswydd i gyhoeddi cyfeiriadau swyddogol megis cyfeiriad y cyngor yn hytrach na chyfeiriad cartref – dylai'r dyletswydd hwn fod yn berthnasol i gynghorau tref a chymuned
- yr argymhelliad y dylai fod yn ofynnol i'r holl gynghorau cymuned gynhyrchu adroddiad blynyddol am eu gwaith [blaenoriaethau, gweithgareddau, cyflawniadau]
- hysbysiadau electronig a chaniatáu defnyddio mangreuedd trwyddedig
- pynciau hyfforddiant gorfodol
- cryfhau hunan asesu a hunan wella
- edrych ar fecanweithiau i gynghorau tref a chymuned weithio gyda'i gilydd ac annog cydweithredu.

Nododd yr aelodau'r sylwadau a wnaed.

650.2 Negeseuon e-bost dyddiedig 20/01/20 a 23/01/20 gan Gyngor Sir Ddinbych ynghylch Siarter rhwng Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned Sir Ddinbych a Chyngor Sir Ddinbych [cyfnod ymgynghori 20/01/20 – 27/03/20]

<https://countyconversation.denbighshire.gov.uk/survey/674> Dywedodd yr aelodau eu bod yn croesawu'r ddogfen a'r egwyddorion a'r gweithredoedd a nodwyd ynddi ac y byddent yn hapus i fabwysiadu'r Siarter.

650.3 Neges e-bost dyddiedig 29/01/20 ynghylch gwahoddiad i enwebu cynrychiolydd o blith Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned Sir Ddinbych i fod yn aelod o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych PENDERFYNWYD cyfeirio'r mater at Un Llais Cymru i gael arweiniad ynghylch y broses enwebu, eglurhad ynghylch y rôl a disgrifiad swydd.

650.4 Neges e-bost dyddiedig 03/02/20 gan Gyngor Sir Ddinbych ynghylch Dathliadau Pen-blwydd 75 Diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop Nodwyd bod y Cyngor Sir yn bwriadu trefnu Gwasanaeth Sirol ddydd Sul, 10 Mai.

651 Adborth / Adroddiadau o Gynadleddau / Hyfforddiant / Cyfarfodydd

651.1 Digwyddiad yr Arolygiaeth Gynllunio / Cymorth Cynllunio Cymru 24/01/20 yn Venue Cymru Llandudno – adroddodd y Cynghorydd Bob Barton y cafwyd cyfres o gyflwyniadau da; gofynnodd am gopiâu'r cyflwyniadau a bydd yn eu hanfon at gynghorwyr maes o law. Nodwyd mai dim ond traean o apeliadau cynllunio sy'n llwyddiannus.

651.2 Pwyllgor Ardal Conwy a Sir Ddinbych Un Llais Cymru 29/01/20 yn Neuadd y Dref Dinbych – adroddodd y Cynghorydd Bob Barton fod y cyfarfod wedi cwmpasu nifer o eitemau, yn cynnwys ymateb Un Llais Cymru i Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau [Cymru]; newidiadau i grantiau'r Loteri; beth mae angen i gynghorau ei gynnwys yn eu gwefannau; disgwylir canllawiau'r Comisiynydd Iaith ynghylch Cynlluniau Iaith Gymraeg yn fuan, ac ati.

651.3 Cyfarfod gyda Mr Darren Millar AC 31/01/20 [Y Cadeirydd a'r Clerc] Roedd yr eitemau a drafodwyd yn cynnwys y datblygiadau adeiladu diweddar yn Llanfair a arweiniodd at anghyfleustra cau ffyrdd i'r trigolion; Cynllun Cymdogaeth a gweithredoedd cysylltiedig y Cyngor; llwybrau o Lanfair i Ruthun ac o Lanfair i Lysfasi; dyfodol Elusendai Elizabeth Owen; arwyddion cyfyngiadau cyflymder – Llanfair; dyfodol y gwasanaeth parcio a theithio yn Ysbyty Glan Clwyd a phroblemau gyda raliâu ceir. Dywedodd Mr Millar y byddai'n fodlon ymchwilio i grantiau posibl ar gyfer llwybrau diogelach; opsiynau ar gyfer dyfodol yr elusendai a pharhau i ymygyrchu i'r gwasanaeth parcio a theithio barhau y tu hwnt i fis Mawrth 2020. Dywedodd hefyd y byddai'n hapus cyfrannu erthygl wleidyddol yn chwarterol i Gronicl Dyffryn Clwyd.

652 CYNLLUNIO www.sirddinbych.gov.uk/cynllunio

652.1 Nid oedd unrhyw geisiadau i'w hystyried.

652.2 Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych [CDLI 2018-2033 – Ymgynghori ar y Safleoedd Ymgeisiol Ychwanegol tan 13.03.20 www.sirddinbych.gov.uk/CDLI Nodwyd nad oedd unrhyw Safleoedd Ymgeisiol ychwanegol yn ardal Cyngor Cymuned Llanfair DC.

653 PRIFFYRDD A'R AMGYLCHEDD Ystyriodd yr aelodau'r materion a ganlyn:

653.1 Problemau llifogydd Disgwyl am ymateb gan Reolwr Risg Llifogydd Cyngor Sir Ddinbych ynghylch gwelliannau ger Gwesty Gorsaf Eyarth, Llanfair. Adroddwyd bod Rheolwr Fferm Llysfasi wedi ymweld â'r ardal o gwmpas Gorsaf Eyarth ar 10/02/20 gan gadarnhau nad oedd unrhyw le i'r dŵr ar y ffordd ger Eyarth ddraenio ymaith. Ymddengys fod gan Gyngor Sir Ddinbych lori yno ddiwedd yr wythnos flaenorol gyda'r nod o glirio'r gwlliau ond canfu nad oedd unrhyw rai yno. Yng nghyswllt y llwybr troed, mae Llysfasi wedi dechrau ar y gwaith o roi cerrig yn y ddwy agoriad giât a bydd yn gosod ffens ar hyd y llwybr maes o law. Ni fydd y cerrig yn cynorthwyo gyda'r sefyllfa ddraenio, ond mae'n fwy na bodlon cyfarfod rhywun ar y safle i drafod cynlluniau eraill. Yn y cyfamser byddant yn sicrhau bod unrhyw aredig yn y dyfodol yn ystyried y llwybr. **PENDERFYNWYD** gwneud trefniadau i'r grŵp llywio gyfarfod Rheolwr Risg Llifogydd Cyngor Sir Ddinbych i ganfod beth yw cynigion y Cyngor Sir.

653.2 Ymgysylltu cyhoeddus ynghylch yr Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol – Neges e-bost dyddiedig 05/02/20 gan Gyngor Sir Ddinbych – dyddiad cau'r ymgynghoriad

25/02/20 Tynnodd y Cynghorydd Steve Whipp sylw at gyfarfod cyhoeddus i'w gynnal ar 25/02/20, 6-8pm, yn Neuadd y Sir, Rhuthun. **PENDERFYNWYD** gofyn i Gyngor Sir Ddinbych ymestyn y dyddiad derbyn ymatebion [mae'r Siarter rhwng y ddwy haen lywodraeth leol yn awgrymu isafswm o 8 wythnos ar gyfer ymgynghori – paragraff 4.2.2].

RHAN 2 654 PENDERFYNWYD gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod oherwydd natur gyfrinachol yr eitemau a ganlyn:

655 MATERION ARIANNOL

655.1 Gwelliannau i wefan y Cyngor er mwyn cydymffurfio gyda rheoliadau hygyrchedd Adroddodd y Clerc ei bod wedi gofyn i bump cwmni lleol am brisiau ond dim ond dau ddyfynbris a dderbyniwyd. Nododd hefyd bod cwmni wedi'i gymeradwyo gan SLCC (Cymdeithas Clercod Cyngorau Lleol), Aubergine, sy'n medru darparu pecyn gwefan am gost yn dechrau o £700 + TAW. **PENDERFYNWYD** derbyn dyfynbris Doodle IT o £700 [mae lletya'r wefan a chymorth parhaus yn ychwanegol].

655.2 Adolygu Rheolau Sefydlog y Cyngor gan gyfeirio'n benodol at ddiwygio cymalau 18.3 a 24.1 a dileu 24.6, yn cynnwys diwygiadau i Reoliadau Ariannol y Cyngor, os oes angen [Dosbarthwyd y copiâu cyfredol i'r aelodau gyda'r agenda a'r papurau eraill]. **PENDERFYNWYD** gohirio'r mater i gyfarfod yn y dyfodol.

655.3 Gwaith trwsio/adnewyddu'r Gofeb Rhyfel, Llanfair DC [594.3, 605.4, 613.3, 637.1] Cyflwynwyd er mwyn cael cymeradwyaeth – dogfennau tendr drafft sef yr atodlen, hysbysiad cyhoeddus – gwahoddiad i dendro a llythyr tendr i gontractwyr. Nodwyd fod Mr John Pugh, Syrfeiw'r Siartredig, wedi llunio amserlen ar gyfer y gwaith. Ni dderbyniwyd unrhyw ymateb ynghylch y cynigion arfaethedig hyd yma gan yr Ymddiriedolaeth Cofebau Rhyfel na'r Comisiwn Beddau Rhyfel.

PENDERFYNWYD ystyried yr holl ddogfennau drafft fel gwaith sy'n cael ei ddatblygu, a gymeradwywyd gan yr aelodau mewn egwyddor.

644.4 655.4 Ceisiadau am Gymorth Ariannol – derbyniwyd gan:

Ambiwlans Awyr Cymru

OWL Cymru [Elusen Atal Troseddau]

Cwmni Theatr Bara Caws

Homestart Sir Ddinbych

PENDERFYNWYD dyfarnu grantiau fel a ganlyn [£120 i'w drosglwyddo o Weithgareddau Cymunedol i'r gyllideb Grantiau a Chyfraniadau] –

£200 Owl Cymru [Elusen Atal Troseddau – rhybuddion/cynlluniau gwarchod cymdogaeth – diogelwch ac atal troseddau]

£200 Homestart Sir Ddinbych [gwasanaethau cymorth i blant a theuluoedd]

655.5 Talu Cyfrifon / Anfonebau PENDERFYNWYD gwneud taliadau fel a ganlyn:

£298.41 AVOW [taliad pro rata Cynghorydd i'r Is-gadeirydd o £291.66 [ynghyd â ffi cyflogres £6.75] am y cyfnod hyd at 31/03/20.

656 DYDDIADAU CYFARFODYDD Y DYFODOL

09/03/20 [Canolfan Genus]

20/04/20, 18/05/20, 15/06/20, 13/07/20, 14/09/20, 12/10/20, 09/11/20, 14/12/20
11/01/21, 08/02/21, 08/03/21 [lleoliadau i'w cadarnhau]

Gorffennodd y cyfarfod am 9.09pm

_____ CADEIRYDD _____ DYDDIAD

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR DYFFRYN CLWYD COMMUNITY COUNCIL
www.llanfaircommunitycouncil.co.uk

Cofnodion Cyfarfod Agored a chyfarfod Cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Genus, Llanrhydd, LL15 2UP nos Lun, 9 Mawrth 2020, yn dechrau am 6.30 pm.

PRESENNOL – Y Cynghorwyr Jayne Mayers [Cadeirydd], Keith Mouldsdale [Is-gadeirydd], Bob Barton, David Baker, Owen Evans, Tim Faire, Ceri Ranson, Steve Whipp ac Eirwen Godden, Clerc.

HEFYD YN BRESENNOL – 11 aelod o'r cyhoedd, y Cynghorydd Sir Hugh H Evans OBE ynghyd â Chynrychiolwyr o Gyngor Sir Ddinbych [Tim Towers, Rheolwr Risgiau ac Asedau a Tina Davenport, Rheolwr Gwaith Stryd]; Pure; Wales & West Utilities; a Dŵr Cymru. Nid oedd cynrychiolydd o gwmni Scottish Power yn bresennol.

YMDDIHEURIADAU – Y Cynghorwyr Wini Davies [profedigaeth teuluol] ac Osian Owen [gofal plant] a Joseph Griffiths, Swyddog Moderneiddio Addysg Cyngor Sir Ddinbych [salwch].

658 CYFARFOD AGORED

[Cadeiriwyd gan y Cynghorydd Sir Hugh H Evans OBE] 6.30 – 7.30 pm

658.1 EFFAITH DATBLYGIADAU YN LLANFAIR DC Croesawodd y Cynghorydd Sir Hugh Evans bawb i'r cyfarfod agored a drefnwyd i drafod pwyntiau a godwyd a'r rhwystrdigaethau a'r pryderon gan drigolion ynghylch sut roedd yn anodd symud yn y pentref oherwydd yr holl waith datblygu. Roedd y trigolion yn teimlo wedi'u hynysu, yn pryderu am y diffyg ymgynghori gyda nhw a rhwng y gwahanol gontractwyr ar y safle. Roeddent wedi gorfod ymdopi gyda llawer iawn o darfu yn ystod y misoedd diwethaf. Pwrpas y cyfarfod oedd ystyried pa wersi a ddysgwyd a beth y gellid ei wneud yn wahanol yn y dyfodol.

Gwnaeth rhoi sawl caniatâd cynllunio ar yr un pryd ddatgelu gwendidau a ffaeleddau. Er enghraifft, cau ffyrdd dan gais Pure, contractwyr yr ysgol newydd, Parry Development, agor a chau tyllau'n y ffyrdd yn gyson ac yn y blaen – ac nid oedd yn ymddangos bod unrhyw un yn cydlynu neu'n rheoli'r holl waith. Roedd llawer o gontractwyr yn defnyddio is-gontractwyr nad oedd ganddynt reolaeth uniongyrchol. Roedd yr arwyddion a'r hysbysiadau'n annigonol, roedd yn teimlo fel petai Amberon yno bob diwrnod. Roedd y gwaith carthffosiaeth i'r ysgol newydd wedi achosi cau ffyrdd, cafwyd damwain gwthio, problemau gyda'r draeniau, torri'r cyflenwad trydan a tharfu ar y cyflenwad dŵr. Roedd yr effaith ar drigolion yn amrywio o anghyfleustra i faterion diogelwch, ynysu ac ailgyfeirio staff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol at bobl angen cymorth. Pobl yn wynebu arwyddion a ddim yn gwybod lle i fynd nesaf. Nowyd y byddai'n ddefnyddiol petai'r contractwyr yn llunio datganiad dull cyflawni'r gwaith gyda'i gilydd, ac yn gweld gwrthdaro neu gorgyffwrdd potensial.

Gwyrriadau traffig yn creu problemau. Gwnaeth yr arwyddion gwyrriadau i Bwllglas a Rhuthun greu trafferthion, gyda gyrwyr yn gorfod ymdrin â thyllau'n y ffordd a llifogydd i lawr

y lôn heibio Gwesty Gorsaf Eyrarth. Ni roddwyd unrhyw ystyriaeth i ddigwyddiadau blynyddol yn cynnwys gemau peldroed ar y caeau i'w cloddio ar gyfer y bibell nwy – bydd dwy bibell nwy prif gyflenwad yn cael eu gosod a fydd yn rhoi cyfle i'r holl bentref gael nwy i'w cartrefi'n y dyfodol. Roedd y trigolion o'r farn fod angen i'r cynlluniau fod yn hysbys i'r gymuned ac eisiau gwybod pwy sy'n gyfrifol am ddweud wrthyn nhw. Cadarnhaodd Swyddog Risgiau ac Asedau Cyngor Sir Ddinbych mai swyddogaeth yr awdurdod lleol a'r datblygwyr yw gwneud hyn. Mae Wales & West Utilities eisoes wedi drafftio llythyr i'w roi i bawb yn y pentref a byddant yn curio ar ddrysau hefyd wrth iddyn nhw symud ymlaen. Pwysleiswyd fod y trigolion angen gwybodaeth fanwl a mynegwyd pryder eu bod yn wynebu mwy o anhrefn yn ystod y misoedd nesaf. Awgrymwyd y gallai'r holl lythyrau gan wahanol gwmnïau gael eu postio mewn un amlen.

Holwyd am y posibilrwydd o wneud cais am orchymyn traffig dros dro i gyflwyno terfyn cyflymder dros dro ar hyd lôn Gorsaf Eyrarth. Roedd angen arwyddion rhybudd llifogydd hefyd, yn cynnwys arwydd nad yw'r lôn yn addas ar gyfer mathau penodol o gerbydau. Mae'r llifogydd yn effeithio ar fusnes y gwesty gwely a brechwast ac yn anghyfleus i'r gwsteion yn ogystal â cherddwyr. Cwestiwn arall a godwyd oedd a fyddai'r gwasanaethau brys yn gwybod sut i gyrraedd eiddo pan fo ffyrdd ar gau. Byddai Wales & West Utilities, er enghraifft, yn ceisio cynnal mynediad mewn argyfwng bob amser.

Roedd un o drigolion y pentref o'r farn mai ei gartref oedd yr eiddo wedi'i effeithio fwyaf, yn gorfod ymdopi gyda goleuadau traffig y tu allan i'w gartref. Roedd wedi gorfod aros ymaith am 10 wythnos oherwydd y straen a'r perygl i'w iechyd. Roedd hefyd o'r farn fod Pure yn torri'r cytundeb llygredd – is-gontractwyr yn gwneud sŵn ar y safle mor fuan â 7.30 am. Dywedodd cynrychiolydd Pure y byddent yn monitro beth mae contractwyr yn ei wneud; cysylltwyd ac roedd yn cydnabod fod preswylwyr yn flin iawn.

Gellid dadlau bod achos o blaid yr awdurdod lleol yn cyflogi cydlynnydd gan fod ganddo ddyletswydd yn unol â deddfwriaeth, ond mae gwahanol gyrff yn ymwneud â'r datblygu. Roedd y Cyngor Cymuned wedi derbyn nifer o gwestiynau i'w gofyn yn y cyfarfod ynghylch archwilio draeniau, llifoleuadau yn yr ysgol newydd, mapiau gwasanaethau tanddaearol ac ati. Mae gan Wynne Contractors fapiau ac roedd Wales & West Utilities wedi gofyn am gynlluniau gosod gan bawb. Fodd bynnag, mae damweiniau'n digwydd – bydd Dŵr Cymru'n trwsio'r pibellau ac yn hawlio ad-daliad gan gontractwyr eraill am eu camgymeriadau. Cafwyd cais am orchymyn 'dim troi i'r dde' parhaol ar Ffordd Ffynnogion.

Wrth grynhoi pwysleisiodd y Cynghorydd Evans mae'n rhaid bod ffordd i gydlynu'r cyfathrebu i atal lledaenu camwybodaeth. Mae angen bod yn fwy rhagweithiol, a gweithredu dilynol i ddigwydd ynghylch y tyllau'n y ffordd, goryrru, llifogydd, arwyddion a symud goleuadau traffig oddi wrth du blaen tai. Darperir adborth yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Cymuned ar 20/04/20. Diolchodd i bawb am eu barn gonest ac i'r cwmnïau cyfleustodau am ddod i'r cyfarfod.

CYFARFOD CYFFREDIN Y CYNGOR CYMUNED

[Cadeiriwyd gan y Cynghorydd Jayne Mayers] 7.30pm ymlaen

RHAN 1 - 659 DATGAN BUDDIANNAU Y Cynghorwyr David Baker [Eglwys Llanfair] a Keith Mouldsdaie [Ymddiriedolwr Neuadd Bentref Llanfair DC]

660 COFNODION - PENDERFYNWYD Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Chwefror 2020 a'u llofnodi fel cofnod cywir, yn ddarostyngedig i ddiwygio 648.3, 650.1 a 651.1.

661 ADRODDIAD Y CLERC

661.1 Llwybrau Cyhoeddus – giatiau wedi cloi [642.3, 648.3] Roedd y Cyngor Cymuned wedi derbyn adroddiadau am llwybr ceffylau [58] wedi'i rwystro, cyfeirnod grid SJ 14275 51554, rhwng Coed Talwrn a Bryn Aur. Cyfeiriwyd y mater at Gyngor Sir Ddinbych. Dywedodd y Rheolwr Gwybodaeth Priffyrdd fod gwaith wedi'i gynnal ar sawl achlysur i glirio'r llwybr yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn cynnwys tîm gyda pheiriannau strimio y llynedd a phrynu strised 200m o dir wrth ymyl y llwybr ceffylau gan un perchennog lle'r oedd y llwybr wedi mynd yn aneconomaidd i'w drwsio at ddefnydd ceffylau fel y gellid llunio llwybr newydd. Bydd y mater cyfredol yn cael ei ymchwilio'n drwyadl; ymddengys bod hyn yn ymwneud â nifer o dirfeddianwyr nad ydynt wedi cyflawni eu dyletswydd i gynnal a chadw giatiau ar eu tir y mae'r llwybr ceffylau'n mynd trwyddo'n ddigonol i sicrhau nad ydynt yn anodd pasio trwyddynt. Mae'r llwybr ceffylau yma'n ffurfio rhan o lwybr cenedlaethol sy'n cael ei hyrwyddo gan Gymdeithas Ceffylau Prydain ond nid oes gan yr awdurdod lleol yr adnoddau i arolygu'r llwybr cyfan yn rheolaidd, ac roedd hynny'n dderbyniol gan Gymdeithas Ceffylau Prydain pan awgrymwyd y syniad yn wreiddiol. Serch hynny, gwneir ymdrechion i ddatrys y broblem rhwystro yn ddioed gyda pherchnogion tir yn trwsio neu'n adnewyddu giatiau.

661.2 Grŵp Cynefin – Elusendai Elizabeth Owen [638.1, 648.5] Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi cytuno i sefydlu tasglu grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cynnwys swyddogion o'r adrannau Polisi Tai a Chynnal a Chadw Tai i gyfarfod rhywbryd ym mis Mawrth. Gofynnodd yr aelodau am fanylion cylch gwaith y grŵp gorchwyl a gorffen. Mae dwy gymdeithas dai, Cymdeithas Tai Gogledd Cymru a Chymdeithas Tai Clwyd Alyn, wedi cadarnhau nad oes ganddyn nhw ddiddordeb mewn cymryd cyfrifoldeb am yr eiddo. Byddai angen sicrhau Grant Tai Cymdeithasol i gynnal unrhyw waith ond nid yw swyddogion Cyngor Sir Ddinbych yn hyderus y byddai hyn ar gael. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n adolygu grantiau tai cymdeithasol a dosbarthiad cyllid ar hyn o bryd. Ymddengys bod y dewisiadau'n gyfyngedig. Ar y llaw arall, mae Cynllun Corfforaethol Cyngor Sir Ddinbych yn cynnwys dod â chartrefi gwag yn ôl i'w defnyddio ar gyfer lletya.

PENDERFYNWYD [a] cynnal cyfarfod arbennig i drafod y mater; [b] gwahodd Geoff Davies, Swyddog Arweiniol Cyngor Sir Ddinbych – Tai Cymunedol, Cymunedau a Chwsmeriaid, Noela Jones, Pennaeth Tai Grŵp Cynefin a chynrychiolydd o'r Comisiwn Elusennau i fod yn bresennol.

661.3 Enwebiad ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus [650.3] Cyfeiriwyd y mater am y broses enwebu at Un Llais Cymru i gael arweiniad. Mae'r mater yn cael ei gyfeirio at Brif Weithredwr Cyngor Sir Ddinbych i gael eglurhad manwl. Disgwylir am ateb ond mae'n ymddangos y byddai Cyngor Sir Ddinbych yn hapus i Un Llais Cymru ymdrin â'r broses ddethol.

661.4 Materion Llifogydd [653.1] Adroddwyd – disgwylir ymateb gan Reolwr Risgiau Llifogydd Cyngor Sir Ddinbych ynghylch cais am gyfarfod gyda'r grŵp llywio i drafod cynigion yr awdurdod lleol ar gyfer yr ardal leol. Anfonwyd neges atgoffa. Crybwyllwyd cynnwys rhanddeiliaid yn y broses o lunio cynlluniau cymunedol ymateb i argyfwng ac y dylid rhoi hyn ar agenda'r Cyngor Cymuned yn y dyfodol. Roedd problemau sylweddol yn

parhau heb eu datrys, yn y cyfamser, ar y ffordd heibio Gorsaf Eyarth sydd wedi creu llyn 2 fetr o ddyfnder yn dilyn y tywydd gwlyb diweddar.

661.5 Parcio yn y gilfan ger Llysfasi a goryrru [603.4,614.2,630.6, 637.3] [a]

Adroddwyd fod Rheolwr Cludiant Teithwyr Cyngor Sir Ddinbych wedi anfon e-bost at Voel Coaches yn gofyn am sicrwydd y bydd y bus yn cael ei barcio ymhellach ar hyd y gilfan yn Llysfasi fel bod pobl yn medru defnyddio'r blwch postio.

[b] Cyflwynwyd – llythyr a dderbyniwyd ar 04/03/20 gan breswlydd o Graigfechan yn tynnu sylw at y risgiau cynyddol a'r problemau dyddiol sy'n wynebu cerddwyr sy'n cerdded yn y pentref heb unrhyw balmentydd oherwydd gyrwyr sy'n goryrru a'r rhai nad ydynt yn arafu'n ddigonol. Yn aml mae'r arwyddion 'arafwch' a ddefnyddir ar hyn o bryd yn cael eu hanwybyddu'n llwyr ac yn ymddangos yn gwbl aneffeithiol.

PENDERFYNWYD [a] anfon copi o Adroddiad Dewisiadau Arafu Traffig Graigfechan a baratowyd gan Gyngor Sir Ddinbych ym mis Gorffennaf 2016 [HT/TT/TS/636] at y preswlydd gyda gwahoddiad i ymuno â'r Grŵp Gwylio Cyflymder lleol.

[b] bod y Clerc yn ysgrifennu at Ben Wilcox-Jones, Uwch Beiriannydd Cyngor Sir Ddinbych – Diogelwch Ffyrdd a Thrafnidiaeth Gynaliadwy, yn nodi nad yw'r arwyddion sy'n cael eu gweithredu gan symudiad ceir yn ymddangos fel petaent wedi atal goryrru trwy'r pentref a holi beth arall y gellir ei wneud i wella'r sefyllfa; p'un ai y gellid cynnal arolwg arall.

662 MATERION CYMUNEDOL

662.1 Blaenoriaethau ar gyfer y Cynllun Cymdogaeth gan gyfeirio'n benodol at ddefnydd posibl safle'r hen ysgol yn Llanfair DC yn y dyfodol

Cyflwynwyd – rhan o'r Cynllun Cymdogaeth yn nodi cynigion prosiectau cymunedol posibl ac adroddiad ar ddefnydd potensial safle'r hen ysgol yn y dyfodol. Cyfeiriwyd at y posibilrwydd o gysylltu'r safle gyda'r elusendai, tai fforddiadwy, cartrefi gwarchodol, offer chwarae ac ati. Mae angen i unrhyw gynigion ar gyfer y safle gyd-fynd gyda chynlluniau eraill yn yr ardal; gallai ymchwilio i'r hyn y gall y cyngor cymuned ei wneud gymryd amser, ynghyd â chynnig i ddefnyddio proses ymgysylltu gyda'r gymuned. Mynegwyd pryder y gallai'r safle ddiodef fandaliaeth oni bai y cyflwynir camau i atal hynny.

Cynghorodd y Clerc, petai'r Cyngor Cymuned yn penderfynu ymchwilio i'r posibilrwydd o gymryd cyfrifoldeb am y safle, y gweithredu gofynnol fyddai – arfarniad llawn, opsiynau ariannol, cynllun busnes, cael cyngor priodol cyn gwneud penderfyniadau ynghylch darpariaeth gwasanaethau newydd a deall y sail statudol ar gyfer darparu'r rhain. Mae angen i Gynghorau fod yn arloesol wrth ymdrin â materion cymunedol, ond rhaid dilyn mesurau rheoli risg priodol bob amser a gweithredu yn unol â'r fframwaith cyfreithiol. Gofynnwyd i Gyngor Sir Ddinbych ddarparu gwybodaeth am y broses trosglwyddo asedau i'r gymuned. Disgwyl am ateb. **PENDERFYNWYD** gwneud trefniadau i grŵp bach gyfarfod gyda Rheolwr Asedau Cyngor Sir Ddinbych i drafod yn gyffredinol ac ystyried y posibilrwydd o wahanu adeilad yr hen ysgol oddi wrth y cae ar y safle.

662.2 Neuadd Eleanor, Llanfair DC [649.2] – Cais am Gronfeydd Cymudol – Mae

Cyngor Sir Ddinbych wedi gofyn am adborth y Cyngor Cymuned ynghylch y cais erbyn 27/03/20. **PENDERFYNWYD** – bod y Cyngor Cymuned yn cefnogi'r cais yn llwyr.

663 GOHEBIAETH / ADRODDIADAU Cyflwynwyd –

663.1 Neges e-bost dyddiedig 19/02/20 gan Un Llais Cymru ynghylch cyfleoedd cyllido ar gyfer cynghorau tref a chymuned i'w gwario ar brosiectau twf gwyrdd – **Rhaglen Twf Gwyrdd Cadwch Gymru'n Daclus**. Nodwyd.

663.2 Neges e-bost dyddiedig 19/02/20 gan Dai Sir Ddinbych ynghylch Gwobrau Tenantiaid Nodwyd. Dywedodd y Cyngorydd Bob Barton ei fod yn dymuno mynd i'r digwyddiad ym mwyty 1891 yn y Rhyl ar 20/05/20.

663.3 Neges e-bost dyddiedig 20/02/20 gan Gyngor Sir Ddinbych ynghylch Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yng Nghymru – rhaglen gyllido un tro'n unig yn canolbwyntio ar gydnherthedd ieuenctid
– cyswllt joshua.coles-riley@tnlcommunityfund.org.uk Nodwyd.

663.4 Neges e-bost dyddiedig 21/02/20 gan Un Llais Cymru ynghylch Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2020 - 2021 [Fersiwn derfynol – Cyngorau Tref a Chymuned, tudalennau 42-50 ac Adroddiad Atodol ynghylch Ad-dalu Costau Gofal]. Yn gryno, mae taliadau i gynghorwyr yn 2020/21 yn cynnwys taliad gorfodol o £150 i bob aelod [oni bai eu bod yn cynghori nad ydynt am ei dderbyn]; taliadau o hyd at £500 yr un i uchafswm o bump aelod i gydnabod cyfrifoldebau penodol; digolledu am golled ariannol am fynychu dyletswyddau cymeradwy; ad-dalu costau gofal; talu hyd at £1,500 i'r maer neu gadeirydd y cyngor; hyd at £500 i'r dirprwy faer neu is-gadeirydd ac ad-dalu costau teithio a chostau cynhaliaeth. Mae'n ofynnol i gynghorau gyhoeddi manylion yr holl daliadau i aelodau unigol ym mhob blwyddyn ariannol. Rhaid i'r Cyngor llawn gymeradwyo'r holl daliadau. Mynegodd y Cyngorydd Barton fod y canllawiau penodol ynghylch taliadau pro rata yn aneglur.

PENDERFYNWYD y bydd y Cyngor yn gwneud y taliadau a ganlyn yn 2020-2021 – £150 i bob aelod [gorfodol], costau gofal [gorfodol os yn gymwys], £1,500 i'r cadeirydd, £500 i'r is-gadeirydd, yn cynnwys digolledu am golled ariannol, costau teithio a chostau cynhaliaeth dros nos lle bo'n berthnasol.

663.5 Llythyr dyddiedig 25/02/20 gan Urdd Gobaith Cymru ynghylch apêl am wirfoddolwyr i stiwardio yn yr Eisteddfod 25-30/05/20. Bydd eitem yn cael ei chyhoeddi yn y Dyffryn Clwyd Cronicl nesaf i godi ymwybyddiaeth.

664 Adborth/Adroddiadau ynghylch Cynadleddau/Hyfforddiant/Cyfarfodydd

664.1 Cyfarfod Cangen Clwyd SLCC 03/03/20 a fynychwyd gan y Clerc. Roedd y prif bynciau'n cynnwys cyflwyniad gan Glerc Cyngor Tref Dinbych ar y trafodaethau trosglwyddo ased neuadd y dref gyda Chyngor Sir Ddinbych; nodi'r trefniadau archwilio newydd o 2020/21 ymlaen; digwyddiadau a gweminarau'n y dyfodol. Cymeradwyodd yr aelodau fod y Clerc yn mynd i'r digwyddiad ar y cyd rhwng Un Llais Cymru a SLCC yn Ewloe ar 20/05/20 [£80 + TAW]; hefyd y Cyngorydd Barton a nododd y byddai'n gofyn i gynghorau cymuned eraill y mae'n aelod ohonynt i gyfrannu tuag at gost ei bresenoldeb yn y digwyddiad.

665 CYNLLUNIO www.denbighshire.gov.uk/planning

665.1 Cais 20/2020/0120 a gyflwynwyd gan Pure yng nghyswllt tir i'r gorllewin o Ffordd Wrecsam, Llanfair DC – [a] Cais am Weithred Amrywio i ganiatáu trosglwyddo uned fforddiadwy o blot 23 i blot 21 a chynnydd yn y cyfraniad swm cymudol o £27,816.30 i £33,287.70 yng nghyswllt caniatâd cynllunio 20/2016/1137. Dosbarthwyd copi o ganllawiau Cyngor Sir Ddinbych yn nodi sut y gellir defnyddio'r cyllid i'r Cynghorwyr cyn y cyfarfod. **PENDERFYNWYD** cefnogi'r cais.

[b] Adroddwyd fod Pure wedi cyflwyno apêl i'r Arolygiaeth Gynllunio yn erbyn gorfodi amod 2 yn ei gwneud yn ofynnol adeiladu wal gerrig mewn darn byr ar hyd y ffin y tu ôl i'r is-orsaf drydan. Mae Scottish Power wedi cadarnhau y bydd gwaith gosod oddi ar y safle'n dechrau ar 06/04/20 gyda'r nod o gael ynni yn yr is-orsaf erbyn 24/04/20. Mae gan Pure dri mis i gydymffurfio gyda'r amod i adeiladu'r wal gerrig. Mae'r Awdurdod Cynllunio'n aros am hysbysiad ynghylch amserlen yr apêl – bydd cyfle i gyflwyno sylwadau i'r Arolygiaeth eu hystyried.

PENDERFYNWYD anfon llythyr i Pure yn mynegi siom ynghylch ei benderfyniad i apelio yn erbyn gorfodi amod 2 ynghylch y wal gerrig y tu ôl i'r is-orsaf drydan. Bwriedir gofyn i Pure ailystyried mynd â hyn i apêl.

666 PRIFFYRDD A'R AMGYLCHEDD

666.1 Ymgysylltu Cyhoeddus – Argyfwng Ecolegol a Newid yn yr Hinsawdd – Neges e-bost dyddiedig 05/02/20 gan Gyngor Sir Ddinbych – dyddiad cau'r ymgynghoriad 25/02/20 Cyflwynwyd – sylwadau wedi'u hysgrifennu gan y Cynghorydd Steve Whipp. Diolchwyd i'r Cynghorydd Whipp am ei ymdrechion a **PENDERFYNWYD** cyflwyno ei bapur i Gyngor Sir Ddinbych fel ymateb y Cyngor Cymuned.

RHAN 2 667 PENDERFYNWYD atal y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod oherwydd natur gyfrinachol yr eitemau a ganlyn:

668 MATERION ARIANNOL

668.1 Talu Cyfrifon/Anfonebau PENDERFYNWYD gwneud taliadau fel a ganlyn
£280.00 Doodle IT [Blaenda] – gwasanaethau gwefan
£423.38 Treuliau'r Clerc [Ionawr – Mawrth 2020]
£643.20 Sandra Williams [Gwasanaeth Cyfieithu]

668.2 Ceisiadau am Gymorth Ariannol gan

Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru

Eisteddfod Gerddorol Gydwladol Llangollen

Hysbyswyd fod Owl Cymru [elusen atal troseddau] yn dod i ben ar 31 Mawrth 2020 ac y gwnaed trefniadau i ganslo'r siec cymorth ariannol. Cymeradwywyd.

PENDERFYNWYD dyfarnu grantiau fel a ganlyn

£200 Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru [£120 i'w drosglwyddo o'r gyllideb Gweithgareddau Cymunedol i'r gyllideb Grantiau a Rhoddion fel y penderfynwyd ar 10/02/20] a gohirio penderfyniad ynghylch y cais gan Eisteddfod Gerddorol Gydwladol Llangollen am y tro.

668.3 Diweddariad ynghylch y broses Archwilio Tynnodd y Clerc sylw at adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch rheolaeth ariannol a llywodraethu Cynghorau Tref a Chymuned 2018-19. [Gwefan Swyddfa Archwilio Cymru - <https://www.audit.wales/publications>]. Bydd archwiliad 2019-20 yn canolbwyntio ar gofnodion swyddogol cyfarfodydd cynghorau ac yn 2020-21 bydd yn canolbwyntio ar y trefniadau cyflogi staff a sut mae cynghorau'r ymdrin â'u cyfrifoldebau dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol [lle bo'n berthnasol]. Bydd yr holl archwiliadau allanol cynghorau tref a chymuned yn cael eu cyflawni gan staff Swyddfa Archwilio Cymru o 2020-21. Yn y cyfamser mae JDH Business Services wedi anfon y cynllun archwilio mewnol ar gyfer 2019-2020. Gofynnwyd i'r Cynghorwyr nodi'r wybodaeth a chyfeirio unrhyw ymholiadau at y Clerc.

669 DYDDIADAU CYFARFODYDD YN Y DYFODOL

20/04/20 [Coleg Cambria Llysfasi], 18/05/20 [Ysgol Llanfair], 15/06/20 [Ysgol Pentrecelyn],
13/07/20 [Ysgol Llanfair], 14/09/20 [Coleg Cambria Llysfasi], 12/10/20 [Ysgol Llanfair],
09/11/20 [Ysgol Pentrecelyn], 14/12/20 [Canolfan Genus Llanrhydd]

11/01/21 [Coleg Cambria Llysfasi], 08/02/21 [Ysgol Llanfair], 08/03/21 [Ysgol Pentrecelyn]

Gorffennodd y cyfarfod am 9.10pm

_____ CADEIRYDD _____ DYDDIAD